



GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



CYNGOR BRO MORGANNWG

CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASON
ADRODDIAD BLYNYDDOL

2018-2019

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad	5
3. Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau?	9
3.1 Ymgynghoriadau Penodol i'r Gwasanaeth	9
3.2 Mesurau Ansoddol Llywodraeth Cymru	12
3.3 Ffyrdd eraill yr ydym wedi ymgysylltu â'n dinasyddion i siapio darpariaeth gwasanaeth	15
4. Canmol a Chwynion	18
4.1 Canmoliaethau	18
4.2 Cwynion	19
5. Hyrwyddo a Gwella Lles y Bobl a Helpwn	22
5.1 SAFON LLES 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni	23
5.2 SAFON LLES 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd meddwl a chorfforol a lles emosiynol pobl	27
5.3 SAFON LLES 3: Gweithredu i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag cam-drin, esgeulustod neu niwed	31
5.4 SAFON LLES 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas	35
5.5 SAFON LLES 5: Helpu pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach	38
5.6 SAFON LLES 6: Gweithio gydag a chefnogi pobl i gyflawni lle economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion	45
6. Sut a Wnawn yr Hyn a Wnawn	51
6.1 Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol	51
6.2 Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio at y Dyfodol	54
6.3 Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd	55
7. Cael Rhagor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol	66

1. Cyflwyniad

Fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros Fro Morgannwg, mae'n bleser gennyf allu amlinellu sut rydym wedi cyflawni gwelliannau yn lles y sawl sy'n manteisio ar ein gwasanaethau yn 2018/19. Mae'r gwaith hwn yn aml yn digwydd drwy bartneriaeth agos â'r bobl a wasanaethwn ac asiantaethau eraill. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan weithio gyda gweddill y Cyngor, yn cynnig ystod o wasanaethau i bobl sydd angen ein help, mewn ffordd sy'n ein galluogi gyda'n gilydd i ganolbwyntio ar hyrwyddo a gwella lles y bobl a gefnogwn.

Penderfynir ar fformat yr adroddiad hwn drwy reoliadau sy'n rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Defnyddia mesurau lles cymharol newydd i'n galluogi i gyfleu sut rydym yn cyfrannu at les pobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016-20 wedi cynnwys barn trigolion, partneriaid a staff i lywio ein blaenoriaethau allweddol wrth fynd ymlaen yn seiliedig ar 4 Canlyniad Lles:


- Canlyniad Lles 1: Bro gynhwysol a diogel. Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac maent yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol.
- Canlyniad Lles 2: Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac sy'n Ffynnu gydag economi cryf a chynaliadwy ac mae'r amgylchedd lleol yn cael ei diogelu i genedlaethau heddiw a'r dyfodol.
- Canlyniad Lles 3: Bro sy'n Fywlog yn Ddiwylliannol ac sydd â Dyheadau lle mae gan holl ddinasyddion Bro Morgannwg gyfleoedd i gyflawni eu llawn botensial.
- Amcan Lles 4: Bro Actif ac Iach, lle mae bywydau dinasyddion yn llai ac y caiff pobl agored i niwed eu diogelu a'u cefnogi.

Mae'r canlyniadau hyn yn gysylltiedig ag ystod o fesurau lles sy'n ein galluogi i ddangos sut rydym yn perfformio mewn ystod o wasanaethau, mewn ffordd integredig. Cyflwynwyd y model integredig newydd hwn o weithio i edrych ar bob agwedd ar ein trefniadau llywodraethu a chynllunio corfforaethol i sicrhau eu bod wedi'u rhyng-gysylltu, yn ategu'i gilydd, yn gyson ac yn cael eu gwneud ar y cyd. Mae'r safonau lles yn yr adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol hwn yn gysylltiedig â'r canlyniadau lles rydym am eu cyflawni fel Cyngor. Mae'r gorgyffwrdd rhwng yr adroddiad hwn ac adrannau perthnasol Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn sylweddol ac aliniwyd blaenoriaethau i'r graddau y bo'n ymarferol.

Yr adroddiad hwn yw ein ffordd ni o gyfrif am gynnydd wrth gyflawni'r hyn y dywedem y byddem yn ei wneud dros y 12 mis diwethaf ac wrth wneud hynny helpu pobl i ddeall sut mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu a diwygio gwasanaethau dros y tymor hwy. Er enghraifft enillodd ein model gofal cartref arloesol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau 'Eich Dewis' yn y Categori 'Dan Arweiniad Dinasyddion' yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'n cyflawniadau niferus (a amlinellir yng ngweddill yr adroddiad hwn), yn dyst i ymdrechion ac ymrwymiad ein staff. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff, ein partneriaid a'r cyhoedd fu'n rhan o'r gwaith hanfodol hwn. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, gobeithio y byddwch yn gweld y cysylltiadau rhwng yr hyn rydym wedi'i wneud wrth ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl, ac effaith gyfunol y Cyngor wrth hyrwyddo a gwella lles y bobl a helpwn.

Isod mae map sy'n rhoi crynodeb o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mro Morgannwg.



2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Dyma'r trydydd Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddefnyddio'r fframwaith adrodd cysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Pwrpas yr isadran perfformiad hwn yw:

- Rhoi trosolwg o'n perfformiad ledled y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys meysydd lle rydym wedi perfformio'n dda, a ddim mor dda.
- Adnabod y prif heriau sy'n wynebu Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n debygol o gael effaith ar ein perfformiad a siapio sut rydym yn darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol.

Ym mhob rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym yn monitro perfformiad y tri isadran (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Oedolion a Rheoli Adnoddau a Diogelu) sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth. Mae'r mesurau perfformiad yn cynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cenedlaethol, mesurau statudol sy'n gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a mesurau perfformiad lleol. Y mesurau hyn sy'n rhoi darlun i ni o'n perfformiad dros y flwyddyn nesaf.

Bellach, cesglir y data perfformiad hwn ac mae'n cael ei adrodd drwy System Gofal a Gwybodaeth Cymunedol Cymru (SGGCC). Mae'r system yn weithredol ers diwedd mis Tachwedd 2017. Yn ystod 2018/19, gwnaethom gyflawni hyfforddiant sylfaenol i bob aelod o staff ar sut i ddefnyddio'r system ynghyd â hyfforddiant unigryw ar ddatblygu byrddau gwaith perfformiad, ac o ganlyniad mae SGGCC yn weithredol ym mhob rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae adrodd ar lolfâ lawn o fesurau perfformiad yn dal i fod yn her, fodd bynnag mae nifer o faterion wedi'u goresgyn drwy:

- Wella gallu ein staff drwy recriwtio staff gyda sgiliau technegol.
- Recriwtio cynorthwyr rheoli gwybodaeth ychwanegol i ychwanegu mwy o wydnwch i'r tîm.
- Pennu gweithgor gweithredol lle bydd modd ystyried a thrafod materion ar y system.
- Gwella ansawdd yr adrodd drwy ddatblygu byrddau gwaith perfformiad i roi gwybodaeth berfformiad ddiweddar i reolwyr gwasanaeth ar sut mae eu gwasanaethau'n perfformio ar unrhyw adeg.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fireinio a datblygu ein prosesau gwaith gan ddefnyddio SGGCC i wella ansawdd ein gwybodaeth berfformiad.

Er gwaetha'r pwysau cyllidebol a'r galw cynyddol am ein gwasanaethau, rydym wedi dal i ddangos lefel gyson uchel o berfformiad o ran ein gwasanaethau. Fel ar 28 Ebrill, gwnaethom gasglu ac adrodd ar 22 o fesurau perfformiad. O'r 22 mesur perfformiad hwn, roedd hi'n bosibl gosod targed yn erbyn 7 o fesurau perfformiad. Lle nad oedd yn bosibl gosod targed, mae data cymharu ar gael sy'n ein galluogi ni i asesu ein perfformiad un ai ar sail Cymru gyfan neu'n erbyn ein perfformiad y flwyddyn gynt.

Uchafbwyntiau Perfformiad

- Cafodd 73.7% o blant gymorth i ddal i fyw gyda'u teulu a dychwelodd 6.29% o blant a dderbyniai ofal gartref ar ôl cael gofal yn ystod y flwyddyn. Mae cefnogi plant i aros gyda theulu neu ddychwelyd adref yn dal i fod yn ffocws cyson i'r adran. O ganlyniad, mae ein perfformiad mewn perthynas â'r ddau fesur yn well na chyfartaledd Cymru 2017/18.
- Roedd 100% o Blant sy'n Derbyn Gofal wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith o ddechrau yn y lleoliad. Roedd hyn yn well na'r targed o 99% ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn wedi bod yn ffocws allweddol i'r Tîm Lleoliad yn ystod 2018/19 i sicrhau bod gofalwyr yn cofrestru gofal plant dan eu gofal yn amserol.
- Mae rheoli sefydlogrwydd lleoliadau'n dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ein perfformiad yn y maes hwn wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â'r llynedd, oherwydd yn ystod 2018/19 dim ond 7.45% o Blant sy'n Derbyn Gofal wnaeth brofi tri neu fwy o newidiadau o gymharu â 11.84% yn y flwyddyn flaenorol. Mae ein perfformiad o 7.45% eleni hefyd yn well na pherfformiad Cymru gyfan sef 9.6%.
- Rydym yn dal i weithio gydag ystod o bartneriaid i gynorthwyo pobl ifanc sy'n gadael gofal ac ymgysylltu ag addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Roedd yn hysbys bod 53.85% o'r rhai adawodd ofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal yn 2018/19 o'i gymharu â 49.25% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu bod ein perfformiad yn unol â chyfartaledd Cymru y llynedd sef 51.4%.
- Rydym yn parhau i fod o fewn ein targed ar gyfer ailgofrestru plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant. Yn ystod 2018/19 roedd 9.68% yn ailgofrestriadau sydd o dan ein targed o 10% ar gyfer y flwyddyn.
- Wedi llwyddo i leihau canran yr oedolion mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod yr adroddir amdanynt fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn o 10.79% yn 2017/18 i 8% yn ystod 2018/19.
- Mae 16.82% o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion yn derbyn Taliadau Uniongyrchol er mwyn trefnu/cydlunu eu hanghenion gofal a chymorth eu hun, sy'n fwy na'r targed o 15%.

Meysydd perfformiad sydd angen eu gwella:

Mewn perthynas â'n disgwyliadau perfformiad (mesurau statws coch):

- Cwblhawyd 41.18% o asesiadau i blant o fewn amserlenni statudol, o'i gymharu â pherfformiad y flwyddyn gynt (2017/18) sef 65.46%. Mae'r tueddiad am i lawr hwn yn gysylltiedig â gweithredu SGGCC, gan fod y system newydd wedi bod yn cofnodi dyddiad dechrau'r asesiad o'r cam atgyfeirio. Er ein bod ni'n cydnabod bod hyn wedi creu anawsterau o ran sut rydym yn cofnodi ac yn adrodd ar rai agweddau ar ein gwaith, rydym yn dal i sicrhau bod pob atgyfeiriad yn cael ei sgrinio i sicrhau dyraniad amserol i'r rheiny â'r flaenoriaeth uchaf. O fis Ebrill 2019, rydym yn gwella'r broses gymeradwyo ar SGGCC fydd yn helpu o leihau oedi o ran cwblhau asesiadau i'r dyfodol.
- Cwblhawyd 88.51% o ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn 7 diwrnod gwaith, gan fethu â chyflawni'r targed o 100%.
- Yn ystod 2018/19, roedd graddfa'r Oedi Wrth Drosgrwyddo Gofal yn 6.57 fesul 1,000 o'r boblogaeth o'i gymharu â'n targed sef 2.50 a'n perfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf sef 2.81. Mae capasiti a hyfywedd yn y sector gofal cartref yn dal i fod yn her sylweddol sydd wedi bod yn effeithio'n negyddol ar ein gwasanaeth o ran

Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal. Mae heriau yn ystod y gaeaf wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad y mesur hwn ac yn benodol yn ystod mis Ionawr 2019. Fodd bynnag, ers mis Chwefror mae ein perfformiad wedi gwella'n raddol ac wedi'i gynnal.

- Mae Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro'n effeithiol wrth gefnogi pobl hŷn i adennill eu hannibyniaeth drwy becynnau cymorth ail-alluogi. Er i ni barhau i hyrwyddo'r gwasanaethau Teleofal i gefnogi ein defnyddwyr gwasanaeth i barhau i fyw'n annibynnol, roedd nifer y bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth Teleofal yn 2018/19 (309) yn is na'r targed, ac yn llai na'n perfformiad yn 2017/18 (330).

Dros y blynnyddoedd nesaf, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu heriau digynsail. Bydd graddfa'r heriau hyn yn effeithio ar ein perfformiad hirdymor, ar ein gallu i wella ein gwasanaethau yn barhaus ac i gyflawni canlyniadau ystyrlon i'n dinasyddion. Isod, amlinellir y prif heriau sy'n wynebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol dros y flwyddyn nesaf (2019/20):

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

- Mae nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal y mae eu hanghenion/amgylchiadau yn rhoi pwysau cynyddol ar ein cyllidebau. Er ein bod ni'n parhau i ganolbwyntio ar leihau'r gost, gwella sefydlogrwydd lleoliadau a lleihau ein dibynadwyedd ar y sector annibynnol a lleoliadau allan i'r ardal, mae nifer gynyddol o blant a phobl ifanc gydag anghenion mwy cymhleth sydd angen lleoliadau cost uwch.
- Rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r nifer gynyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal yw'r ffocws cynyddol ar drefniadau perthynas. Mae hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar ein hadnoddau presennol, oherwydd y gofyn i asesu aelodau'r teulu fel gofalwyr maeth. O ganlyniad, mae mwy o achosion cymhleth yn mynd i achosion gofal drwy'r Llys Teulu sy'n golygu mwy o wariant ar ofynion cyfreithiol ac sy'n effeithio ar gapasiti ein Timoedd Gofal Plant.
- Mae ein capasiti i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau plant a chymorth i deuluoedd, i sicrhau bod yr anghenion yn cael eu bodloni wrth leihau dyblygu o ran darpariaeth gwasanaeth yn dal i fod yn her. I helpu i fynd ar ôl hyn rydym wedi buddsoddi adnoddau i gynyddu ein capasiti wrth y 'drws blaen' i wella amseroldeb asesiadau anghenion a risg, ac i alluogi atgyfeirio priodol at wasanaethau eraill. Mae hyn wedi bod yn ffordd effeithiol o osgoi uwchgyfeirio materion a lleihau pwysau ar dimau Gwaith Cymdeithasol.
- Mae'r cynnydd yn nifer yr uwchgyfeiriadau i'r Gydweithfa Fabwysiadu Rhanbarthol (Cydweithfa Fabwysiadu'r Fro, Y Cymoedd a Chaerdydd) (VVC) yn effeithio ar bob un awdurdod cydweithredol. Does dim digon o fabwysiadwyr addas i ateb y galw o ran nifer y plant sydd angen eu mabwysiadu.
- Er mwyn darparu gwasanaethau plant a chymorth i deuluoedd cynaliadwy, mae arnom angen gweithlu sydd â'r sgiliau cywir i ymateb i'r dirwedd ddeddfwriaethol newidiol, a'r angen i weithredu ar sail ranbarthol. Golyga hyn fod angen symud at ganlyniadau ar y cyd lle mae plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn bartneriaid cyfartal o ran cynllunio a bodloni eu hanghenion gofal a chymorth.

Gwasanaethau Oedolion

- Yn sgil yr Adolygiad Seneddol o lechyd a Gofal Cymdeithasol, mae rhagor o bwyslais ar ddatblygu a gweithredu trefniadau i'n galluogi ni i gynnal gwaith comisiynu rhanbarthol.
- Er gwaethaf ein dull blaengar o ran gweithio gyda phartneriaid, mae cydweithio mewn perthynas â datblygu modelau cyflawni amgen yn dal i fod yn her fawr iawn yn wyneb adnoddau sy'n lleihau.
- Mae ein capasiti i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal yn parhau i fod yn her. Mae pwysau ariannol ac argaeledd gofal cartref wedi effeithio ar ein perfformiad yn y maes hwn.
- Er mwyn mynd ar ôl bregusrwydd gwasanaethau a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau statudol i'r dyfodol, bydd angen i ni adeiladu rhagor o wydnwch a chapasiti o fewn y timau. Mae hyn yn benodol berthnasol mewn perthynas ag Ymarferwyd lechyd Meddwl Cymeradwy a swyddi eraill sy'n 'anodd i'w penodi'.
- Mae anweddolrwydd llwybrau cyllid grant yn effeithio ar ein gallu i ddatblygu, comisiynu a chynnal gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n gwella ein capasiti i gyflawni gwasanaethau arloesol nawr ac i'r dyfodol.

Rheoli Adnoddau a Diogelu

- Mae diffyg capasiti a gwydnwch o fewn y marchnadoedd lleol i fodloni gofynion Nyrsio Preswyl a Gofal Cartref ac argaeledd lleoliadau i Blant sy'n Derbyn Gofal. Mae monitro sicrwydd ansawdd ein darparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd yn allanol yn anos oherwydd capasiti ac adnoddau annigonol i wneud y gwaith hwn, sy'n fwy dyrys oherwydd anweddolrwydd marchnadoedd allanol.
- Capasiti i gyflawni'r lefel o newid trawsnewidiol sydd ei hangen yn rhan o Raglen y Gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol a'n rhaglen waith ranbarthol.
- Cryfhau'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu'n effeithiol y strategaeth Llety â Gofal sy'n bodloni anghenion ein dinasyddion yn effeithiol.
- Pwysau ar ein capasiti i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn parhau i fod yn gadarn a'u bod nhw'n cael eu defnyddio'n gyson.
- Mae amserlenni ar gyfer glynu at Amddifadu o Ryddid (AoR) yn dal i roi pwysau sylweddol ar yr is-adran o ran llwyth gwaith swyddogion/capasiti a chyllidebau. Mae angen adolygu a monitro'r gwasanaeth i adnabod mecanweithiau ac adnoddau i wella'r capasiti.

Er gwaetha'r pwysau uchod, rydym wedi parhau i ymateb yn bositif i'r pwysau cyllidebol presennol a'r galw cynyddol am wasanaethau, drwy gymryd camau effeithiol i ail-lunio ac integreiddio ein gwasanaethau. Ar y sail hon, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu ein hagenda cydweithio blaengar o ran y gwasanaethau Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc sydd â ffocws ar integreiddio, comisiynu ar y cyd ac atal er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'n dinasyddion. Bydd hyn yn sicrhau yn y tymor byr a'r tymor canolig, bydd dinasyddion Bro Morgannwg yn gallu manteisio ar ofal a chymorth sydd wedi'i alinio'n well i'w hanghenion er mwyn cael canlyniadau gwell. Rydym yn gwybod pa welliannau sydd angen eu gwneud ac wedi pennu cynlluniau realistig i sicrhau y gallwn gyflawni hyn.

3. Sut mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau?

Mae cyfranogiad cyhoeddus yn rhan hanfodol o sicrhau ansawdd o ran darpariaeth gwasanaeth, nid yn unig oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi sut mae pobl yn teimlo am ein gwasanaethau, ond gan fod eu llais yn hanfodol o ran siapio ein gwasanaethau i sicrhau y gallwn gyflawni beth sydd fwyaf pwysig iddyn nhw.

Elfen hanfodol ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw canolbwyntio ar roi llais a rheolaeth i ddinasyddion dros y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw o ran eu hanghenion gofal a chymorth. Caiff hyn ei ategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig i Bobl Hŷn, sy'n nodi'r angen i gael eu clywed ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Galluogi dinasyddion i gael llais ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, grymuso nhw i ddiffinio a chyflawni eu canlyniadau bwriedig mewn ffordd ystyrlon sy'n eu galluogi nhw i wella eu lles a'u synnwyr annibyniaeth. Yn ystod 2018/19 rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gryfhau'r mecanweithiau hyn drwy ein rhaglen barhaus o ymgynghori, a'n ffrwd gwaith ymgysylltu â dinasyddion fel y gall dinasyddion helpu ni i werthuso ein gwasanaethau a siapio darpariaeth gwasanaeth i'r dyfodol.

Mae ymgorffori adborth gan ddinasyddion, staff ac asiantaethau partner ar eu barn a phrofiadau yn rhan hanfodol o sicrwydd ansawdd ac o ddatblygu diwylliant o welliant parhaus. Mae ein Swyddog Sicrwydd Ansawdd yn cefnogi ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth drwy raglen barhaus o ymgynghoriadau sy'n canolbwyntio ar ymchwilio gwasanaethau penodol er mwyn pennu lefelau boddhad i lywio gwelliannau polisi, arferion a darpariaeth gwasanaeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu pennu a'u cytuno bob blwyddyn gan yr Uwch Dîm Reoli mewn Cynllun Blaenoriaethau Ymgynghori Blynyddol. Mae'r ymgynghoriadau hyn ar wasanaethau penodol yn ymchwilio i brofiadau defnyddwyr gwasanaeth, i weld os yw eu hanghenion yn cael eu bodloni drwy'r ddarpariaeth gwasanaeth gan ganolbwyntio ar eu lles ac yn canolbwyntio ar bennu a yw defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo fel eu bod ynghlwm wrth brosesau asesu a/neu eu cynllun gofal. Ar gyfer bob un o'r ymgynghoriadau hyn sy'n benodol ar wasanaeth; bydd adroddiad manwl cysylltiedig – adroddiad crynodeb – yn cael ei greu a chynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i fynd ar ôl unrhyw feysydd i'w gwella ledled y Gwasanaethau Cymdeithasol. I sicrhau bod dysgu mewn un maes yn cael ei drosi'n welliannau ar draws y Gyfarwyddiaeth, cesgllir materion yn ôl thema.

3.1 Ymgynghoriadau Penodol i'r Gwasanaeth

Yn ystod 2018/19, cynhaliwyd pum ymgynghoriad penodol i'r gwasanaeth a oedd yn cynnwys: Gwasanaethau Maethu, Gwasanaethau Gofal Preswyl, Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion, y Tîm Adnoddau Cymunedol a Dechrau'n Deg. Wedi'i amlinellu isod mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Gwasanaethau Maethu

Roedd ymgynghoriad o'r holl ofalwyr prif ffrwd a maeth perthyn ar ffurf arolwg a chyfweliadau wyneb yn wyneb. Y pwrpas oedd ymchwilio i farn a phrofiadau gofalwyr a phobl ifanc mewn lleoliadau er mwyn adnabod arfer da ac i bennu meysydd i'w gwella a chyfeiriad a datblygiad y gwasanaeth i'r dyfodol. Anfonwyd holiaduron at 131 o ofalwyr maeth gan gynnwys 75 o ofalwyr maeth prif ffrwd a 56 o ofalwyr maeth oedd yn perthyn.

Cafwyd 46 ymateb (41 o ofalwyr maeth prif ffrwd a 5 o ofalwyr sy'n berthnasau) sy'n cynrychioli graddfa ymateb o 35%.

Amlygodd yr ymgynghoriad y ffaith, ar y cyfan, fod gofalwyr maeth yn bles â'r wybodaeth a'r cymorth a gawsant gan y Gwasanaeth Maethu. Cafodd bron pob ymatebwr wybodaeth ysgrifenedig briodol yn ystod yr asesiad a gofynnwyd i 95% ohonynt am wybodaeth berthnasol fel canolwyr. Gwnaeth yr ymgynghoriad hefyd nodir lefelau uchel o foddhad (95%) â'r broses asesu a chymeradwyo.



Ymgynghoriad Gwasanaethau Preswyl

Cafodd preswylwyr a'u perthnasau eu hymgyngoriad ar eu boddhad a'u profiad o wasanaethau gofal preswyl yn y Fro drwy holiadur a chyfweliadau wyneb yn wyneb. Rhannwyd yr arolwg â'r holl gartrefi preswyl sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor; Cartref Porthceri, Southway, Tŷ Dyfan a Thŷ Dewi Sant. Ar y cyfan, roedd 98 o ymatebwyr (preswylwyr a pherthnasau) i'r holiaduron/cyfweliadau wyneb yn wyneb ledled y pedwar lleoliad preswyl, sy'n cynrychioli graddfa ymateb o 49%.

Prif ganfyddiadau'r preswylwyr

Allan o'r 73 arolwg/cyfweliad wyneb yn wyneb, roedd 48 o ymatebion gan breswylwyr ledled y pedwar lleoliad preswyl, sy'n cynrychioli graddfa ymateb o 66%.

Ar y cyfan, nododd 34 allan o'r 48 o ymatebwyr eu bod nhw'n teimlo fel eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant orau, ac sy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Dywedodd 30 allan o'r 48 o ymatebwyr eu bod o'r farn eu bod wedi bod ynghlwm wrth benderfyniadau am eu gofal a chymorth. Yn gyffredinol, mae preswylwyr yn fodlon ar eu gofal, oherwydd dywedodd 33 allan o'r 48 o ymatebwyr eu bod nhw'n fodlon ar y gofal a cymorth yr oeddent yn ei dderbyn.

Prif ganfyddiadau aelodau'r teulu

Allan o'r 128 o arolygon a rannwyd, ymatebodd 50 o'r perthnasau sy'n cynrychioli graddfa ymateb o 39% ledled y pedwar lleoliad preswyl.

Dywedodd y perthnasau fod y preswylwyr yn hapus ac yn derbyn gofal da, a nododd 28 o berthnasau bod eu hanwyliaid yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Ar y cyfan, roedd y perthnasau'n fodlon bod anghenion eu teulu (preswylwyr) yn cael eu bodloni a bod cyfleoedd i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau, sy'n rhoi sicrwydd a thawelwch meddwl iddyn nhw.



Gwasanaeth Lleoli Oedolion

Yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth gyda theuluoedd croeso a theuluoedd croeso sy'n cael cefnogaeth gan y Gwasanaeth Lleoli Oedolion am eu barn/profiadau o'r gwasanaeth. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd mesur lefelau boddhad ynghyd ag adnabod unrhyw feysydd i'w gwella. Cafodd arolwg ei rannu (gan gynnwys fersiwn hawdd i'w darllen) ymysg y 38 gwesteiwr (fel ag yr oedd ym Mehefin 2018) a 79 o ddefnyddwyr gwasanaeth. O'r rhain, ymatebodd 11 o westeiwyr a 30 o ddefnyddwyr gwasanaeth, sef cyfradd ymateb o 35%.

Ar y cyfan, roedd y defnyddwyr gwasanaeth a'r gwesteiwyr yn teimlo bod y wybodaeth a dderbyniwyd am y Gwasanaeth Lleoli Oedolion yn glir ac yn ddefnyddiol. Er enghraifft, roedd 81% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn credu bod y wybodaeth a dderbyniwyd yn glir

ac roedd 93% o'r farn fod y wybodaeth yn ddefnyddiol. Yn yr un modd, roedd 82% o'r gwesteiywyr a ymatebodd i'r arolwg yn nodi bod y wybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar a dderbyniwyd wedi rhoi dealltwriaeth glir ynghylch beth all y gwasanaeth gynnig. Nodwyd yr angen i ddiweddarau'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Nododd bob defnyddiwr gwasanaeth a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn credu bod eu gwesteiywyr yn addas i fyw gyda nhw, a'u bod yn fodlon ar y cyflwyniadau i'r gwesteiywyr a'u teuluoedd. Fodd bynnag, awgrymwyd fod angen i'r gwasanaeth ddod i nabod y gwesteiywyr yn well er mwyn darparu mwy o gymorth.

Ar y cyfan roedd yr adborth ar y gwasanaeth Lleoli Oedolion yn gadarnhaol iawn o ran defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd cynnal. Nododd 100% o ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd a nododd 82% o'r gwesteiywyr eu bod nhw'n fodlon ar y Gwasanaeth Lleoli Oedolion ar y cyfan. Dim ond 18% o'r gwesteiywyr wnaeth nodi nad oeddent yn fodlon ar y gwasanaeth.



Dechrau'n Deg

Ymgynghorwyd â rhieni sy'n defnyddio'r gwasanaethau Dechrau'n Deg ar eu boddhad a'u profiad o ran y gwasanaeth ar ffurf holiadur oedd yn targedu teuluoedd yr oedd eu plant eisoes wedi mynychu'r ail dymor o ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg. O'r 150 o holiaduron a rannwyd, roedd 32 o ymatebwyr oedd yn cynrychioli cyfradd ymateb o 21%. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr hyn (91%) yn fenywaidd.

Ar y cyfan dywedodd rhieni eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth Dechrau'n Deg. Roedd 97% o'r ymatebwyr o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn amserol ac roedd 100% o'r farn fod y cymorth yn berthnasol i'w hanghenion, a chytunodd 69% bod Dechrau'n Deg wedi cefnogi nhw i fodloni anghenion ieuchyd eu plant. Nododd rhai o'r ymatebwyr bod staff wastad yn gwneud amser i ymateb i ymholiadau ac yn hyblyg o ran dull. Roedd 100% o'r staff o'r farn fod staff yn gwrando ar eu barn a/neu bryderon. Nododd 88% o'r ymatebwyr bod staff Dechrau'n Deg wedi'u cyfeirio nhw at allu defnyddio gwasanaethau cymorth ychwanegol lle bo angen, megis meddyg teulu, cyngor ar dai ac ati.

Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro

Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael gofal a chymorth gan Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro yn Ysbyty'r Barri. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd sicrhau bod pobl yn derbyn safonau uchel o ofal a chymorth i'w galluogi nhw i gynnal eu hannibyniaeth ar ôl dod o'r ysbyty. Rhannwyd cyfanswm o 286 o holiaduron i ddefnyddwyr gwasanaeth, a chafwyd 90 ymateb sy'n gyfradd ymateb o 31%. Yn ogystal, cafodd pump o ddefnyddwyr gwasanaeth gyfweiliad gan ddefnyddio holiadur wyneb yn wyneb.

Nododd 78% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi cael y wybodaeth a'r cyngor cywir pan fo angen, a nododd 97% eu bod wedi'u trin gydag urddas a pharch. Yn ystod yr agweddau asesiad a chynllunio gofal ar eu gofal, cytunodd 88% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael eglurhad o beth fyddai'n digwydd nesaf, er mai dim ond 56% wnaeth nodi eu bod wedi derbyn copi o'u cynllun darpariaeth gwasanaeth.

Pan ofynnwyd iddynt am ddibynadwyedd y gwasanaeth, nododd 93% o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod y gwasanaeth yn ddibynadwy, ac roedd bob ymatebwr yn hapus gyda'r ffordd yr oedd y gwasanaeth yn datrys unrhyw ymholiadau.

O ran cyflawni amcanion, roedd 78% yn credu bod y gwasanaeth wedi helpu nhw i wella neu gynnal eu hannibyniaeth, roedd 89% yn teimlo fel eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi a 90% o'r farn bod eu hanghenion adsefydlu wedi'u bodloni. Nododd llawer o'r ymatebwyr nad oeddent yn credu y byddent wedi gallu ymdopi â thasgau bob dydd heb y gwasanaeth. Roedd 63% o'r ymatebwyr yn credu bod y gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, gyda 93% yn sgorio'r gwasanaeth un ai'n ardderchog neu'n dda. Ar y cyfan, roedd defnyddwyr gwasanaeth yn canmol y staff gan ddweud bod 'staff yn gofalu amdanynt ac yn teimlo sicrwydd eu bod yn gweithio tuag at annibyniaeth'.

3.2 Mesurau Ansoddol Llywodraeth Cymru

Gofyniad dan Adran 145 Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yw ein bod yn mesur drwy foddau ansoddol (holiaduron a chyfweliadau) ein perfformiad o ran dinasyddion sy'n cael gofal a chymorth (bod cynllun gofal/cymorth ar waith). Roedd y gwaith ar ffurf holiaduron a chyfweliadau ac mae'n hwyluso dadansoddiad ansoddol o'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Anfonwyd holiaduron a llythyrau eglurhaol i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth perthnasol gan gynnwys plant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r adran, eu rhieni, a'r holl ofalwyr anffurfiol ac oedolion (yr oedd y cyfan ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg a fersiwn syml lle y bo'n briodol). Dechreuodd yr ymgynghoriad yn ystod Ionawr 2019 a daeth i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

Cafodd cyfanswm o 2,430 o holiaduron eu hanfon i ddefnyddwyr gwasanaeth gyda 691 yn cael eu dychwelyd sef cyfradd ymateb o 28.4%. Gall grwpiau defnyddwyr gwasanaeth ddadansoddi'r holiaduron. Mae'r grwpiau thematig hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, rhieni, oedolion, yn ogystal ag oedolion a ymatebodd i'r holiadur syml, gofalwyr, oedolion sydd wedi cael cymorth gan y Tîm Adnoddau Cymunedol a rhieni/gwarcheidwaid sydd wedi cael cymorth drwy Linell Wybodaeth Teuluoedd Yn Gyntaf. Mae tystiolaeth o ganlyniadau cyffredinol yr arolwg ansoddol ym mhob un o'r Safonau Llesiant fydd yn cael eu trafod yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Holiadur Plant a Phobl Ifanc

Dosbarthwyd cyfanswm o 373 o holiaduron, gyda 65 o blant a phobl ifanc yn ymateb sef cyfradd ymateb o 17%. O'r rheiny wnaeth ymateb i'r data cydraddoldeb, roedd 59% (35) yn wrywaidd a 41% (24) yn fenywaidd. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (54%) rhwng 7-14 oed, a 33% oedd rhwng 15-17 oed a 13% oedd rhwng 18-25 oed. Roedd yr ymateb i bob un o gwestiynau'r arolwg fel a ganlyn:

- Teimlai 98.3% (59) o ymatebwyr eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles orau.
- Nododd 98.1% (52) eu bod yn hapus gyda'r bobl oedd yn byw gyda nhw.
- Nododd 96.6% (58) eu bod yn gallu gwneud pethau yr hoffent eu gwneud (beth sy'n bwysig i nhw).
- Dywedodd 90% (54) eu bod yn fodlon gyda chefnogaeth eu teulu, ffrindiau a chymdogion (rhwydweithiau cymdeithasol).
- Nododd 98.3% (58) eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel.
- Nododd 96.5% (56) eu bod nhw'n gwybod pwy i gysylltu â nhw am eu gofal a chymorth.
- Dywedodd 94.9% (56) eu bod yn derbyn y wybodaeth neu gyngor cywir pan fo angen.
- Teimlai 88.1% (52) bod rhywun wedi gwrando ar eu barn am eu gofal a chymorth.
- Nododd 98.3% (59) eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch.
- Nododd 95% (57) eu bod yn fodlon ar y gofal a chymorth yr oeddent wedi'i dderbyn.

- Dywedodd 80.7% (21) eu bod wedi derbyn cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi at fod yn oedolyn.
- Roedd 64.4% (29) wedi cael gwybod am hawliau plant.
- Teimlai 98.2% (55) fod pobl eisiau'r gorau iddyn nhw.
- Teimlai 98.1% (52) bod ganddynt reolaeth dros eu bywyd bob dydd.
- Sgoriodd 87.7% (50) eu synnwyr o lesiant un ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'.
- Teimlai 92.9% (53) bod y gofal a chymorth yr oeddent wedi'i dderbyn wedi helpu eu synnwyr llesiant.

Holiadur Rhieni

O'r 173 o rieni a gafodd holiadur, ymatebodd 29 sef cyfradd ymateb o 28%. O'r rheiny wnaeth ymateb i'r data cydraddoldeb, roedd 17% (5) yn wrywaidd a 83% (24) yn fenywaidd. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (93%) rhwng 25-64 oed, a 4% oedd rhwng 18-24 oed a 3% oedd rhwng 65-84 oed. Roedd yr ymateb i bob un o gwestiynau'r arolwg fel a ganlyn:

- Dywedodd 96.1% (23) o rieni eu bod wedi bod ynghlwm wrth bob penderfyniad am ddarpariaeth gofal a chymorth eu plant/plentyn.
- Roedd 88.5% o rieni un ai'n cytuno'n gryf/cytuno bod eu Gweithiwr Cymdeithasol yn gwrandio arnyn nhw mewn ffordd sy'n dangos eu bod eisiau deall y teulu.
- Roedd 82.8% (24) o rieni'n cytuno'n gryf/cytuno bod eu Gweithiwr Cymdeithasol yn gwneud yr hyn y maent yn dweud y bydd yn ei wneud.
- Roedd 70.4% (19) o rieni'n cytuno'n gryf/cytuno bod eu Gweithiwr Cymdeithasol yn sylweddoli ar beth sy'n gweithio'n dda i'r teulu o ran gofal, diogelwch a llesiant.
- Roedd 78.6% (22) o rieni yn cytuno'n gryf/cytuno bod eu Gweithiwr Cymdeithasol wedi bod yn glir ynghylch y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar y teulu.
- Roedd 85.7% (24) o rieni'n cytuno'n gryf/cytuno eu bod ar yr un dudalen â'r Gweithiwr Cymdeithasol o ran beth oedd eu pryderon.
- Roedd 82.8% (24) o rieni'n cytuno'n gryf/cytuno eu bod ynghlwm o ran datblygu cynllun gofal a chymorth eu plentyn.
- Roedd 70.4% (19) o rieni'n cytuno'n gryf/cytuno bod eu Gweithiwr Cymdeithasol yn treulio amser gyda'u plant/plentyn ac wedi gwrandio arnynt.
- Roedd 56% (14) o rieni'n cytuno'n gryf/cytuno bod eu Gweithiwr Cymdeithasol wedi sicrhau bod eu plant/plentyn yn deall yn union beth oedd ar waith i'w helpu.
- Roedd 82.8% (24) o rieni'n cytuno'n gryf/cytuno bod eu Gweithiwr Cymdeithasol yn awyddus i ddatrys eu problemau.
- Roedd 89.3% (25) o rieni'n teimlo bod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi helpu i wella eu llesiant nhw a'u plant.

Holiadur Gwasanaethau Oedolion

Dosbarthwyd cyfanswm o 1,742 i Ddefnyddwyr Gwasanaeth oedd yn oedolion gyda 557 yn ymateb sef cyfradd ymateb o 32%. O'r rheiny wnaeth ymateb i'r data cydraddoldeb, roedd 38% (181) yn wrywaidd a 56% (295) yn fenywaidd. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (42%) dros 85 oed, a 29% oedd rhwng 65-84, 23% oedd rhwng 25-64 oed a 6% oedd rhwng 18-24 oed. Roedd yr ymateb i bob un o gwestiynau'r arolwg fel a ganlyn:

- Teimlai 94.2% (499) o ymatebwyr eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles orau.
- Nododd 90% (484) eu bod yn gallu gwneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw.
- Dywedodd 78.7% (428) eu bod yn teimlo'n rhan o'r gymuned.
- Dywedodd 96% (511) eu bod yn fodlon gyda chefnogaeth eu teulu, ffrindiau a chymdogion (rhwydweithiau cymdeithasol).

- Nododd 94.9% (505) eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel.
- Nododd 86% (454) eu bod nhw'n gwybod pwy i gysylltu â nhw am eu gofal a chymorth.
- Dywedodd 91.1% (482) eu bod yn derbyn y wybodaeth neu gyngor cywir pan fo angen.
- Dywedodd 91.6% (392) o ymatebwyr eu bod o'r farn eu bod wedi bod ynghlwm wrth benderfyniadau am eu gofal a chymorth.
- Roedd 98.5% (534) yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.
- Roedd 98.9% (541) yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- Nododd 96.5% (414) eu bod yn fodlon ar y gofal a chymorth yr oeddent wedi'i dderbyn.
- Nododd 70.6% (89) mai eu dewis nhw oedd byw mewn cartref gofal preswyl.
- Teimlai 88.5% (299) bod ganddynt reolaeth dros eu bywyd bob dydd.
- O'r rheiny rhwng 18-24 (6%), nododd 80% (36) eu bod wedi derbyn cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi at fod yn oedolyn (pontio).
- Teimlai 93.4% (327) bod y gofal a chymorth yr oeddent wedi'i dderbyn wedi helpu eu synnwyr llesiant.
- Sgoriodd 54.9% eu synnwyr o lesiant un ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'.

Holiadur Gofalwyr

O'r 142 o holiaduron a anfonwyd, ymatebodd 40 o ofalwyr sef cyfradd ymateb o 28%. O'r rheiny wnaeth ymateb i'r data cydraddoldeb, roedd 21% (8) yn wrywaidd a 79% (30) yn fenywaidd. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (49%) rhwng 25-64 oed, a 38% oedd rhwng 65-84, 10% oedd dros 85 oed a 3% oedd rhwng 18-24 oed. Roedd yr ymateb i bob un o gwestiynau'r arolwg fel a ganlyn:

- Teimlai 92.1% (35) o ymatebwyr eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles orau.
- Nododd 87.2% (34) eu bod yn gallu gwneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw.
- Nododd 84.2% (32) eu bod yn teimlo'n rhan o'r gymuned.
- Dywedodd 83.8% (31) eu bod yn fodlon gyda chefnogaeth eu teulu, ffrindiau a chymdigion (rhwydweithiau cymdeithasol).
- Nododd 97.3% (36) eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel.
- Nododd 76.3% (29) eu bod nhw'n gwybod pwy i gysylltu â nhw am eu gofal a chymorth.
- Dywedodd 84.6% (33) eu bod yn derbyn y wybodaeth neu gyngor cywir pan fo angen.
- Dywedodd 89.5% (34) o ymatebwyr eu bod wedi bod ynghlwm wrth benderfyniadau am eu gofal a chymorth.
- Dywedodd 89.7% (35) eu bod wedi bod ynghlwm wrth benderfyniadau am sut darperir gofal a chymorth i'r person y maent yn gofalu amdanynt.
- Roedd 100% (38) yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.
- Roedd 100% (38) yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- Nododd 81.1% (30) eu bod yn teimlo fel bod ganddynt gefnogaeth i barhau yn eu rôl ofalu.
- Nododd 88.9% (32) eu bod yn fodlon ar y gofal a chymorth yr oeddent wedi'i dderbyn.
- Teimlai 78.9% (30) bod ganddynt reolaeth dros eu bywyd bob dydd.
- Nododd 83.8% (31) bod ganddynt ddigon o amser i edrych ar ôl eu hiechyd a lles eu hunain.
- Teimlai 73.7% (28) bod y gofal a chymorth yr oeddent wedi'i dderbyn wedi helpu eu synnwyr llesiant.
- Sgoriodd 25% eu synnwyr o lesiant un ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'.



3.3 Ffyrdd eraill yr ydym wedi ymgysylltu â'n dinasyddion i siapio darpariaeth gwasanaeth

Rydym o hyd yn chwilio am ffyrdd o gynnwys ein defnyddwyr gwasanaeth wrth helpu i lunio ein gwasanaethau. Mae ymgysylltu â dinasyddion yn thema ganolog yn Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae ymgysylltu â dinasyddion yn galluogi pobl i fynegi barn yn effeithiol, gwneud penderfyniadau call ac i lywio gwelliannau gwasanaeth. Mewn ymateb i ofynion y Ddeddf, sefydlwyd ffrwd gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion rhanbarthol ym mis Chwefror 2018. Mae'r ffrwd gwaith yn siapio datblygiad parhaus gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion ac yn cefnogi'r broses o ran gwella ein harferion a ffyrdd o weithio.

Mae ein blaenoriaethau ffrwd gwaith ar gyfer y rhanbarth yn canolbwyntio ar:

- Sicrhau bod y rhanbarth yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu effeithiol â dinasyddion drwy ddefnyddio gwersi a ddysgwyd i siapio newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth;
- Mapio ystod y fforymau a'r mecanweithiau a ddefnyddir ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion i fanteisio ar y cyfleoedd cydweithio ar weithgareddau ymgysylltu ledled y rhanbarth; a
- Amlygu pocedi o arfer gorau mewn perthynas ag ymgysylltu â dinasyddion a datblygu dulliau/teclynnau arfer da i gefnogi staff gyda gweithgareddau ymgysylltu.

Yn ystod 2018/19, mae datblygiadau ffrwd gwaith allweddol fel a ganlyn:

- Ymarfer mapio rhanbarthol a gwblhawyd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd yr ymarfer hwn 177 o grwpiau ledled y rhanbarth yr ydym yn ymgysylltu â nhw.
- Cynyddu ein presenoldeb ac ymgysylltu gyda dinasyddion gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, megis Facebook, i gyfathrebu negeseuon allweddol am sut rydym yn perfformio, llwyddiannau a straeon newyddion da eraill ynghyd â chyfleoedd i hyrwyddo ymgysylltu. Mae gennym 11K o ddilynwyr yma ym Mro Morgannwg.
- Creu ffeithlun sy'n amlygu ein cyfleoedd ymgysylltu posibl ar gyfer y rhanbarth.

Yn ogystal â'r uchod, rydym wedi datblygu ein dull ymgysylltu â dinasyddion drwy ganolbwyntio ar gryfhau'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu gyda'n dinasyddion i fod ynghlwm wrth y broses herio sy'n gysylltiedig â Fframwaith Adrodd Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Blynyddol. Yn ystod 2018/19, gwnaethom fwrw ymlaen â hyn drwy adnabod grŵp o ddinasyddion sy'n derbyn gofal a chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol wnaeth fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y broses herio sy'n gysylltiedig â chreu'r adroddiad hwn (y broses FfACB). Gwnaethom gomisiynu Tempo (SPICE gynt) i hwyluso darpariaeth gweithdy a alluogodd y grŵp hwn i gymryd rhan yn y broses herio. Gwnaethom roi credydau amser i dalu nôl am eu hamser a'u cyfraniad.

Cynhaliwyd gweithdy bychan ar 14 Mai 2018 a fynychwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth (dinasyddion) sydd wedi defnyddio ystod eang o Wasanaethau Cymdeithasol. Roedd y Gweithdy'n canolbwyntio ar ofyn i unigolion am eu profiadau o'r gofal a chymorth y maen nhw neu eu teuluoedd yn eu derbyn mewn perthynas â'r chwe Safon Llesiant. Gofynnodd hefyd i fynychwyr y Gweithdy i adnabod beth rydym wedi'i wneud yn dda ac unrhyw feysydd i'w gwella. Yn ogystal â hyn, trafodwyd y blaenoriaethau gwella arfaethedig ar gyfer 2019/20 sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

Nododd defnyddwyr gwasanaeth nifer o feysydd yr oeddent o'r farn ein bod yn perfformio'n dda mewn perthynas â'r Safonau Llesiant. Dywedodd y defnyddwyr gwasanaeth yn y gweithdy:

- Roeddent yn gwerthfawrogi'r cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn ac yn canmol staff h.y. Gofalwyr, Gweithwyr Cymdeithasol a'r effaith bositif ar eu bywydau bob dydd.
- Roedd atgyfeiriadau at wasanaethau eraill am gymorth adsefydlu wedi gweithio'n dda ac roedd llawer yn eu gwerthfawrogi.
- Mae ein dull newydd o ran brysbennu meddyg teulu ac ailddatblygu Rhoose Road o gyfleuster ysbeidiol i lety â chymorth wedi'i ystyried yn ddatblygiad positif.
- Roedd y cymorth a dderbyniwyd o ran Teleofal ac addasiadau i'r cartref wedi'u helpu nhw i deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain a chael lefelau uwch o annibyniaeth.
- Roeddent yn gwerthfawrogi teimlo fel bod rhywun yn gwrando arnynt o ran penderfyniadau am eu gofal a chymorth.
- Roedd gwasanaethau ysbeidiol yn cael eu gwerthfawrogi, gan eu bod nhw'n galluogi gofalwyr i gael amser iddyn nhw eu hunain.
- Roeddent yn mwynhau cael cyswllt â gweithwyr proffesiynol yn eu cartref eu hunain o bersbectif cymdeithasu, sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n llai ynysig.

O ran y meysydd i'w gwella, nododd y mynychwyr yr hyn a ganlyn:

- Anhyblygrwydd gwasanaethau. Yr angen i sicrhau ein bod yn gallu teilwra gwasanaethau'n well a chefnogi anghenion unigolion.
- Gwella sut rydym yn rhannu gwybodaeth, yn benodol o ran newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau.
- Trafnidiaeth a'r anawsterau ynghlwm wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn cymunedau oherwydd diffyg trafnidiaeth.
- Ymwybyddiaeth well a mynediad at wybodaeth am wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael iddyn nhw yn eu cymunedau drwy ystod o lwyfannau. Gwella ystod yr opsiynau cyfathrebu sydd wedi'u teilwra'n well i anghenion yr unigolion, gan fod rhai pobl yn ffafrio galwadau ffôn a llythyrau, gan nad oes gan bawb fynediad at ddulliau digidol. Hoffent weld mwy o wybodaeth mewn hybiau canolog megis llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a meddygfeydd.
- Angen gwella amseroldeb cwblhau cynlluniau gofal.
- Gall nifer y wybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth deimlo'n ormod.
- Wedi cael trafferthion wrth ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol ac mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo fel mai nhw yw'r cyflogwr.
- Canfyddiad gwael am weithgareddau ymgynghori, gan arwain at ddisgwyliadau isel o ran sut all defnyddwyr gwasanaeth lywio/siapio darpariaeth gwasanaeth.
- Mwy o hyfforddiant i staff, oherwydd gall gofal deimlo'n glinigol iawn ac yn seiliedig ar amser.
- Pryderon ynghylch pobl yn dod yn ofalwyr a diffyg cydnabyddiaeth am y rôl.
- Diffyg ymwybyddiaeth am y cynllun 'Eich Dewis Chi' a sut mae'n gweithio.
- Angen ystod eang o wasanaethau oherwydd nid yw'r gweithgareddau'n apelio i bob unigolyn. Yn benodol, gweithgareddau fyddai'n apelio i grwpiau a menywod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Gwella rhannu gwybodaeth o ran diogelu ac ar lefel gymunedol.
- Nid yw newidiadau bychan i bolisiau, arferion a gwasanaethau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol i'r defnyddiwr gwasanaeth.
- Anawsterau o ran cael mynediad at gyfleoedd addysgol oherwydd cyflyrau iechyd cymhleth, a dim gwybodaeth o ran lle i fynd i gael mynediad at gymorth.

O ran blaenoriaethau i'w gwella a gafodd eu nodi a oedd yn alinio â'r safonau llesiant, roedd y mynychwyr yn cytuno bod y rhai a adnabuwyd yn berthnasol i wella sut rydym yn darparu ein gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo bod rhai meysydd yn fwy o flaenoriaeth na rhai eraill, gan nodi'r rhain drwy ymarfer blaenoriaethu. Gofynnwyd i fynychwyr adnabod (pleidleisio) pob un o'r safonau llesiant o ran beth ddylai'r prif flaenoriaethau fod i Wasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg dros y flwyddyn nesaf (2019/20).

Roedd y prif flaenoriaethau a nodwyd gan y grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth fel a ganlyn:

- Gwella rheolaeth ein galwadau gan gwsmeriaid i leihau amseroedd aros ar gyfer mewnbwn Gwaith Cymdeithasol.
- Cryfhau ein dull cyd-gynhyrchu mewn modd effeithiol i sicrhau ein bod ni'n gweithio'n effeithiol ac yn cynnwys ein dinasyddion iau i fodloni eu hanghenion gofal a chymorth.
- Sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth llesiant mwyaf perthnasol a phriodol i sicrhau bod sgiliau meddygon teulu ac apwyntiadau'n cael eu defnyddio'n briodol.
- Sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r gofynion sydd ynghlwm wrth arferion diogelu a chwblhau datblygiad Trefniadau Diogelu Cymru.
- Darparu strategaeth gyson a chydlynol mewn perthynas â gofalcwyr, o ran y polisïau a'r arferion y mae gweithwyr proffesiynol yn eu dilyn.
- Bwrw ymlaen â gwaith project rhwng y cenedlaethau sy'n cynnwys ysgolion a lleoliadau gofal.
- Gwerthuso ac adolygu'r defnydd o dechnoleg cymorth i gefnogi oedolion i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.
- Gweithio gyda'r is-adran Tai i weithredu ein dull Llety â Gofal i gefnogi a manteisio ar gyfleoedd i fyw'n annibynnol.

Ein prif heriau o ran ymgysylltu â dinasyddion:

Mae sawl her sydd ynghlwm wrth weithredu dull sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion sy'n effeithio ar ein gallu i alluogi dinasyddion i deimlo'n rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac i siapia sut fydd gwasanaethau'n cael eu darparu a'u gwella.

Yn ystod 2018/19, mae'r heriau allweddol o ran ymgysylltu â dinasyddion fel a ganlyn:

- Heriau ynghlwm wrth sicrhau bod ein gwaith ymgynghori/ymgysylltu'n gyfrannol ac yn cynrychioli'r ystod o wasanaethau a dinasyddion.
- Goresgyn anawsterau ynghlwm wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i wella nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd ymgysylltu. Mae'n bosibl bod rhai dinasyddion yn camddeall pwrpas y gwaith ymgysylltu/ymgynghori oherwydd disgwyliadau isel o ran sut fydd eu cyfranogiad yn helpu i siapia gwelliannau i wasanaethau.
- 'Blinder ymgynghori' yn effeithio ar ein gallu i ymgysylltu â dinasyddion mewn modd ystyrlon.
- Ein capasiti i gynnig adborth amserol a phriodol o waith ymgynoriadau/ymgysylltu. Gall hyn yn ei dro effeithio ar nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu i'r dyfodol.

Ein blaenoriaethau gwella o ran ymgysylltu â dinasyddion i'r dyfodol:

Yn ystod 2019/20 byddwn yn parhau i hyrwyddo ymgysylltu effeithiol â'n defnyddwyr gwasanaeth a'n dinasyddion drwy:

- Mwy o dargedu priodol o ymgynghoriadau ledled y gyfarwyddiaeth fel eu bod nhw'n gyfrannol ac yn gynrychioladol o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i ddinasyddion. Bydd hyn yn cynnwys adnabod blaenraglen waith o feysydd ymgynghori ar sail flynyddol ac yn seiliedig ar anghenion a nodwyd.
- Gwella mynediad a chyfleoedd i grwpiau sy'n anodd i'w cyrraedd mewn gweithgareddau ymgynghori.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn cydlynu gweithgareddau ymgynghori mewn ffordd sydd â chanolbwynt er mwyn lleihau'r effeithiau o 'flinder ymgynghori'.
- Defnyddio'r canfyddiadau'n well o'r mesurau ansoddol i siapio datblygiad cynllun gweithredu ymgysylltu â dinasyddion.

4. Canmol a Chwynion



4.1 Canmoliaethau

Mae canmoliaethau'n ffordd hanfodol o adnabod beth rydym yn ei wneud yn dda ac i rannu'r dysgu/profiad ehangach hwn gyda phobl eraill. Mae cael canmoliaeth yn ganolog i'n galluogi i gydnabod ymdrechion ein staff sy'n aml yn darparu gwasanaethau rheng flaen mewn amgylchiadau heriol. Rydym wedi rhoi ar waith ddulliau priodol i gasglu cwynion i'n galluogi i weld meysydd lle rydym yn gwneud yn arbennig o dda gan hefyd ein helpu i atgyfnerthu ymhellach agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ein staff i ysgogi ac ymgysylltu ein gweithlu ymhellach.

Yn ystod 2018/19, cafwyd 25 canmoliaeth ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a phobl ifanc a Rheoli Adnoddau a Diogelu. Roedd y canmoliaethau hyn yn ymwneud â'r gwasanaethau a'r cymorth y cafodd defnyddwyr gwasanaethau ac maen nhw'n aml yn enwi aelodau penodol o staff pan deimlent fod unigolyn wedi mynd yr ail filltir.

I roi'r data hwn yn ei gyd-destun, amlinellir isod gipolwg o rai o'r canmoliaethau a gawsom gan ddefnyddwyr gwasanaeth, ynghyd â llythyr diweddar yn canmol ein Gwasanaeth Cyflawni Integredig:

'Yn ddiweddar, death X i weld fy mamgu a thadcu ac roedd ei dull yn ffantastig. Mae ei charedigrwydd a'i phroffesiynoldeb wedi'u croesawu gan ein teulu'

'Rwyf ti'n arwr', nododd y teulu 'bydden ni ar goll hebddot ti'.

'Nid ydych yn gwybod faint o wahaniaeth mae hyn wedi gwneud i mi'.

'Derbyniwyd gofal gwych, canmol y staff yn fawr iawn'.

'Hoffwn fynegi faint o ased yw X i'ch sefydliad, mae ei chefnogaeth wedi bod yn ddi-ddiwedd, hollol wych'.

Barnwr yn canmol gweithiwr cymdeithasol am 'adroddiad cytbwys' ac am fod yn dyst 'ardderchog'.

LLYTHYR:

Cafodd y Rheolwr Gyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth lythyr gan breswilydd o Benarth wnaeth ganmol "proffesiynoliaeth ragorol" Gweithiwr Cymdeithasol Bro Morgannwg ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Integredig wrth ofalu am ei mam.

Noda'r llythyr:

"Mae fy mam wedi bod yn Ysbyty Llandochoau yn ddiweddar, ac roedd y fenyw uchod [Morgan] yn gweithio ar ei gofal cymdeithasol.

"Heb os nac oni bai, hi yw un o'r bobl fwyaf proffesiynol yr ydw i wedi cwrdd â nhw erioed.

"Mae safon ei gofal yn rhagorol, ac mae ei sgiliau cyfathrebu'n sefyll allan yn fwy nag unrhyw beth arall. Mae wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud, a llwyddodd hi i wneud hyn nid yn unig gyda mam, ond gyda'r holl deulu.

"A fyddech cystal â dweud diolch yn fawr iawn iddi."

4.2 Cwynion

Rydym wedi defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y person o ran delio â chwynion er mwyn caniatáu i ni ddeall y problemau o bersbectif y defnyddiwr gwasanaeth, ac yna i ddatrys y broblem a dysgu o unrhyw gamgymeriadau. O ganlyniad, rydym yn gallu parhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd y gofal a chymorth yr ydym yn ei gynnig ledled ystod eang o wasanaethau. Rydym yn parhau i fod â dull cadarn o sut rydym yn delio ac yn rheoli â'n cwynion.

Mae'r Swyddog Cwynion yn cymryd dull rhagweithiol o ran atal a chymedroli materion sydd â'r potensial i ddatblygu'n gwyn. Mae'r Swyddog Cwynion yn rheolaidd yn cyfrannu at brosesau sicrwydd ansawdd yn enwedig os oes problem newydd â darparwr ac os yw'r broses Uwchgyfeirio Pryderon ar waith. Mae hyn yn galluogi'r Swyddog Cwynion i fod yn rhan o'r broses o'r dechrau, ac i gael dealltwriaeth dda o'r materion sy'n effeithio ar wasanaethau/unigolion a sut all hyn fod yn berthnasol i gwynion posibl. I rai pobl sy'n cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n bosibl nad ydynt yn sicr os yw eu pryder yn cyfateb â chwyn ffurfiol. Yn yr achosion hyn, mae'r Swyddog Cwynion yn cynnig cwrdd â nhw i geisio helpu a chael eglurder ar y materion a gwrando ar eu cwynion. Mae'r dull hwn wedi bod yn werthfawr iawn ac yn ffordd effeithiol o gael datrysiad cynnar i sawl pryder. Mae'r Swyddog Cwynion wedi dod o hyd i sawl ffordd o ymgysylltu a defnyddwyr gwasanaeth drwy ymweld â lleoliadau gofal preswyl a gofal dydd, ysgolion a darparwyr eiriolaeth. Mae'r dull hwn hefyd yn cynorthwyo o ran rhannu gwybodaeth am y Weithdrefn Gwyno.

Bu'r Swyddog Cwynion ar 149 o ymweliadau â defnyddwyr gwasanaeth/teuluoedd defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnod adrodd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y Swyddog Cwynion yn gallu lleddfu pryderon unigolion a'u cyfeirio nhw at wasanaethau eraill lle bo'n briodol. O ganlyniad i'r ymdrechion hyn, mae llai o faterion yn troi'n ymholiadau¹ ac yn gwynion. Yn ystod 2018/19, o'r 149 o faterion a godwyd dim ond 42 daeth yn ymholiadau a oedd angen ymateb mwy ffurfiol ac aeth 4 ymlaen i fod yn gwynion. O'r 42 ymholiad, roedd 23 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, roedd 13 i Wasanaethau Plant A Phobl Ifanc a 6 yn gysylltiedig â'r Is-adran Rheoli Adnoddau a Diogelu.

Fel ar 31 Mawrth 2019, derbyniwyd 63 o gwynion, sydd ychydig yn uwch na'r flwyddyn gynt, lle cafwyd 53 o gwynion. O'r 63 cwyn hon, roedd 28 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, roedd 31 i Wasanaethau Plant A Phobl Ifanc a 4 yn gysylltiedig â'r Is-adran Rheoli Adnoddau a Diogelu. Yn ystod y cyfnod hwn, ni chyfeiriwyd yr un gwyn at yr Ombwdsmon.

Er bod natur y cwynion yn gynyddol gymhleth, rydym yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar wella amseroldeb ein hymateb i gwynion o fewn yr amserlenni penodol sydd wedi'u nodi mewn canllawiau. Ar 31 Mawrth 2019, roedd 38% wedi'u datrys o fewn yr amserlenni penodol². Mae bodloni'r amserlenni penodol o ran cwynion yn gynyddol heriol oherwydd natur cymhleth y gwyn all effeithio ar amseroldeb yr ymateb, yn benodol pan fo angen cyngor cyfreithiol. Er bod dros draean o'r cwynion wedi'u datrys o fewn amserlenni penodol, dylid nodi bod yr achwynwyr wedi cael gwybod y rheswm dros estyn yr amserlenni bob tro, ac wedi cytuno i estyniad o ran amser. Er nid yw hyn yn cael ei ystyried yn rhan o ganllawiau statudol. Rydym yn ceisio monitro ein cwynion yn drylwyr. Bob wythnos, bydd y Swyddog Cwynion yn rhannu adroddiad â'r Uwch Dîm Rheoli i fflagio unrhyw gwynion posibl fydd angen eu dilyn i fyny. Mae hyn wedi bod yn ddull uwchgyfeirio effeithiol i atgoffa rheolwyr o bwysigrwydd ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni gofynnol.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad llawn o'r holl gwynion, ymholiadau a chanmoliaethau ddaeth i law yn 2018/19.

¹ Mater/pryder yw ymholiad sydd wedi'i adrodd gan ddefnyddiwr gwasanaeth fydd yn cael ei gofnodi'n ffurfiol gan y Swyddog Cwynion, ond ni fydd yn cael ei uwchgyfeirio fel cwyn.

² Yr amserlen benodol ar gyfer ymateb i gwynion Cam 1 yw 10 diwrnod gwaith, a 5 diwrnod gwaith pellach i gadarnhau canlyniad y drafodaeth, ac ar gyfer Cam 2 25 diwrnod gwaith yw'r amserlen .

Is-adran Gwasanaeth	Ymholiadau	Cwynion Cam 1	Cwynion Cam 2	Ombwdsmon	Wedi'u hymateb o fewn yr Amserlen	Cyfanswm y cwynion ac ymholiadau
Gwasanaethau Oedolion	23	27	1	0	11	51
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	13	31	3	0	10	44
Rheoli a Diogelu Adnoddau	6	4	0	0	3	10

Roedd nifer helaeth y cwynion (42) a dderbyniwyd yn ystod 2018/19 yn ymwneud ag ansawdd neu lefel y gwasanaeth ar gael. Roedd meysydd eraill y cwynion yn ymwneud ag un ai staff, costau gwasanaeth neu eraill.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion o natur y cwynion yn ôl Adran.

Math o gwyn	Gwasanaethau Oedolion	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	Rheoli Adnoddau a Diogelu	Cyfanswm y cwynion yn ôl natur y gwyn
Costau gwasanaeth	1	-	-	1
Diffyg ymateb	-	1	-	1
Ansawdd/lefel y gwasanaeth	17	26	4	47
Cwyn am staff	7	4	-	11
Anfodlon ar y gofal a ddarperir	-	-	-	-
Cyfathrebu	-	-	-	-
Arall	3	-	-	3

Mae cwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'r Gyfarwyddiaeth a all ein helpu i lunio a gwella ymhellach y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau. Rydym wedi datblygu prosesau clir er mwyn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd yn arferion. Mae'r canlyniadau o gwynion Cam 1 yn aml yn amlygu unrhyw ddiffygion yn y gwasanaethau a ddarperir a chaiff cynlluniau gweithredu ffurfiol eu datblygu o argymhellion sy'n deillio o gwyn Cam 2 neu gwynion a ymchwiliwyd gan yr Ombwdsmon. Drwy edrych ar y materion hyn gyda'n gilydd gallwn nodi meysydd allweddol i'w canolbwyntio arnynt wrth fwrw ymlaen.

Yn ystod 2018/19 roedd crynodeb o'r gwersi allweddol a ddysgwyd yn cynnwys:

- Pwysigrwydd cadarnhau pwy ydych yn siarad â nhw wrth ffonio nôl.
- Sicrhau bod data ar ein system yn gyfredol ac yn gywir.
- Egluro i aelodau'r teulu'r rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau.
- Egluro'n glir i aelodau'r teulu y goblygiadau o brosesau'r llys, fel eu bod nhw'n deall y broses.
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn deall ein polisiâu codi tâl.
- Egluro ein prosesau monitro ansawdd a dyletswydd.
- Cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth am unrhyw newidiadau i apwyntiadau.
- Sicrhau nad yw gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei hanfon at y cyfeiriad anghywir.
- Y pwysigrwydd o gyfathrebu effeithiol ac amserol â defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd.
- Bod yn broffesiynol bob tro wrth ddelio â theuluoedd.
- Ffonio nôl mewn modd amserol.
- Cadw cyfrinachedd o ran defnyddwyr gwasanaeth.
- Ystyried unrhyw brosesau gofal.

- Cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar ôl negeseuon/gwybodaeth ar lafar.

Ein blaenoriaethau gwella o ran cwynion i'r dyfodol:

O ran ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod 2019/20 byddwn yn canolbwyntio ar:

- Parhau i weithio gydag ymchwilyr annibynnol i wella'r amser a gymerir i gwblhau ymchwiliadau Cam 2 drwy adolygu'r cymorth a roddir i ymchwilyr;
- Dal i weithio gyda rheolwyr a staff i wella'r amser mae'n ei gymryd i gwblhau cwynion Cam 1. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ymhellach y monitro cwynion wythnosol i fflagio cwynion i Benaethiaid Gwasanaeth sydd heb neu sy'n annhebygol o fodloni'r amserlenni ymateb dynodedig. Bydd y Swyddog Cwynion hefyd yn sefydlu proses ar gyfer cysylltu â swyddogion ymchwilio i sicrhau eu bod nhw ar y trywydd cywir ac yn dilyn canllawiau'r broses gwynion.

5. Hyrwyddo a Gwella Lles y Bobl a Helpwn

Mae sicrhau canlyniadau cadarnhaol a gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth wrth wraidd cynnal Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod yn statud yn Ebrill 2016, rydym wedi cymryd camau sylweddol at ymwreiddio gofynion y Ddeddf yn ein harfer bob dydd. Mae hyn wedi sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i ateb yr heriau a'r galw ar ein gwasanaethau drwy ddal i ganolbwyntio ar gefnogi lles pobl sydd angen gofal a chymorth. Mae'r Ddeddf hefyd wedi ein galluogi i sicrhau y gallwn roi llais a rheolaeth i ddinasyddion dros ddiffinio eu hanghenion gofal a chymorth drwy weithio gyda'r Cyngor i gyd-gynhyrchu canlyniadau a llunio a chynorthwyo gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r adran hon o'n Hadroddiad Blynyddol yn nodi ein perfformiad wrth hyrwyddo a gwella'r agweddau allweddol ar Les pobl ym Mro Morgannwg sydd angen gofal a chymorth, a gofaluwr sydd angen cymorth. Rydym wedi'i nodi i ddangos sut mae ein gwaith yn gysylltiedig â'r chwe Safon Nod Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer lles. Mae'n nodi'r blaenoriaethau a drafodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol y llynedd (2018/19) ynghyd â chynnig diweddariad o'n cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyd yma. Mae hefyd yn cynnig data lle bo'n berthnasol ac ar gael ynghyd ag enghreifftiau bywyd go iawn o'r effaith y mae wedi'i gael ar ein dinasyddion. Yn olaf, mae bob rhan yn nodi blaenoriaethau 2019/20.

5.1 SAFON LLES 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgyhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

Fel Cyngor rydym yn ymrwymedig i gyflawni gwasanaethau o safon uchel sy'n adlewyrchu ac yn bodloni orau anghenion ein dinasyddion sy'n tanategu'r ffordd rydym yn gweithio gyda phobl. Rydym yn barhaus yn croesawu cyfleoedd i gynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Grymuso dinasyddion i fod ynghlwm wrth siapia a diffinio eu canlyniadau lles eu hunain.

Drwy weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gwelwyd newid graddol i sicrhau bod gan ddinasyddion fwy o ddewis a rheolaeth dros eu penderfyniadau gofal a chymorth. Gwelwyd newid graddol o 'unigolion cymwys' i edrych ar 'anghenion cymwys' er mwyn manteisio ar ddarpariaeth statudol.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'n defnyddwyr gwasanaeth i roi llais a rheolaeth iddynt o ran diffinio eu hanghenion gofal a chymorth yn agwedd hanfodol sy'n gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gydgyhyrchu canlyniadau lles.

Rhan allweddol o gefnogi pobl yw cydgynhyrchu eu canlyniadau lles eu hunain, sy'n cynnwys rhoi mynediad i'r adnoddau, gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth a gwybodaeth gywir i bobl. O ran plant, rydym wedi dwyn ynghyd gwasanaethau'r Gwasanaeth Gwybodaeth I Deuluoedd, Llinell Gyngor Teuluoedd Yn Gyntaf a'r Ddyletswydd yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i sicrhau darpariaeth effeithiol wrth a chyn y drws blaen.

Mae cydgynhyrchu yn canolbwyntio ar sicrhau bod dinasyddion yn ganolog i ddiffinio eu hanghenion gofal a chymorth a'r ffordd orau o fodloni'r rheiny. Drwy weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gwelwyd newid graddol i sicrhau bod gan ddinasyddion fwy o ddewis a rheolaeth dros eu penderfyniadau gofal a chymorth. Felly, mae projectau megis y peilot 'Eich Dewis Chi' wedi bod yn hanfodol o ran trawsffurfio sut rydym yn dylunio, datblygu ac yn darparu gwasanaethau i'n dinasyddion.

Trosolwg o'r Perfformiad

Mesurau Ansoddol
Dyweddodd 91.1% eu bod yn derbyn y wybodaeth neu gyngor cywir pan fo angen.
Dyweddodd 98.9% o bobl eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.
Nododd 86.4% o bobl gyda chynllun gofal a chymorth eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am eu gweithiwr penodol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
Mae 91.4% yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu gofal a chymorth.
Nododd 95.9% o bobl eu bod yn fodlon ar y gofal a chymorth a dderbynnir.

Mesurau Dangosol
Ni wnaeth 88.5% o'r oedolion sy'n derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn.
Cwblhawyd 41.2% o asesiadau plant o fewn yr amserlenni.

Beth cynllunion ni i'w wneud y llynedd?

O ran 2018/19 gwnaethom nodi tair blaenoriaeth allweddol i'w cyflawni:

- Hyrwyddo'r ac ymestyn y defnydd o Dewis Cymru ar gyfer cael gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer gwasanaethau ataliol i oedolion.
- Gweithredu'n llawn gomisiynu seiliedig ar ganlyniadau ar draws Asiantaethau Gofal Cartref.
- Datblygu Strategaeth Comisiynu Anableddau Dysgu.

Faint lwyddon ni a pha wahaniaeth wnaethom?

Hyrwyddo'r ac ymestyn y defnydd o Dewis Cymru ar gyfer cael gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer gwasanaethau ataliol i oedolion.

Yn ystod 2017/18, lansiwyd Porth Gwybodaeth Dewis Cymru; adnodd ar-lein ar gyfer cael mynediad at wybodaeth am les ledled Cymru. Mae'r porth hwn yn adnodd atgyfeirio effeithiol i drigolion gael mynediad at wybodaeth am wasanaethau ataliol/adnoddau/rhwydweithiau. Drwy ehangu ac ymestyn defnydd Dewis Cymru fel porth gwybodaeth, bydd yn ein galluogi i gynnal cyfeirlyfr cyfredol o wasanaethau ac adnoddau. Mae Dewis Cymru yn adnodd gwerthfawr sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan staff yr awdurdod lleol, dinasyddion Caerdydd a'r Fro, y Trydydd Sector a gweithwyr proffesiynol lechyd.

Nod y porth yw cynyddu defnydd a nifer y cofrestriadau ar Dewis Cymru ar gyfer gwasanaethau ataliol, i ddatblygu ymhellach a'i hyrwyddo fel porth gwybodaeth cynaliadwy fydd yn cael ei ddiweddarau a'i ddatblygu'n gyson. I gynyddu ein capasiti a'n gwydnwch i wneud y gwaith hwn, sefydlwyd tîm project yn 2018/19 gyda phenodiad Rheolwr Projectau Rhanbarthol sy'n cael ei gefnogi gan ddau gynorthwydd cymorth project rhan-amser.

Yn ystod 2018/19, mae'r tîm project wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer yr adnoddau ar Dewis Cymru a'i ddefnydd hefyd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd dros 1,130 o adnoddau yn ymwneud â Bro Morgannwg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i godi ymwybyddiaeth o'r porth ac i'w ddatblygu ymhellach drwy ei hyrwyddo i weithwyr proffesiynol eraill mewn digwyddiadau rhwydweithio. O ganlyniad, mae nifer y defnyddwyr cofrestredig ar Dewis Cymru wedi cynyddu o 382 ym mis Mawrth 2018 i dros 580 ym mis Mawrth 2019. Mae'r tîm project hefyd wedi llwyddo i gael cefnogaeth i Dewis Cymru gael ei ddefnyddio fel cyfeirlyfr ledled y Cyngor. Yn flaenorol,

mae'r cyfeirlyfr wedi'i ddefnyddio a'i gynnal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, fodd bynnag mae ffrydiau gwaith wedi'u sefydlu bellach gydag arweinwyr ym mhob cyfarwyddiaeth.

Rydym yn parhau i hyrwyddo Dewis Cymru fel dull ymysg y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ledled y rhanbarth. Mae'r tîm project wedi gwella ymhellach y gwaith o hyrwyddo Dewis Cymru drwy lyfrgelloedd, hysbysebion parhaus mewn meddygfeydd, twïts dydd Mercher #llesiant, hyrwyddo ar Facebook, creu posteri a thaflenni, defnyddio llwyfannau cyfathrebu â staff y cyngor i'w hyrwyddo fel teclyn yn broffesiynol ac yn bersonol ynghyd â hysbysebu Dewis Cymru a digwyddiadau allweddol megis Diwrnodau Hwyl i'r Teulu a gemau pêl-droed Caerdydd. O ganlyniad i ehangu ein cyhoeddusrwydd, mae nifer y bobl sy'n defnyddio Dewis Cymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2018 roedd bu 2059 o glics ar fanylion adnoddau Dewis Cymru fesul mis. Erbyn mis Mawrth 2019, mae'r ffigwr defnydd hwn dros bedair gwaith yn fwy, gyda'r nifer bellach yn 9566 y mis. I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gynyddu defnydd gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

Prif ganlyniad y gwaith hwn dros y flwyddyn ddiwethaf yw bod dinasyddion ledled Bro Morgannwg bellach yn gallu defnyddio ystod o wybodaeth ac adnoddau lles a gwasanaethau ataliol yn yr ardal. Mae'r holl gofnodion hyn yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu bob 6 mis. Y budd positif ychwanegol o'r adnodd hwn yw y bydd yn dod yn 'bwynt cyswllt cyntaf' wrth i'r adnodd gwybodaeth gael ei ymgorffori, i helpu dinasyddion i helpu eu hunain, a bydd yn helpu lleihau'r angen am ymyrraeth gwasanaethau statudol.

Gweithredu'n llawn y comisiynu'n seiliedig ar ganlyniadau ar draws Asiantaethau Gofal Cartref.

Un o'r prif ddatblygiadau yn ystod 2018/19 yw gweithredu System Rheoli a Mesur Achosion yn Seiliedig ar Ganlyniadau o'r enw 'Eich Dewis Chi' ledled ein hasiantaethau Gofal Cartref.

Mae'r gwasanaeth 'Eich Dewis Chi' yn fodd newydd i roi gofal a chymorth i bobl sydd angen help i aros yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Y nod yw rhoi mwy o ryddid i unigolion, hyrwyddo eu hannibyniaeth a gwella'u lles mewn ffordd sy'n bwysig iddynt.

Mae mabwysiadu'r dull yn canolbwyntio ar amcanion hwn wedi golygu symud i ffwrdd o gyflawni amserlenni gofal anhyblyg i ddarparu gofal hyblyg sy'n canolbwyntio ar amcanion, ac sy'n cael ei ddiffinio gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gan roi rheolaeth iddynt dros sut fydd eu hamcanion gofal yn cael eu bodloni.

Cafodd y project ei beilota gyntaf yn ystod 2017/18, gan ennill gwobr Gofal Cymdeithasol Cymru Cenedlaethol dan y Categori 'Gwasanaethau dan Arweiniad Dinasyddion' am ei ddull arloesol yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Yn dilyn y llwyddiant hwn, roeddem yn bwriadu cyflwyno'r model newydd hwn yn ehangach ym mis Medi 2018 i bob asiantaeth Gofal Cartref. Fodd bynnag, roedd rhwystr o ran bwrw ymlaen â chyflwyniad hyn yn sgil heriau o ran cael cytundeb gan ddarparwyr ar elfen ariannol ar y gwaith a'r angen i sicrhau bod bob un o'n prosesau ar gyfer gweithredu'r model hwn ar raddfa ehangach yn gadarn ac yn effeithiol ledled bob asiantaeth. Ar ôl adlewyrchu ar hyn, gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar ddefnyddio'r model hwn gyda'r asiantaeth peilot cychwynnol i'n galluogi ni i fireinio a datblygu ein prosesau ymhellach, ac i'n galluogi ni i gael cytundeb gan y darparwyr ar ddatrys y materion ariannol.

Mae'r project 'Eich Dewis Chi' yn dal i gael croeso gan ein defnyddwyr gwasanaeth, asiantaethau gofal cartref, Gweithwyr Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae gweithio yn y ffordd hyn wedi rhoi synnwyr gwell o ryddid i bobl i ddiffinio eu hanghenion gofal a chymorth wrth hyrwyddo eu hannibyniaeth a gwella eu synnwyr llesiant mewn ffordd sy'n bwysig iddyn nhw. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi cefnogi dros 64 o ddefnyddwyr gwasanaeth i reoli eu gofal a chymorth eu hunain, sydd gyfwerth â thua 900 awr o ofal cartref yn seiliedig ar ganlyniadau bob wythnos.

Mae llwyddiant parhaus y project hwn yn amlwg drwy'r astudiaeth achos isod.

Datblygu Strategaeth Anableddau Dysgu ranbarthol.

Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu, sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg, bod strategaeth ranbarthol newydd yn ddatblygiad hanfodol. Cafodd y gwaith datblygu hwn ei arwain gan Reolwr Gweithredol Bro Morgannwg. Rhan ganolog o'r strategaeth yw cydgynhyrchu, gan roi llais i'n dinasyddion a galluogi nhw i helpu i siapio a diffinio sut ddylid darparu gwasanaethau nawr ac i'r dyfodol. Ynghyd â chydweithio ag ymarferwyr ledled sectorau gwahanol, gwnaethom hefyd weithio'n agos â phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a gofawyr i greu strategaeth gyda chyfeiriad clir o ran sut rydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau anableddau dysgu ledled y rhanbarth dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein gweledigaeth a'r egwyddorion a rennir fydd yn siapio dyluniad a darpariaeth y gwasanaethau hyn. Ein gweledigaeth yw *'Mae gan bobl ag anableddau dysgu ansawdd bywyd da, yn byw'n lleol lle maent yn teimlo'n dda ac yn iach, lle cânt eu gwerthfawrogi ac lle maent yn rhan o'u cymunedau eu hunain, a sydd â mynediad cyfartal at gymorth effeithiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth'*. I gyflawni'r weledigaeth hon, rydym yn canolbwyntio ar gynllunio a chomisiynu gwasanaethau'n effeithiol fydd yn grymuso pobl i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain, i deimlo'n rhan o benderfyniadau ac i allu byw bywydau llaw ac actif wrth daro balans o ran cyflawni gwasanaethau o fewn adnoddau penodol sy'n cynnig gwerth gorau am arian.

Mae'r strategaeth ddrafft yn cael ei hymgyngori gyda'r holl bartneriaid allweddol cyn iddi gael ei lansio'n ffurfiol ym mis Mehefin 2019.

Beth yw ein blaenoriaethau i'r flwyddyn i ddod?

Mae cynnwys ein defnyddwyr gwasanaeth wrth helpu i fanteisio ar wybodaeth i gydgyhyrchu a diffinio eu canlyniadau dymunol am barhau'n ffocws pwysig gennym. Felly bydd blaenoriaethau 2019/20 yn cynnwys:

1. Gwella rheolaeth ein galwadau gan gwsmeriaid i leihau amseroedd aros ar gyfer mewnbyn gwaith cymdeithasol.
2. Cryfhau ein dull cydgynhyrchu mewn modd effeithiol i sicrhau ein bod ni'n gweithio'n effeithiol ac yn cynnwys ein dinasyddion iau i fodloni eu hanghenion gofal a chymorth.

5.2 SAFON LLES 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd meddwl a chorfforol a lles emosiynol pobl.

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2016 i 2020 i gynorthwyo trigolion i fod yn fwy actif ac iach. Un o'n nodau yw annog a hyrwyddo ffyrdd iach ac actif o fyw.

Gwnaethai'r Asesiad Anghenion Y Boblogaeth amlygu'r materion mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar bobl ifanc yn y Fro sef materion iechyd emosiynol a meddwl ac yn benodol nodwyd anghenion o ran argaeledd a mynediad i gymorth a gwasanaethau iechyd meddwl amserol. O ran oedolion, dywedodd 1 o bob 10 ymatebwr (12.8%) nad oedd ganddynt naill ai reolaeth, neu rywffaint o reolaeth ond yr hoffent fwy. I'r rhain nododd 42.8% o ymatebwyr iechyd emosiynol neu feddwl fel ffactor sy'n eu hatal rhag cael digon o reolaeth dros eu bywydau. Hwn oedd yr ail ymateb mwyaf cyffredin ar ôl anallu corfforol.

Drwy fabwysiadu dull cydlynol o hyrwyddo iechyd corfforol a meddwl llwyddom i ganolbwyntio mwy ar unigolion. Nid yw hyn yn unigryw i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol ond i bobl a allai fod angen mwy o gymorth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a bywydau boddhaus. Dim ond drwy roi pobl wrth y canol a gweithio gyda nhw, eu teuluoedd a'u gofawyr a gydag ystod eang o bartneriaid y gallwn eu cefnogi i gyflawni'r lefel orau o les.

Rydym wedi sicrhau llwyddiant sylweddol drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol ar draws Bro Morgannwg a Chaerdydd sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol iawn i bobl. Gyda'n partneriaid rhanbarthol a lleol rydym yn parhau i gyflawni rhaglen diwygio gwasanaeth sy'n cael ei rheoli dan y Gronfa Gofal Canolraddol.

Trosolwg o'r Perfformiad

Mesurau Dangosol
Roedd cyfradd yr achosion oedi wrth drosglwyddo gofal yn 6.57 i bob 1,000 o'r boblogaeth.
Bu i 13.5% o oedolion gwblhau cyfnod adferol a chael pecyn gofal a chymorth llai ar ôl 6 mis.
Nid oedd gan 85% o'r oedolion a gwblhaodd gyfnod adferol becyn gofal ar ôl 6 mis.
Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl yw 85 oed.
Cafodd 27.45% o blant eu gweld gan ddeintydd cofrestredig o fewn tri mis o ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal.
Roedd 100% o'r plant sy'n derbyn gofal wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu.

Beth cynllunion ni i'w wneud y llynedd?

O ran 2018/19 gwnaethom nodi dwy flaenoriaeth i'w cyflawni:

- Datblygu a gweithredu ymhellach y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i atgyfnerthu cysylltiadau â gwasanaethau eraill ac i wella profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.
- Atgyfnerthu cyfathrebu gyda'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl er mwyn cefnogi pontio effeithiol i bobl ifanc i symud i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.

Faint lwyddon ni a pha wahaniaeth wnaethom?

Datblygu a gweithredu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i atgyfnerthu cysylltiadau â gwasanaethau eraill ac i wella profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Cafodd Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Caerdydd a'r Fro ei lansio gyntaf yn 2017 gyda chydleoliad tîm Awtistiaeth Integredig yn Hafan Dawel. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ein Staff Awtistiaeth Oedolion a chydweithwyr iechyd i greu tîm amlasiantaethol sy'n cynnwys staff iechyd megis seicolegydd Clinigol, Rheolwr Tîm Iechyd, Ymarferydd Awtistiaeth arbenigol, Therapydd Galwedigaethol, Nyrs Awtistiaeth arbenigol, Therapydd Iaith a Llafaredd a Dietegydd. Mae'r dull amlddisgyblaethol hwn yn galluogi cleientiaid i gwrdd ar y cyd â staff iechyd a'r awdurdod lleol i ddefnyddio ystod eang o wasanaethau iechyd a gofal i fodloni eu hanghenion. Nid bwriad TAI yw disodli gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, ond yn hytrach eu hategu drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau hyn a gweithwyr proffesiynol gan fynd ar ôl unrhyw fylchau o ran darpariaeth gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro, ac mae'r galw oddeutu 40% i breswylwyr y Fro a 60% i breswylwyr Caerdydd, sy'n unol â lefelau'r boblogaeth. Yn ystod tri chwarter cyntaf 2018-19, derbyniodd y gwasanaeth 135 o atgyfeiriadau asesiad diagnostig, a chafodd 74 o'r rhain ddiagnosis. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu 199 o atgyfeiriadau oedolion am ofal neu ymyrraeth, ac o'r rhain roedd 45 yn hunan-atgyfeiriadau a 154 gan asiantaethau eraill. Mae 57 o oedolion a 40 o rieni/gofalwyr wedi mynychu ystod o grwpiau megis grŵp sgiliau bywyd, grŵp ar ôl diagnosis a grŵp rhoi cynnig ar goginio, â'r nod o gefnogi unigolion i wella eu lefelau hyder ac annibyniaeth.

O ran adborth y gwasanaeth, mae unigolion a theuluoedd yn nodi eu bod nhw'n teimlo wedi'u parchu a deall. O ganlyniad i'r cymorth y maent wedi'i dderbyn, mae unigolion yn nodi lefelau gwell o annibyniaeth ac yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd y tu hwnt i wasanaethau'n benodol i anableddau. Yn ogystal, mae defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd wedi adrodd am lefelau uwch o foddhad a llesiant gwell. Er enghraifft, mewn arolwg ffrindiau a theulu diweddar, nododd 77% (33) o ymatebwyr y byddent yn argymhell y TAI i ffrindiau ac aelodau eraill o'r teulu sydd angen gofal/cymorth tebyg. Mae'r gwasanaeth yn aml yn ceisio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i siapia datblygiad gwasanaeth. Yn gyffredinol, mae adborth y gwasanaeth wedi bod yn bositif iawn. Gweler isod fraslun o ychydig o'r adborth y mae'r gwasanaeth wedi'i dderbyn dros y flwyddyn ddiwethaf:

Atgyfnerthu cyfathrebu gyda'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl er mwyn cefnogi pontio effeithiol i bobl ifanc i symud i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.

Mae atgyfnerthu cyfathrebu gyda'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn hanfodol er mwyn cefnogi pontio effeithiol i bobl ifanc i symud i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion. Pwrpas y flaenoriaeth hon yw gwella'r profiad pontio i bobl ifanc gydag anghenion iechyd meddwl o wasanaethau iechyd meddwl i blant i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion drwy weithio partneriaeth effeithiol. Mae hefyd yn bwriadu cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff o brosesau a systemau i sicrhau cydymffurfiaeth well.

I fynd ar ôl hyn, mae cyfarfodydd Adolygiad a Rhyngwyneb Pontio (TRIG) chwarterol wedi'u sefydlu, y mae Prif Nyrs Seiciatrïg Cymunedol a Gweithiwr Cymdeithasol o Dîm Iechyd Meddwl Lleol y Fro yn eu mynychu. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth am bobl ifanc sydd bron â chyrraedd y cam pontio yn cael ei rhannu'n effeithiol, ac yn galluogi ymarferwyr i gynllunio a pharatoi'n effeithiol at bontio'r person ifanc hwnnw.

Ymhlith ein prif heriau ar gyfer y flwyddyn oedd ymgysylltiad parhaus partneriaid o ran sut allwn symleiddio'r broses a sicrhau cysondeb gyda'n dealltwriaeth ni o'r broses bontio. Mae hefyd goblygiadau ynghlwm wrth weithredu gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysgol (Cymru) 2018 mewn perthynas â chyflwyniad system ddeddfwriaethol unigol sy'n ymestyn cymorth i blant a phobl ifanc o 0-25 oed a'i ffocws mwy ar gydweithio rhwng partneriaid e.e. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Yn ogystal, mae'r cyllid grant ynghlwm wrth y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gwaith pontio'n berthnasol i Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth, ond nid i iechyd meddwl, sy'n ffactor anodd o ran datblygu ymhellach y broses bontio i wasanaethau iechyd meddwl.

Er gwaetha'r heriau hyn rydym wedi parhau i gryfhau ein dull drwy gynyddu ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr a staff yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl, fel bod pwysigrwydd pontio effeithiol ac amserol i bobl ifanc yn rhan hanfodol o'r Agendâu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Beth yw ein blaenoriaethau i'r flwyddyn i ddod?

Yn ystod 2019/20 bydd ein blaenoriaethau'n canolbwyntio ar:

1. Sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth llesiant mwyaf perthnasol a phriodol i sicrhau bod sgiliau meddygon teulu ac apwyntiadau'n cael eu defnyddio'n briodol.

5.3 SAFON LLES 3: Gweithredu i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag cam-drin, esgeulustod neu niwed

Mae diogelu'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth, esgeulustod a/neu niwed a hyrwyddo lles yr unigolyn. Mae diogelu'n canolbwyntio ar bwysigrwydd addysgu'r cyhoedd, staff a sefydliadau i adnabod arwyddion a pheryglon camdriniaeth, esgeulustod a niwed. Hon yw ein prif swyddogaeth fel adran Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdod lleol. Mae Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi gwneud rhai newidiadau a chyflwyno dull partneriaeth cryfach, mwy cadarn ac effeithiol o ymdrin â diogelu. Mae Cod Ymarfer Cydweithio i Ddiogelu Pobl hefyd yn rhoi canllaw i helpu sefydliadau i weithio o fewn y fframwaith a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed drwy wneud diogelu yn 'gyfrifoldeb ar bawb'.

Mae diogelu wedi dal i fod yn ffocws hanfodol yn ystod 2018/19; drwy sicrhau bod ein holl brosesau a gweithdrefnau ar waith yn cael eu hymgorffori'n llawn ym mhob rhan o'r Cyngor ac nid yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig. Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn gyfrifol am oruchwylio dull corfforaethol y Cyngor o ran diogelu, a'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae Polisi Diogelu Corfforaethol Bro Morgannwg yn nodi ein dyletswyddau a'r cymorth sydd ar gael i aelodau etholedig, cyflogaion, gwirfoddolwyr neu ddarparwyr gwasanaeth dan gontract pan fo ganddynt bryderon o ran mater diogelwch. Mae hefyd yn rhagnodi'r camau y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn eu cymryd i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar y cyfrifoldebau statudol yn deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel a ganlyn:

- hyrwyddo lles pobl sydd ag angen gofal a chymorth;
- y ddyletswydd i adrodd 'oedolyn mewn perygl' i'r holl bartneriaid perthnasol a gwneud ymholiadau os oes rheswm rhesymol i amau bod rhywun yn 'oedolyn mewn perygl' yn ei ardal'
- cyflwyno a defnyddio Gorchmynion Diogelu a Chymorth Oedolion (APSOau);
- y ddyletswydd i adrodd 'plentyn mewn perygl' i'r holl bartneriaid perthnasol a gwneud ymholiadau os ydynt yn cael gwybod y gallai plentyn fod mewn perygl yn eu hardal; a
- sefydlu Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar atal a diogelu.

Mae Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Bro Morgannwg yn gyfrifol am oruchwylio bod gan asiantaethau perthnasol yn y rhanbarth fesurau effeithiol ar waith i ddiogelu plant ac oedolion sy'n profi niwed neu sydd mewn perygl o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

Nodir y blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a Chynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol.

Trosolwg o'r Perfformiad

Mesurau Ansoddol
Nododd 95.4% o blant eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel.

Mesurau Dangosol
Cwblhawyd 88% o ymholiadau diogelu oedolion o fewn amserlenni statudol.
Roedd 9.67% yn ail-gofrestriadau o blant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol.
Ar gyfartaledd, treuliodd plant 364.6 diwrnod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn.

Beth cynllunion ni i'w wneud y llynedd?

O ran gweithredu i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag cam-drin, esgeulustod, neu niwed, gwnaethom nodi dwy flaenoriaeth:

- Cefnogi'r gwaith o gwblhau adolygiad Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Cymru Gyfan gan ganolbwyntio ar gyfuno'r gweithdrefnau diogelu i oedolion a phlant yn genedlaethol ar draws Cymru a'r gwaith paratoi cysylltiedig ar gyfer gweithredu gweithdrefnau diogelu diwygiedig.
- Parhau i ganolbwyntio ar gyflawni Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol a rhoi dulliau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r Polisi ledled y Cyngor ar gyfer yr holl staff, contractwyr a gwirfoddolwyr perthnasol.

Faint lwyddon ni a pha wahaniaeth wnaethom?

Cefnogi'r gwaith o gwblhau adolygiad Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Cymru Gyfan gan ganolbwyntio ar gyfuno'r gweithdrefnau diogelu i oedolion a phlant yn genedlaethol ar draws Cymru a'r gwaith paratoi cysylltiedig ar gyfer gweithredu gweithdrefnau diogelu diwygiedig.

Mae ffocws y flaenoriaeth hon wedi bod ar ddatblygu un set o weithdrefnau Diogelu i Gymru, i gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr ledled Cymru. Bydd datblygu gweithdrefnau Cymru gyfan yn sicrhau ein bod yn defnyddio dull mwy cyson o ran diogelu, ac yn parhau i fanteisio ar arferion o safon ledled Cymru.

Yn y gorffennol, roedd bob awdurdod lleol/corff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu'n unigol ar eu gweithdrefnau eu hunain, gan arwain at anghysondebau o ran sut roedd y ddeddfwriaeth ddiogelu a chodau ymarfer yn cael eu defnyddio.

Yn dilyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Cydwethio i Ddiogelu Pobl', llwyddodd Byrddau Diogelu Caerdydd a'r Fro sicrhau cais i gynhyrchu'r gweithdrefnau cenedlaethol diwygiedig i ddiogelu oedolion a phlant sy'n gysylltiedig â'r canllaw hwn. Yn 2018, bu i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg gymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu'r gweithdrefnau cenedlaethol fydd yn cael eu defnyddio gan bob Bwrdd Diogelu ledled Cymru.

Drwy Lywodraeth Cymru, gwnaethom gomisiynu academydd, Jan Howarth, i wneud y gwaith hwn ac i'n helpu ni i ddatblygu gweithdrefnau drafft. Gweithiom yn agos iawn â Jan Howarth gydol y broses o ddatblygu'r penodau drafft cychwynnol, fydd yna'n cael eu hystyried gan grŵp datblygu aml-asiantaethol, yn cynnwys ymarferwyr perthnasol ledled Cymru. Yna bydd y diwygiadau i'r penodau drafft hyn yn cael eu hadborth drwy'r grŵp. Mae'r penodau drafft hyn hefyd yn cael eu hystyried gan Aelodau Bwrdd Trefniadau Diogelu Cymru ledled bob rhanbarth. Yna, bydd diwygiadau pellach yn cael eu hymgorffori i'r fersiynau drafft cyn iddo gael ei rannu i ymgynghori

gyda bob rhanbarth a phob asiantaeth. Yna, bydd diwygiadau ar ôl yr ymgynghoriad ffurfiol yn cael eu hystyried gan Aelodau'r Bwrdd cyn i'r diwygiadau olaf gael eu hymgorffori yn ddrafft terfynol. Mae defnyddio'r dull hwn wedi'n galluogi ni i ddwyn ynghyd arfer gorau o Gymru gyfan a gweddill y DU a chanfyddiadau'r Adolygiadau Arferion Achos Plant ac Oedolion i sicrhau y gallwn ddefnyddio'r dysgu hwn i ddatblygu set cadarn o weithdrefnau fydd yn gallu cael eu defnyddio'n gyson ledled Cymru.

Yn ystod 2018/19, roedd sawl her o ran y project hwn oedd angen eu datrys. Er enghraifft, roedd y gwaith project cychwynnol wedi'i oedi ac roedd y dull ymgynghori blaenorol yn gymhleth ac yn anodd i ymarferwyr ymgysylltu ag ef. Her barhaus gyda'r project yw'r anawsterau ynghlwm wrth reoli disgwyliadau a chael consensws ledled y rhanbarthau gan ystod eang o randdeiliaid (ymarferwyr). Rhywbeth arall sy'n her yw cytuno ar ddatblygiad llofa o weithdrefnau diogelu i oedolion lle nad oedd fframweithiau o'r blaen.

Cafodd ein dull ymgynghori ar ddatblygiad y gweithdrefnau hyn ymateb positif ledled Cymru gan bobl fel Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, a Llywodraeth Cymru ac ymarferwyr ac uwch reolwyr o bob rhanbarth Diogelu. Gydol y project, bu rheolaeth effeithiol o'r cyllid grant sydd wedi alinio gyda datblygiad y gweithdrefnau cenedlaethol hyn. Hyd yma, mae holl waith y project wedi'i gyflawni o fewn y gyllideb.

Y bwriad yw y bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn ein galluogi i bennu glasbrint i Gymru y bydd pob asiantaeth yn gallu gweithio oddi arno i sicrhau dull mwy cyson o ran sut rydym yn diogelu plant ac oedolion mewn perygl. Mae disgwyl i'r gwaith cysylltiedig sy'n weddill gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru ddod i ben ym mis Gorffennaf 2019, gyda'r drafft ffurfiol terfynol yn ddigidol erbyn dechrau'r hydref, fel bod modd lansio'r gweithdrefnau newydd yn rhan o Wythnos Diogelu Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2019.

Parhau i ganolbwyntio ar gyflawni Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol a rhoi dulliau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r Polisi ledled y Cyngor ar gyfer yr holl staff, contractwyr a gwirfoddolwyr perthnasol.

Un o brif egwyddorion diogelu yw ei fod yn 'gyfrifoldeb ar bawb'. Mae'n hanfodol i'r holl staff, aelodau etholedig, contractwyr a gwirfoddolwyr ddeall fod ganddynt ddyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu a hyrwyddo lles plentyn ac oedolyn a allai fod 'mewn perygl' o gam-drin neu niwed, waeth beth yw eu rôl. Felly mae gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n polisi a'n harfer Diogelu'n rhan hanfodol o'r gwaith hwn.

Mae Grŵp Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn gyfrifol am oruchwylio dull corfforaethol y Cyngor o ran diogelu, a'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae'r polisi hwn yn cynnwys bob agwedd, swyddogaeth a gwasanaeth y Cyngor ac yn berthnasol i bob cyflogai'r Cyngor, aelodau etholedig, gofalwyr maeth a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y Cyngor ynghyd â chontractwyr sy'n gweithio ar ran y Cyngor.

Rhai o'r prif heriau sy'n gysylltiedig ag ymgorffori diogelu'n gorfforaethol yw gwella cydymffurfiaeth gyda'n Polisi Recriwtio Diogelach. Er bod cyfraddau cydymffurfio wedi parhau'n uchel yn gyson yn gorfforaethol, mae dal i fod yn faes pwysig yn benodol mewn Ysgolion. Er gwaethaf bod â dull cadarn o ran monitro ein Polisi Diogelu Corfforaethol, gall monitro effeithiolrwydd arferion diogelu eraill ledled cyfarwyddiaethau fod yn anos. I gydnabod hyn, bydd angen adolygu ein polisi ynghylch yr agweddau monitro. Her barhaus arall yw sicrhau bod pob unigolyn yn y Cyngor cyfan yn deall bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb a bod angen iddynt ddeall sut mae hyn yn berthnasol iddyn nhw yn eu swyddi bob dydd.

Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol wedi cymryd camau i gryfhau ymhellach ein cyfrifoldebau diogelu drwy ddatblygu Cynllun Gwaith i ganolbwyntio ar y prif feysydd sydd wedi'u hadnabod yn nodweddion trefniadau diogelu corfforaethol. Er enghraifft, mae aelodaeth wedi'i hymestyn ac

mae llawer o bobl yn mynychu'r grŵp ac mae cynrychiolaeth gan uwch reolwyr ym mhob gwasanaeth o'r Cyngor. Mae Cylch Gorchwyl ar waith ar gyfer y grŵp ac mae meysydd diogelu ledled y Cyngor yn cael eu hadnabod gan y grŵp a'u monitro'n rheolaidd gydag unigolion priodol yn cael eu gwahodd i gynrychioli eu cyfarwyddiaethau/isadrannau. Yn ystod 2018/19, mae'r Grŵp wedi cyfrannu at ddatblygu cynnwys ar ddiogelu corfforaethol ar Staffnet, mewnwyd y Cyngor i staff ac aelodau etholedig i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu corfforaethol.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi cymryd camau pellach i gryfhau ymhellach ein cyfrifoldeb diogelu drwy ganolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth yn eang o ran cyfrifoldebau cyflogaion o ran y 'Dyletswydd Adrodd'. Rydym wedi cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth eang oedd yn cynnwys creu posteri/taflenni a hyrwyddo 'Llinell Frys Diogelu' i roi un pwynt cyswllt i staff i adrodd am unrhyw bryderon all fod ganddynt am lesiant oedolyn neu blentyn sydd mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth. Yn ogystal â hyn, cafodd e-fodiwl diogelu hanfodol ei lansio i bob cyflogai yn ystod Wythnos Diogelu Cenedlaethol 2018 i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau yn eu rolau bob dydd. Ym mis Mawrth 2019, mae 68% o gyflogaion wedi cyflawni'r hyfforddiant hanfodol. Roedd ecsbloetiaeth yn brif thema a adnabuwyd yn rhan o Wythnos Diogelu Cenedlaethol 2018, oedd yn rhan o raglen o ddigwyddiadau a gweithdai gan weithwyr proffesiynol ledled y rhanbarth. Daeth y gwaith i ben gyda Noson Wobrwyo Diogelu yng Ngorsaf yr Heddlu Bae Caerdydd. Mae hyn wedi gwella ymhellach ein dulliau diogelu ac atgyfnerthu ein 'dyletswydd statudol i adrodd' fel y'i hamlinellir yn y Ddeddf.

Beth yw ein blaenoriaethau i'r flwyddyn i ddod?

Yn 2019/20, byddwn yn:

1. Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud ag arferion diogelu.
2. Gorffen datblygiad Trefniadau Diogelu Cymru.

5.4 SAFON LLES 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi sail gyfreithiol i'n hymrwymiad i gefnogi pobl i 'gyrraedd eu llawn botensial' ac i gyfranogi'n effeithiol mewn cymdeithas. Mae hefyd a wnelo â galluogi ein defnyddwyr gwasanaeth i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Trosolwg o'r Perfformiad

Mesurau Ansoddol
Nododd 90.4% o bobl eu bod yn gallu gwneud beth sy'n bwysig i nhw.
Nododd 94.7% o bobl eu bod yn teimlo'n fodlon ar eu rhwydweithiau cymdeithasol.

Mesurau Dangosol
Cafodd i 11.7% o blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth brofiad o un neu fwy o newidiadau o ran ysgol yn ystod cyfnodau mewn gofal, nad oeddent yn sgil trefniadau pontio.
Derbyniodd 68.57% o blant sy'n derbyn gofal eu dangosydd pwnc craidd yn ystod Cyfnod Allweddol 2.
Derbyniodd 5.88% o blant sy'n derbyn gofal eu dangosydd pwnc craidd yn ystod Cyfnod Allweddol 4.

Beth cynllunion ni i'w wneud y llynedd?

- Bwrw ati i gaffael a gweithredu Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol Rhanbarthol i Oedolion.

Faint lwyddon ni a pha wahaniaeth wnaethom?

Bwrw ati i gaffael a gweithredu Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol Rhanbarthol i Oedolion.

Mae'n hanfodol bod gan oedolion lais pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am gynllunio a chyflawni eu hanghenion gofal a chymorth. Felly mae'n hanfodol bod dulliau eirioli ar waith i gefnogi plant ac oedolion i fynegi eu barn a helpu i lywio prosesu gwneud penderfyniadau.

O ran oedolion, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn nodi'r hawl i godi llais mewn materion sy'n effeithio arnynt. Mae hefyd ddyletswydd dan Ran 10 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddarparu gwasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol i grwpiau penodol o bobl sy'n cael gofal a chymorth.

Mae'n hanfodol nad oes rhwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau eirioli, fel bod modd i unigolion gael mynediad at gymorth pan fo angen. Mae Gwasanaeth Eirioli Annibynnol yn canolbwyntio ar roi llais, cynhwysiant, hawliau a rheolaeth i unigolion dros benderfyniadau a wneir am eu gofal a chymorth.

Yn ystod 2018/19, cymrodd Fro Morgannwg rôl arweiniol o ran comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol ar ran Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Rhoddodd y gwasanaeth contract i 'Promo Cymru' gafodd ei lansio'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2018, ac sy'n cynnig llinell ffôn am ddim i ymgynghorwyr eiriolaeth i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol ledled y rhanbarth gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Prifysgol. Mae'r gwasanaeth hwn y cael eu hyrwyddo i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol ar y wefan Porth, Dewis Cymru a gwefannau'r tri sefydliad sy'n rhan o'r gwefannau cytundeb (y Bwrdd Iechyd a Chynghorau Caerdydd a'r Fro). Mae'r gwasanaeth yn cynnig 'Parth'/Man Cyswllt Unigol i gael mynediad at gyngor a chymorth eiriolaeth drwy ymgynghorydd fydd yn gallu brysbennu'r unigolion un ai i'w hatgyfeirio at asiantaethau priodol neu eu cyfeirio nhw at ddarparwr eiriolaeth perthnasol i gael cymorth un i un ar sail unigol. Mae'r ymgynghorydd yn rhoi gwybodaeth ac yn atgyfeirio at asiantaethau priodol.

Mae strwythur y Porth fel a ganlyn:

Pan gafodd y gwasanaeth ei lansio gyntaf, doedd dim llawer o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth, ond ers hynny mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol. Er enghraifft, erbyn chwarter 1 y flwyddyn gyntaf, manteisiodd 39 o ddefnyddwyr gwasanaeth ar y cymorth eiriolaeth ac erbyn diwedd Rhagfyr 2018 roedd hyn wedi cynyddu i 90 o unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo'r gwasanaeth mor eang â phosibl ymysg ein dinasyddion a phartneriaid, felly'n rhagweld y niferoedd yn parhau i gynyddu dros amser.

O ran ei fuddion, mae gan y Gwasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol Rhanbarthol:

- Dilyniant i ddefnyddwyr presennol eirioli a darparwyr presennol.
- Dull rhanbarthol cyson o Eirioli ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg ac i bob poblogaeth.
- Hyrwyddo'n gadarnhaol eiriolaeth ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd fel pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, grwpiau ethnig Pobl Dduon a Lleiafrifoedd a chymunedau LHDT.
- Cyfle i ddarparwyr eiriolaeth lleol ddatblygu arbenigedd mewn Eirioli Proffesiynol Annibynnol.
- Galluogi comisiynwyr Caerdydd a'r Fro i adolygu'r galw, cynnal gwaith sgopio ac ansawdd y gwasanaethau wrth lywio datblygiad Strategaeth Gomisiynu a sut rydym yn cyflawni'r ddarpariaeth eirioli drwy ein darparwyr i'r hirdymor.
- Rhoi amser i ddarparwyr lleol fodloni gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae mabwysiadu dull triphlyg â Chyngor Caerdydd a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol y cyntaf o'i fath sy'n tystiolaethu sut mae gennym berthnasau gwaith cryf ar draws y rhanbarth ac ymrwymiad i sicrhau y gall pobl fanteisio ar gymorth eirioli'n hawdd.

Beth yw ein blaenoriaethau i'r flwyddyn i ddod?

Yn 2019/20, byddwn yn:

1. Darparu strategaeth gyson a chydlynol mewn perthynas â gofalwyr, o ran y polisiau a'r arferion y mae gweithwyr proffesiynol yn eu dilyn.

5.5 SAFON LLES 5: Helpu pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach

Gall creu perthnasoedd cryf ac iachus gael effaith fawr ar lesiant meddyliol a chorfforol unigolyn a theuluoedd. Felly, mae dod o hyd i ffyrdd i gefnogi unigolion yn well i adnabod arwyddion perthynas nad yw'n iach yn hanfodol o ran meithrin perthynas domestig/teuluol a phersonol iach a diogel.

Yn seiliedig ar wybodaeth Cyfrifiad Plant mewn Angen Llywodraeth Cymru, yn ystod Mawrth 2015 roedd gennym y cyfrannau uchaf o Blant mewn Angen (51%) lle rhestrwyd cam-drin domestig yn ffactor rhianta

³. Felly, mae canolbwyntio ar gefnogi unigolion i gydnabod ymddygiad o fewn perthynas sy'n helpu'r unigolyn i ddysgu o'r profiadau hyn ond mae hefyd yn eu galluogi i adnabod arwyddion cynnar cam-drin. Yn yr un ffordd, mae Plant sydd wedi cael Profiadau Plentynod Niweidiol, megis bod yn agored i drais domestig, neu'r rheiny sy'n dioddef gan gamdriniaeth eu hunain yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd corfforol neu feddyliol yn y dyfodol. Er enghraifft, dangosodd astudiaeth genedlaethol ddiweddar fod oedolion sydd wedi cael pedwar neu fwy o PPNau bron 10 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi teimlo'n hunanddinistriol neu wedi hunan-niweidio na'r rheiny sydd heb gael profiadau o'r fath⁴. Ym Mro Morgannwg, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ddiweddar wedi cynnal gwaith peilot i gasglu data ar PPNau fydd yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio a dylanwadu datblygiad gwasanaethau i'r dyfodol a chefnogi staff i sicrhau hyfforddiant priodol, datblygiad a thargedu adnoddau.

Mae meithrin perthnasau personol a theuluol cadarnhaol drwy weithredu ymyriadau priodol a phennu modelau rôl positif, yn gosod y seiliau ar gyfer gefnogi iechyd meddwl ac ymdeimlad o les unigolyn. Mae hefyd yn ein galluogi ni i atal ac amddiffyn unigolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod yn effeithiol.

Trosolwg o'r Perfformiad

Mesurau Ansoddol

Nododd 79.03% o bobl eu bod nhw'n teimlo'n rhan o'r gymuned.

Mae 82.7% yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am ofal a chymorth eu plentyn.

Nododd 81.1% o ofalwyr eu bod yn teimlo fel bod ganddynt gefnogaeth i barhau yn eu rôl ofalu.

Nododd 89.7% o ofalwyr eu bod nhw'n teimlo ynghlwm wrth ddylunio eu cynllun gofal a

³ Amser Siarad: Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

⁴ Adverse Childhood Experiences increase the risk of mental illness, but community support can offer protection, Prifysgol Bangor, <https://medicalxpress.com/news/2018-01-adverse-childhood-mental-illness.html>

chymorth ar gyfer y person y maent yn gofalu amdano.

Mesurau Dangosol

Cafodd 73.37% o blant gymorth i ddal i fyw gyda'u teulu yn ystod y flwyddyn.

Dychwelodd 6.29% o blant sy'n derbyn gofal gartref yn ystod y flwyddyn.

Bu i 7.45% o blant sy'n derbyn gofal ar ôl 31 Mawrth gael profiad o dri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn.

Beth cynllunion ni i'w wneud y llynedd?

Gwnaethom nodi dwy flaenoriaeth i'w cyflawni yn ystod 2018/19:

- Dal i wella ein dull cydweithredol mewn perthynas â Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf a Teuluoedd yn Gyntaf drwy alinio eu gweithgareddau ymhellach.
- Sefydlu Gwasanaeth Myfyrio'n unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Faint lwyddon ni a pha wahaniaeth wnaethom?



Dal i wella ein dull cydweithredol mewn perthynas â Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf a Teuluoedd yn Gyntaf drwy alinio eu gweithgareddau ymhellach.

Drwy weithio partneriaeth effeithiol rydym wedi cryfhau ein gwaith ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd drwy alinio'n well y gweithgareddau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Drwy ganolbwyntio ein hymdrechion ar ymyrraeth gynnar ac atal a chydweithio'n fwy effeithiol, nid yn unig ydym wedi lleihau faint rydym yn dibynnu ar ymyrraeth gostus i blant a'u teuluoedd, ond hefyd wedi lleihau lefelau dyblygu o ran darpariaeth gwasanaeth. Drwy alinio'r gweithgareddau cyllid grant yn agosach, rydym wedi gallu manteisio ar ein cyfleoedd i wella canlyniadau a llesiant ein defnyddwyr gwasanaeth. Mae uno ein dull gan ddarparu blaenoriaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi'n galluogi ni i gyflymu mynediad at ein gwasanaethau pan fo angen. Mae hyn wedi helpu i leihau rhwystrau at fynediad gyda ffocws ar agenda ataliol yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Llywodraeth Cymru yn symud tuag at fodel Cyllido Hyblyg at wasanaethau cyllido grant. Pwrpas hyn yw symleiddio a gwella tryloywder o sut caiff cyllid grant ei ddefnyddio i gefnogi cyflawniad gwasanaethau. Mae cyllido hyblyg yn cynnwys dau ffordd cyllid Grant Plant a Chymunedau a Grant Cymorth Tai. Bydd y Grant Plant a Chymunedau'n cynnwys cyfuniad o saith o Grantiau presennol (Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau am Waith a Mwy, Etifeddiaeth, Grant Gofal Plant Allan o Ysgolion, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi a Grant Ymgysylltu Hyrwyddo Positif). Mae'r grant yn ceisio mynd ar ôl anghenion cymorth rhai o'r plant ac oedolion mwyaf bregus yn ein cymunedau drwy ystod o ymyrraeth gynnar, atal a mecanweithiau cymorth. Bydd yn ceisio lleddfu neu waredu anfantais i bobl sy'n agored i niwed i'w galluogi nhyw i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phobl eraill, ac felly'n gallu cyfrannu at Gymru mwy cyfartal.

Gydol 2018/19, mae nifer o ddatblygiadau sylweddol wedi'n galluogi ni i weithio'n fwy effeithiol ar y cyd â Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, wrth baratoi at lansiad y ffordd grant Cyllido Hyblyg. Un o'n datblygiadau mwyaf sylweddol yw uno tri darpariaeth rhianta ym Mro Morgannwg. Golygodd hyn bod y rhaglenni rhianta Partneriaeth Rhieni

Ifanc, Dechrau'n Deg a Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu huno i greu un gwasanaeth cynhwysol. Yn hytrach na bob darpariaeth rhianta yn gweithredu mewn pocedi bychan gyda grwpiau targedig, mae'r gwasanaeth yn gweithredu ledled y Fro ac wedi'i dargedu at bobl 0-18 oed ar bwynt angen. Y prif borth atgyfeirio yw llinell gyngor Teuluoedd yn Gyntaf, lle mae modd cynnal asesiad angen. Yn ystod chwarter 4 2018/19, derbyniodd y llinell gymorth 285 o alwadau (120 gan weithwyr proffesiynol a 165 gan rieni/gofalwyr) mae hyn yn gynnydd sylweddol ar yr un cyfnod y llynedd (2017/18) lle derbyniwyd 118 o alwadau. Roedd ar y rhan fwyaf o'r galwadau hyn (80%) angen rhagor o wybodaeth a/neu atgyfeirio. Mae dal i fod nifer uchel iawn o alwadau sydd angen atgyfeirio/gwybodaeth bellach sy'n uniongyrchol o ganlyniad i'r atgyfeiriadau Llesiant a Rhianta'r Fro sy'n dod drwy'r Llinell Gymorth. Roedd 100% o'r gweithwyr proffesiynol, gofalwyr a rhieni a ddefnyddiodd y Llinell Gymorth yn fodlon ar ddarpariaeth y wybodaeth a'r atgyfeirio. Yn ogystal, mae gwaith allgymorth timau wedi bod yn hwyluso ymhellach y gwaith o hyrwyddo'r gwasanaeth Llinell Gymorth. Mae'r gwasanaeth newydd yn gallu ateb galw'r gwasanaeth yn well, ac yn gwella cydraddoldeb ledled y Fro mewn meysydd amddifadedd ac angen. Mae cynlluniau ar waith i ymchwilio ymestyn y Gwasanaeth Rhianta drwy uno o bosibl gwasanaethau rhianta eraill ac adeiladu mwy o wydnwch yn y gwasanaethau hyn. Bydd Gwasanaeth Rhianta'r Fro yn ceisio ymateb yn briodol i'r rhieni hynny all fod wedi profi un neu fwy o PPNau.

Mae Dechrau'n Deg wedi bod yn gweithredu gwasanaeth allgymorth sy'n cynnig ymyriadau targedig yn seiliedig ar amser i deuluoedd Dechrau'n Deg. Hyd yma, mae'r gwaith hwn bod ar gyfer teuluoedd sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg, lle gall fod angen ymyrraeth/ataliaeth gynnar dwys ychwanegol. Fodd bynnag, yn ystod 2018 mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o bolisi Allgymorth Dechrau'n Deg ledled Cymru, i wirio a yw'r polisi'n cael ei ddefnyddio'n gywir ac a oedd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ac yn cael effaith ar deuluoedd gyda'r angen mwyaf. O ganlyniad i hyn, adolygodd Llywodraeth Cymru ei Ganllaw Strategol ym mis Medi 2018 gan nodi '*y dylai bob Awdurdod Lleol gael cyfle i fodloni eu rhif cap Dechrau'n Deg drwy newid y ffordd y mae'n rheoli ei Bolisi Allgymorth*'.

Yn ystod Tachwedd 2018, rydym yn lansio Tîm Llesiant Ieuenctid o ganlyniad i integreiddio'r ddarpariaeth ieuenctid bresennol a ariennir dan Deuluoedd yn Gyntaf a'r Gronfa Dreftadaeth. Roedd hyn yn cynnwys y Tîm Pontio Ieuenctid, y Gweithiwr Cerdyn C, Gweithiwr Pontio (Gweithiwr Ieuenctid) a ariennir drwy'r Gronfa Dreftadaeth, dau o weithwyr ieuenctid rhan-amser o'r tîm Emojis a dau o weithwyr ieuenctid o'r project FACT. Prif ffocws y Tîm Llesiant Ieuenctid yw darparu gwasanaethau mentora ieuenctid i hyrwyddo ymgysylltu positif ac yn gwella canlyniadau tymor hir pobl ifanc boed hynny'n lefelau presenoldeb/cyrhaeddiad yn yr ysgol, eu hymddygiad, eu cefnogi nhw i fabwysiadau ffordd o fyw iachach a pherthnasoedd a/neu wella eu hiechyd corfforol/meddyliol.

Mae gweithwyr y tîm hwn yn cefnogi ysgolion i alluogi nhw i ddatblygu'r sgiliau i gefnogi'n well y bobl ifanc drwy roi adnoddau (megis llyfrynau pontio) a hyfforddiant ar feysydd megis ieuchyd rhywiol, llythrennedd emosiynol a hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Yn ystod chwarter 4 2018/19 (Ionawr-Mawrth), derbyniodd y Tîm Llesiant Ieuenctid 85 o atgyfeiriadau gan y Tîm FACT, ysgolion unigol neu'r Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf. O ran canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth wnaeth ddefnyddio'r gwasanaeth yn ystod chwarter 4 (Ionawr-Mawrth 2019), dangosodd 55.5% (5) o blant ysgol gynradd bresenoldeb wedi sefydlogi neu wedi gwella yn yr ysgol. Yn yr un modd, dangosodd 60% (18) o blant ysgol uwchradd bresenoldeb wedi sefydlogi neu wedi gwella yn yr ysgol. Yn ystod cyfnod chwarter 4 (Ionawr-Mawrth 2019), dangosodd 90% (36) o

blant welliant o ran eu sgiliau llafaredd, iaith a chyfathrebu a nododd 95% (38) o gyfranogwyr welliant yn eu lles emosiynol/meddyliol yn dilyn cymorth y gwasanaeth a nododd 92.5% (37) berthnasau teuluol gwell.

Gan adeiladu ar lwyddiant y peilot llinell gyngor Teuluoedd yn Gyntaf, cafodd y gwasanaeth ei lansio'n ffurfiol ym mis Tachwedd 2018 a gafodd ei ymestyn i fod yn addas ar gyfer datblygiad y projectau rhianta a llesiant ieuenctid. Mae'r Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf yn elfen allweddol ar y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac mae'r Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf wedi galluogi teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth ar eu drws blaen/pwynt mynediad cyntaf. Mae'r Llinell Gyngor yn derbyn atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol a chan deuluoedd a thrwy frysbenneu effeithiol, bydd un ai'n eu hatgyfeirio at wybodaeth arbenigol a/neu gymorth drwy asiantaethau eraill neu'n cael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol i gael asesiadau a/neu gymorth pellach e.e. Gwasanaethau Plant, Gwasanaeth Rhianta, Project Llesiant Ieuenctid, FACT, Dechrau'n Deg ac ati. Drwy weithredu fel hyn, mae'r project wedi llwyddo i atgyfeirio teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i wasanaethau priodol gan sicrhau bod atgyfeiriadau posibl yn cael eu datrys yn gyflym, gan felly arbed amser a lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol. Mae defnyddio'r model hwn yn rhoi cyfleoedd a chapasiti i'r dyfodol i ymestyn neu alinio gwasanaethau ymhellach.

STORI DEFNYDDIWR GWASANAETH

Gwasanaeth Rhianta'r Fro

Roedd y teulu'n cynnwys Mam, A (14 oed), E (6 oed) ac F (3 oed). Roedd tad A wedi marw pan roedd Mam yn feichiog gyda hi, ac roedd Mam wedi cael dau o blant arall gyda'i phartner presennol sydd yn y carchar am droseddau'n ymwneud â gynau. Roedd Mam wedi hunan-atgyfeirio drwy'r Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl i'w Meddyg Teulu ei chyfeirio. Roedd A wedi bod yn cael problemau ymddygiadol-emosiynol ac roedd pobl yn ei disgrifio fel bod ganddi anawsterau o ran rheoli ei hemosiynau. Roedd A wedi hunan-niweidio yn y gorffennol. Bu i Mam gydnabod ei bod hi'n ei chael hi'n anodd i ymateb yn bositif i A, a'i bod yn awyddus i wella ei strategaethau rheoli ymddygiad a'i perthynas ag A.

Roedd hanes y teulu'n awgrymu bod A wedi cael profiad o thrawma yn ystod ei phlentyndod, a gallai hyn fod wedi bod yn ffactor o ran ei anawsterau ymddygiadol-emosiynol. Roedd Mam wedi cydnabod ei bod hi'n cael problemau'n ymateb yn bositif i A a'i bod am gael cefnogaeth bellach i ddatrys hyn.

Rhannodd Mam ei bod yn cael trafferth yn bod yn rhiant sengl, gan ei bod hi'n cael problemau ariannol ac hefyd ychydig o anawsterau iechyd meddwl ei hun. Roedd ar Mam angen asesiad gan Wasanaeth Rhianta'r Fro i helpu i ganolbwyntio'r ymyriad sydd ei angen, ac adnabod unrhyw asiantaethau pellach allai fod angen bod ynghlwm o bosibl.

Derbyniodd Mam gefnogaeth gan Wasanaeth Rhianta'r Fro am 3 mis, a chafodd ei gweld gan ymarferydd rhianta bob wythnos. Gweithiodd yr ymarferydd rhianta'n agos â Mam i awgrymu dulliau newydd o rianta, gan roi cyngor ar dechnegau fyddai'n adeiladu hunan-barch A ac yn ei hannog i fynegi ei hemosiynau'n well.

STORI DEFNYDDIWR GWASANAETH PARHAD:

Roedd Mam wedi gweithio'n dda iawn a rhoi'r technegau ar waith yn gyflym ac yn effeithiol, bu i berthynas Mam ac A wella wrth iddynt dreulio rhagor o amser gyda'i gilydd ac wrth i ragor o ganmoliaeth ac empathi gael eu defnyddio, dechreuodd A fagu hyder. Daeth Mam yn fwy hunan-ymwybodol a chymerodd gamau i wella ei hiechyd meddwl ei hunan. Aeth Mam i apwyntiadau meddyg teulu am ei gorbryder, a dechreuodd fynd i'r gampfa yn rheolaidd. Dechreuodd Mam sylweddoli a chydabod yr effaith ar ei gallu i rianta pan nad oedd yn edrych ar ôl ei hunain.

Mae perthynas Mam ac A yn gryfach, ac mae A'n teimlo fel ei bod yn cydnabod ei hemosiynau a siarad â Mam pan fo angen cefnogaeth arni. Mae gan A ragor o hyder a hunan-barch. Mae A yn cymdeithasu gyda'i ffrindiau ar benwythnosau bellach ac yn cynllunio i'r dyfodol gyda nhw. Mae hyn yn gwella ei hannibyniaeth. Mae Mam yn mynd ar ôl ei llesiant ei hun ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.



Sefydlu Gwasanaeth Myfyrio'n unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae hwn yn broiect sydd wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithio ar draws y wlad. Cyngor Caerdydd oedd yn arwain ar y gwaith hwn ar gyfer rhanbarth Caerdydd a'r Fro. Cafodd Barnardo's ei gomisiynu gan Gaerdydd a'r Fro er mwyn gweithredu'r gwasanaeth hwn ar ein rhan ar gyfer y rhanbarth. Cafodd y project ei gaffael ym mis Rhagfyr 2017 ac mae wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2018.

Mae'r grant Reflect yn benodol sydd wedi cael profiad o dynnu plant o'u gofal nhw. Bob blwyddyn, mae gwerth y grant oddeutu £127K gyda rhaniad 70/30 o gyllid ar gyfer Caerdydd a'r Fro.

Pwrpas Reflect yw rhoi cyfle i fenywod sydd wedi cael profiad o dynnu plant o'u gofal nhw yn sgil achosion gofal i stopio, adlewyrchu ac i osgoi'r un peth yn digwydd eto. Yn Lloegr, cyfeirir at broiect tebyg fel Pause. Mae'r project yn gwbl seiliedig ar yr egwyddor o gynnig lefel holistig o gymorth dwys i fenywod, sy'n eu galluogi nhw i wneud dewisiadau bywyd gwahanol drwy newid eu ffordd o fyw, patrymau ymddygiad ynghyd â defnyddio gwasanaethau cymorth i atal ymyriad Gwasanaethau Cymdeithasol i'r dyfodol.

Mae'r gwasanaethau'n cynnig ystod eang o gymorth ac ymyriadau ymarferol allai gynnwys mynd ar ôl materion tai, rheoli budd-daliadau, cyngor ar atal cenhedlu a chefnogi rhieni i reoli perthnasau. Mae'r cymorth hwn yn canolbwyntio ar adeiladu gwydnwch, hyder a hunan-barch gydol y rhaglen. Ochr yn ochr â hyn, mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth therapiwtig ar ffurf DBT i helpu rhieni i adeiladu strategaethau ymdopi er mwyn delio â rhai o'r sefyllfaoedd a'r profiadau y maent wedi'u hwynebu. Mae gweithwyr Reflect hefyd yn cefnogi unigolion i ddefnyddio ein gwasanaethau unigryw megis gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau tai a chymorth cyflogaeth.

Yn ystod 2018/19, derbyniodd y gwasanaeth saith o atgyfeiriadau o ran dinasyddion Bro Morgannwg. O'r saith o atgyfeiriadau hyn, parhaodd pump o rieni i weithio gyda'r tîm Reflect dros gyfnod o 4-11 mis.

Er bod y project hwn newydd ddechrau rydym wedi cael sawl llwyddiant allweddol. Yn ystod 2018/19, rydym wedi cael llwyddiant penodol o ran atal menywod rhag cael rhagor o feichiogrwydd annisgwyl. Rhoddir gwybodaeth a chyngor i rieni am opsiynau Dulliau Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hir Dymor (LARC) yn rhan o'r rhaglen Reflect, ond does dim angen iddynt fod ar ddulliau atal cenhedlu er mwyn cael mynediad at gymorth. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Thimau Iechyd Rhywiol ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i gynnig lefel uchel o hygyrchedd a chymorth fel y gall rhieni wneud penderfyniadau call am yr opsiynau gorau iddyn nhw. Mae rhieni'n cael cynnig dull cyflym sy'n canolbwyntio ar y person o ran cael mynediad at gymorth iechyd rhywiol, sydd wedi cael effaith bositif iawn ar nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio eleni. Mae nifer fawr yn defnyddio dulliau atal cenhedlu, sydd wedi rhoi amser i'r menywod hyn i stopio ac i wneud dewisiadau ffordd o fyw i osgoi'r un peth yn digwydd eto. O'r 5 o rieni ym Mro Morgannwg sydd ar agor i'r project ar hyn o bryd – mae 4 o 5 o'r rhieni ar hyn o bryd yn defnyddio Dulliau Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hir Dymor (LARC) heb unrhyw feichiogrwydd eraill yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r rhiant gweddilliol yn dal yn ystyried eu hopsiynau. Mae bob rhiant wedi cael cefnogaeth i gael mynediad at gyngor a chymorth drwy'r timau iechyd rhywiol yn y Fro.

O ran y prif ganlyniadau, mae'r project wedi llwyddo i alluogi menywod i adlewyrchu a thaclo patrymau ymddygiad/perthnasau dinistriol a chanolbwyntio ar ddatblygu sgiliau newydd i greu dyfodol mwy positif i'w hunain. Mae'r project yn cael effaith ar atal plant ychwanegol rhag mynd i mewn i ofal ac roedd gostyngiad yn nifer y beichiogrwydd annisgwyl/beichiogi eto. Mae menywod sydd wedi defnyddio cymorth yn teimlo fel eu bod wedi grymuso i reoli eu bywydau a rhoi seiliau cryf ar waith lle gallent wella eu synnwyr hunan-barch a llesiant. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae rhieni o Gaerdydd a'r Fro wedi bod yn mynychu grwpiau cyfranogiad wedi'u hwyluso gan 'Mess up the Mess'. Mae'r sesiynau hyn wedi canolbwyntio ar adeiladu hyder a hunan-barch – gan ddefnyddio Celft, Drama a Cherddoriaeth i hwyluso ymgysylltiad. Mae'r sesiynau hyn wedi cael croeso mawr ledled y cohort ac yn bwriadu parhau yn ystod y flwyddyn ariannol 19/20. Bydd y sesiynau hyn yn ffurfio 'drws blaen' i unrhyw riant sy'n defnyddio'r project i gwrdd â rhieni eraill mewn lleoliad grŵp, a fydd yn rhan o'n strategaeth cyfranogiad/ymgynghori ehangach tua'r dyfodol.

Gweler isod fraslun o ychydig o'r adborth y mae'r gwasanaeth wedi'i dderbyn dros y flwyddyn ddiwethaf:

'Rwyf wedi aros blynyddoedd am gyswllt gyda fy mhlant, hebddoch chi ni fyddwn wedi derbyn y llun neu'r llythyr hwn gan y bechgyn'

'Rhywun i siarad â nhw pan fydd angen cyngor, rhywun sy'n gwrando'

STORI DEFNYDDIWR GWASANAETH

Atgyfeiriad gan Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg. Ar adeg yr atgyfeiriad, roedd gan B 4 o blant oedd wedi'u tynnu o'i gofal. Roedd 3 wedi'u lleoli gyda rhieni mabwysiadol, ac mae 1 plentyn yn byw gydag aelod o'r teulu. Noda B ei bod wedi cael plentyndod caled lle roedd yn ofalwr ifanc i'w mam oedd yn dioddef gan iechyd meddwl. Ar ôl cael ei hatgyfeirio at Reflect, rhannodd B ei bod wedi dioddef gan drais rhywiol.

Cafodd B Weithiwr Project penodol wnaeth gydgyssylltu â'r Heddlu, Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, tai ac Atal y Fro i greu rhwydwaith gofal cofleidol i B. Mae Reflect hefyd wedi cefnogi B i gael apwyntiadau megis gyda Mind a'i meddyg teulu, ac wedi ei hatgyfeirio at raglenni ynghylch perthnasau diogel ac iachus. Mae B bellach yn defnyddio Dulliau Atal Cenhedlu

STORI DEFNYDDIWR GWASANAETH

Mae B wedi gwneud cynnydd da iawn yn y misoedd yn gweithio gyda Reflect. Mae'r amgylchiadau wedi bod yn anodd ond mae wedi ymrwymo i fynd ar ôl sawl o broblemau amlwg. Mae ei hyder yn cynyddu ac mae'n gallu hunan-eirioli a chymryd camau. Mae wedi ymgysylltu'n dda mewn sesiynau gan ganolbwyntio ar ei hiechyd a lles emosiynol ei hunain, ac mae'n datblygu strategaethau i'w helpu hi i ymdopi yn yr hir dymor. Mae'n cymryd rhan rhagweithiol mewn grwpiau Reflect ac mae'n ymddangos ei bod yn elwa ar dreulio amser gyda rheini eraill yn rhan o ystod o weithgareddau.

Beth yw ein blaenoriaethau i'r flwyddyn i ddod?

Yn 2019/20, byddwn yn:

1. Bwrw ymlaen â gwaith project rhwng y cenedlaethau sy'n cynnwys ysgolion a lleoliadau gofal.



5.6 SAFON LLES 6: Gweithio gyda a chefnogi pobl i gyflawni lle economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Mae cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd yn hanfodol i wella ymdeimlad rhywun o les. Os oes gan unigolyn ddigon o arian i fyw arno, fod ganddo rwydweithiau cymdeithasol ac y gall fwynhau byw mewn llety fforddiadwy o safon sy'n bodlon ei anghenion, mae'n fwy tebygol o gael ansawdd bywyd da.

Mae unigedd ac ynysu'n faterion a all effeithio'n fawr ar iechyd a lles pobl o bob oedran, a dyna sail allgáu cymdeithasol. Gall synnwyr o unigrwydd wneud i unigolion deimlo'n ynysig, ac i'r unigolyn gall hyn fod yn brofiad ofnadwy sy'n cael effaith fawr nid yn unig ar eu synnwyr llesiant ond hefyd ar eu gallu i gysylltu ag eraill ac i deimlo'n rhan o'r gymuned. Fe'i nodwyd fel un o ganfyddiadau trawstoriadol allweddol Asesiad Anghenion Y Boblogaeth.

Mae gwella cyfranogiad cymunedol yn ein galluogi ni i daclo agweddau ar allgáu cymdeithasol ac unigedd, fel y gall unigolion deimlo'n rhan o'u cymunedau. Mae enghreifftiau newydd lle mae projectau dysgu rhwng y cenedlaethau sy'n dod â phlant a phreswylwyr cartref gofal at ei gilydd sydd wedi bod yn brofiad positif i'r rhan fwyaf. Yng Nghartref Preswyl Cartref Porthceri yn y Barri, mae project dysgu rhwng y cenedlaethau yn golygu bod disgyblion Blwyddyn 6 o Ysgol Gynradd Romilly yn rheolaidd yn ymweld ag unigolion y cartref bob pythefnos i arwain ar weithgareddau a rennir. Mae'r project hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae wedi'i ganmol gan gyfranogwyr. Er enghraifft, roedd un preswilydd yn teimlo bod yr ymweliadau wedi 'gwella eu llesiant'. Nodir bod y plant yn edrych ymlaen yn fawr iawn ac yn mwynhau cynllunio'r gweithgareddau ac ysgrifennu llythyrau at y preswylwyr drwy'r wythnos i gadw mewn cysylltiad. Mae llwyddiant y project hwn hefyd yn amlwg drwy'r fideo atodedig.

Yn ystod 2018/19, aeth Cyngor Bro Morgannwg i mewn i drefn partneriaeth gyda Chyngor Dinas Casnewydd i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant. Roedd hyn yn golygu mai Cyngor Bro Morgannwg oedd â'r cyfrifoldeb ymgysylltu ar gyfer y cynnig a'r Awdurdod Cyflawni oedd Cyngor Dinas Casnewydd, a nhw oedd yn arwain gweinyddiaeth y cynnig. Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd oedd yn arwain y gwaith ymgysylltu hwn oedd yn cynnwys hyrwyddo'r cynnig ymysg rhieni a darparwyr gofal plant a swyddogion hyfforddiant yn y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i ymateb i ymholiadau.

Yn ystod 2018/19, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar ffurf sioeau teithiol ledled Bro Morgannwg i godi ymwybyddiaeth am y cynnig newydd i rieni cymwys. Roedd y dull hwn yn llwyddiannus iawn oherwydd hyd yma mae dros 400 o rieni cymwys wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ers mis Mawrth 2019, gyda dros 150 o ddarparwyr gofal plant yn cofrestru ar gyfer y Cynnig. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynnig Gofal Plant ar ein gwefan. Cynnig Gofal Plant y Fro

I gefnogi ein dinasyddion yn well a gwella eu llesiant economaidd a chymdeithasol, mae gofyn i ni weithio'n effeithiol gyda'n rhanddeiliaid allweddol i gydlynu'n well a chyfeirio preswylwyr at wasanaethau fydd yn rhoi rhagor o sefydlogrwydd economaidd, cysylltedd â'u cymunedau a mynediad at dai o safon.

Trosolwg o'r Perfformiad

Mesurau Ansoddol

Nododd 94.4% o bobl eu bod nhw'n byw yn y cartref cywir iddyn nhw.
Nododd 98.1% o blant a phobl ifanc eu bod yn fodlon ar bwy maen nhw'n byw gyda.
Nododd 98.6% o bobl eu bod nhw'n derbyn gofal a chymorth yn eu dewis iaith.
Nododd 80% o oedolion ifanc eu bod nhw'n derbyn cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi nhw at fod yn oedolyn.
Nododd 70.6% o bobl eu bod nhw wedi dewis byw mewn cartref gofal preswyl.

Mesurau Dangosol

Roedd 53.8% o'r rhai adawodd ofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.
Roedd 52.1% o'r rhai adawodd ofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal.
Cafodd 14.9% o'r rhai adawodd ofal brofiad o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn.

Beth cynllunion ni i'w wneud y llynedd?

Gwnaethom nodi dwy flaenoriaeth i'w cyflawni yn ystod 2017/18:

1. Gweithio gyda'n partneriaid yn rhanbarthol i ddatblygu Strategaeth Llety â Gofal i hyrwyddo byw'n annibynnol.
2. Gweithredu cronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd unigryw a system rheoli cofnodion.

Faint lwyddon ni a pha wahaniaeth wnaethom?



Gweithio gyda'n partneriaid yn rhanbarthol i ddatblygu Strategaeth Llety â Gofal i hyrwyddo byw'n annibynnol.

Cydnabyddir ansawdd, addasrwydd, gallu i addasu a fforddiadwyedd tai i bobl hŷn fel ffactorau allweddol sy'n galluogi unigolion i ddal i fyw'n annibynnol gyhyd â phosibl.

Mae sicrhau llety priodol gyda datrysiadau gofal i alluogi pobl hŷn i fyw mewn modd mwy annibynnol wedi bod yn flaenoriaeth a nodwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ystod 2018/19, comisiynydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai i gynnal asesiad o dai ac anghenion gofal cysylltiedig i bobl 50+ oed i Gaerdydd a Bro Morgannwg. Pwrpas yr asesiad oedd adnabod anghenion llety a chymorth i'r dyfodol fyddai'n gallu cael eu defnyddio i siapio unrhyw raglenni buddsoddi cyfalaf i'r dyfodol. Amlinellodd yr asesiad dystiolaeth ategol a datrysiadau arfer gorau i siapio'r ffordd yr ydym yn ceisio datblygu cymorth tai i'r dyfodol, wedi'u cyflwyno fel cyfres o argymhellion i'w hystyried.

Dyma rai o'r prif ganfyddiadau mewn perthynas â Bro Morgannwg:

- Datgelodd canfyddiadau'r ymchwil mai'r math mwyaf cyffredin o dai i bobl hŷn yw tai gwarchod a thai eraill penodol i oedran yn y sector rhentu cymdeithasol.
- Fodd bynnag, nodwyd bod tai gofal ychwanegol/tai â darpariaeth gofal yn brin iawn o gymharu â nifer y gwelyau gofal preswyl.
- Disgwylir wrth i anghenion gofal gynyddu, bydd addasrwydd y mathau mwyaf cyffredin o dai i bobl hŷn h.y. tai gwarchod a thai ymddeol preifat yn gostwng dros amser.
- Bydd cyfran uwch o bobl ag anghenion gofal megis anghenion yn ymwneud â dementia ym mhob math o dai.
- Mae'n debyg y bydd galw uwch am addasiadau/gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg i gefnogi pobl hŷn i barhau i fyw mewn tai prif lif.

Mae disgwyl i nifer y bobl 75+ oed yn y boblogaeth gynyddu gan 71% ym Mro Morgannwg erbyn 2035. Yn seiliedig ar hyn, mae'r asesiad rhanbarthol yn diffinio anghenion i'r dyfodol, gan nodi y bydd:

- Mwy o angen am dai pobl hŷn, tai gwarchod cyfoes/tai ymddeol preifat oherwydd y twf amcanestynnir ym mhoblogaeth pobl hŷn.
- Galw sylweddol am dai â gofal (tai gofal ychwanegol a gwasanaethau byw â chymorth).
- Angen cynnig opsiynau tai 'llai' i bob math o denantiaethau i alluogi pobl hŷn i barhau i fod yn berchen-feddiannwr neu i helpu'r rheiny sydd am rentu neu brynu'n rhannol; a
- Galw cynyddol a amcanestynnir ar gyfer y ddarpariaeth gofal nyrsio sy'n adlewyrchu anghenion gofal personol cynyddol y boblogaeth hŷn e.e. niferoedd cynyddol y bobl sy'n byw â dementia a/neu gyflyrau cronig.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r asesiad rhanbarthol, cynigwyd cyfres o argymhellion. Roedd rhai o'r argymhellion hyn yn cynnwys datblygu cymysgedd o lety cymorth/ymddeol 'barod am ofal' pwrpasol, datblygiadau tai prif lif 'barod am ofal', cynyddu tai gofal ychwanegol a modelau 'ysgafn' tai gofal ychwanegol lle mae darpariaeth ar y safle ar gyfer hyb gofal, ystyried datblygu pentref ymddeol, dulliau tai cefnogol-gweithredol/dan arweiniad y gymuned, datblygu modelau tai a gofal nyrsio ar gyfer pobl sydd â dementia ac ystod eang o anghenion gofal, gwella datblygiad y modelau 'symud i lawr' sy'n seiliedig ar dai yn rhan o strategaethau adsefydlu presennol i gefnogi pobl i gael eu rhyddhau'n amserol o'r ysbyty a/neu atal derbyniadau diangen a'r angen i ehangu'r defnydd o dechnoleg sy'n galluogi gofal.

O ran datblygiadau allweddol ar lefel leol, mae'r asesiad LIN Tai a'r Strategaeth Dai Leol wedi dylanwadu'r penderfyniad i ail-ddatblygu tir yn Llys Brecon (safle Llety Gwarchod gynt). Yn ystod mis Mawrth 2019, dechreuodd gwaith ar broiect £3.5miliwn yn Llys Brecon yn Y Barri i adeiladu 28 o dai pwrpasol newydd i ateb y galw lleol am dai. Mae'r project wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru i adeilad tai cymdeithasol i'r rheiny sydd eu hangen fwyaf yn y gymuned. Yn unol â'r argymhellion a ddaeth yn sgil Asesiad y LIN Tai, bydd y safle rhyng-genedlaethau hwn yn cynnwys nau o dai â dwy ystafell wely, pedwar o dai â thair ystafell wely i deuluoedd o 15 o fflatiau ag un ystafell wely i bobl hŷn. Bydd y datblygiad 'barod am ofal' hwn o dai cymdeithasol yn golygu y bydd rhai o'r eiddo'n cael eu datblygu fel bod unigolion yn gallu defnyddio technoleg prif ffrwd i fyw yn fwy annibynnol drwy ganolbwyntio ar gefnogi'r rheiny ag anghenion cymedrol i lefel isel h.y. pobl hŷn a phobl ag anableddau a phobl â phroblemau iechyd meddwl / neu salwch iechyd meddwl.

Yn ystod 2018/19, rydym hefyd wedi defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi ymarfer sgopio (Briff Project) o lain o dir ym Mhenarth i ddatblygu achos amlinellol ar gyfer datblygu Safle Tai Gofal i Bobl Hŷn. Mae'r Briff Project yn cynnig dadansoddiad opsiynau sy'n nodi'r dewisiadau gwahanol ar gyfer datblygu model cynaliadwy o lety i bobl hŷn. Bydd hyn yn bwriadu datblygu tai gwarchod/ymddeol 'barod am ofal' Cyfoes sy'n cydymffurfio â HAPPI h.y. heb ofal ar y safle ond wedi'i ddylunio mewn ffordd sy'n galluogi pobl i heneiddio heb lawer o symudedd.

Gan edrych i 2019/20, byddwn yn parhau i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau ar lefel leol yn parhau i adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu Tai a Llety Pobl Hŷn.



Gweithredu cronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd unigryw a system rheoli cofnodion.

Mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rôl hanfodol fel arweinwyr strategol ar gyfer siapio darpariaeth gofal plant. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth sefydledig sy'n cynnig gwybodaeth ac atgyfeirio o safon i unigolion am ofal plant a gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae'n ofyn statudol dan Adran 12 Deddf Gofal Plant 2006 bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i roi cyngor a chanllawiau i deuluoedd am wasanaethau a chymorth lleol. Dan y Ddeddf hon, mae angen i Gynghorau hefyd sicrhau gofal plant digonol i fodloni gofynion rhieni eu hardal, ac yn rhan o'r gofyniad hwn mae Cynghorau'n cynnal Archwiliadau Digonedd Gofal Plant i asesu argaeledd eu darpariaeth gofal plant o fewn eu hardaloedd ac unrhyw fylchau o ran darpariaeth drwy ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid. Ym Mro Morgannwg, mae Archwiliad y ddarpariaeth hon yn cael ei ddefnyddio i siapio Cynllun Gweithredu i gefnogi gwaith datblygu pellach sy'n gysylltiedig â darpariaeth gofal plant.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Bro Morgannwg hefyd yn cyflawni'r Fynegai i Blant a Phobl Ifanc gydag Anableddau neu Anghenion Ychwanegol, ac mae gwybodaeth ar wefan y Fynegai. Hyd yma, mae 700 o blant wedi cofrestru ar gyfer y Mynegai yn y Fro a dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwasanaeth wedi derbyn 158 o ymholiadau yn y Fro yn gofyn am wybodaeth a chymorth ar gyfer plentyn ag anghenion ychwanegol.

Cafodd system newydd ei beilota yn ystod 2018/19 ac ar ôl ei lwyddiant, cafodd ei lansio'n ffurfiol ym mis Mawrth 2019. Mae'r ffordd newydd mae'r system yn gweithio'n darparu:

- Datrysiad swyddfa ddeuol. Mae'n galluogi'r defnyddiwr (rhiant/gweithwyr proffesiynol/darparwyr) i ddefnyddio'r system swyddfa flaen i gyflwyno ymholiadau a chwilio drwy ddarpariaeth/adnoddau, a staff y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) i ddefnyddio'r swyddogaeth swyddfa gefn fel dull Rheoli Cofnodion i ddiweddarau gwybodaeth y defnyddwyr, cofnodi a chasglu data/gwybodaeth ar ymholiadau a chefnogi hyfforddiant a datblygiad staff.
- Y gallu i fapio adnoddau yn ôl awdurdod lleol a ward. Mae hyn yn galluogi'r defnyddiwr i raeadru gwybodaeth yn ôl categori e.e. Pump o ofalwyr plant yn y Bont-faen.
- Mae gan Staff GGiD allu i weld faint o weithiau mae adnodd unigol wedi'i ddefnyddio mewn cyfnod penodol.
- Mynediad at wybodaeth ledled ffiniau'r awdurdod lleol a Chymru gyfan.
- Gallu rhieni i raeadru eu canlyniadau yn ôl ystod cod post, darparwyr sy'n pigo a gollwng o ysgolion penodol, iaith y darparwr, os oes gan y darparwr brofiad o ofalu am blant ag anghenion ychwanegol, argaeledd gofal plant (lleoedd ar gael a gofal penwythnos ac ati), os yw'r darparwr wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, Cynllun Gofal Plant Di-dreth ac os oes ganddynt cyfleusterau penodol.
- Y gallu i adolygu cynnwys yn systematig bob 6 mis i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol.
- Swyddogaeth awtomataidd, lle bydd negeseuon e-bost yn cael eu hanfon at ddarparwyr cyn bod eu gwybodaeth yn dod i ben, yn eu hatgoffa nhw i ddiweddarau.
- Ffordd i hwyluso'r gwaith o hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant newydd gafodd ei lansio yn 2018/19.

Dyma lun o sut mae'r system newydd yn edrych.



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Services

HOME ABOUT FAMILY INFORMATION SERVICES

CYMRAG

VALE FAMILY INFORMATION SERVICE



Child minder

Childminders are registered childcare providers who work in their own homes caring for children from birth up to the age of 12 years and for more than 2 hours a day. Child minders can offer full day care or part time care including before and after school provision.



Day nursery

Day nurseries provide childcare for young children from birth to age 5. They usually open from early morning to early evening, Monday to Friday, all year round.



After school club

After school clubs provide childcare after school hours, and are a safe place for children to play, relax and socialise. Some clubs that are not run by schools can collect children from their school at the end of the day.



Holiday club

Holiday clubs provide a wide range of play activities for children during the school holidays. Some are run by schools, while others are run by private or voluntary organisations. Costs vary between holiday clubs, and you will usually be charged per day your child attends.



Breakfast club

Breakfast clubs are usually run by schools, and offer children a safe and supervised place to go before school. They provide a healthy breakfast for pupils and are particularly useful if your child arrives early at school.



Playgroups

Playgroups cater mainly for children aged 2½ to 5 years, usually for 2 to 3 hours in the morning or afternoon and mainly during term time. Cylchoedd Mathrin are Welsh-medium playgroups which give children an opportunity to become bilingual (in English and Welsh).



Family support services

Family support services cover a range of support services, networks and facilities for parents and carers and young people to enhance their capacity to cope with the challenges of family life. These services also help children and young people reach their full potential. Family Support Services can be provided by the statutory, voluntary and private sectors.



Children and young people's activities

A range of information about local clubs and activities for children and young people.

Er gwaethaf datblygiad y system newydd, mae'r gwasanaeth GiD wedi parhau i dderbyn nifer uchel o ymholiadau. Yn ystod 2018/19, derbyniwyd 1,810 o ymholiadau, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain gan rieni/gofalwyr (78%). Roedd y 22% o ymholiadau oedd yn weddill un ai gan ddarparwyr gofal plant a/neu gweithwyr proffesiynol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg. Roedd y rhan fwyaf o ymholiadau (38%/691 o ymholiadau) mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant, ac roedd 10% mewn perthynas ag ymholiadau gofal plant cyffredinol.

O ran canlyniadau, mae'r system newydd wedi'n galluogi ni i ddatblygu gwasanaeth gwell lle gall rhieni gael mynediad rhwydd at wybodaeth ddiweddar ar ddarpariaeth gofal plant. Mae hyn yn ei dro yn galluogi rhieni i wneud dewisiadau call am ofal plant sy'n bodloni eu hanghenion yn well, gan alluogi nhw un ai i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu eu capasiti i weithio mwy o oriau.

Gweler isod astudiaeth achos sy' n ymwneud â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

STORI DEFNYDDIWR GWASANAETH

Ffoniodd y Ganolfan Byd Gwaith i rannu manylion am riant oedd wedi mynd i'r ganolfan yn ei dagrau yn chwilio am gymorth gyda gofal plant. Roedd disgwyl i'r plentyn gael llawdriniaeth, fyddai'n golygu y byddai mewn cast plastr am 6 mis o'i ganol i lawr. Roedd y darparwr gofal plant presennol wedi dweud na fyddai'n gallu edrych ar ôl y plentyn mwyach, felly cyfeiriodd y GBG hi atom ni. Gwnaethom ffonio'r rhiant i gael rhagor o fewnwelediad o ran anghenion y plentyn. Mae'r plentyn yn 2 oed ac ni fydd yn gallu symud pan fydd yn y cast, sy'n golygu y bydd angen gofal un wrth un. Gwnaethom chwilio am opsiynau gofal plant o fewn hanner milltir o'r cartref. Gan nad yw'r rhiant yn gyrru, dyma yw'r unig bellter hygyrch. Yna, gwnaethom ffonio bob darparwr gofal plant i drafod anghenion y plentyn ac roeddem yn gallu cynnig manylion o ddau leoliad fyddai'n gallu cefnogi. Yna, cyfeiriasom y rhiant at y Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc i drafod eu cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cymorth Lleodedd fyddai o bosibl yn helpu i dalu am y gofal un wrth un. Wrth gysylltu â'r rhiant am adborth ar ein gwasanaeth, cawsom wybod bod dau ofalwr plant ac un Meithrinfa Ddydd yn gallu edrych ar ôl ei phlentyn. Bydd y plentyn yn dechrau mewn lleoliad ym mis Gorffennaf. Bydd cais am gymorth lleodedd yn cael ei gyflwyno pan fydd y plentyn yn y lleoliad.

Beth yw ein blaenoriaethau i'r flwyddyn i ddod?

Yn 2019/20, byddwn yn:

1. Gwerthuso ac adolygu'r defnydd o dechnoleg cymorth i gefnogi oedolion i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.
2. Gweithio gyda'r is-adran Tai i weithredu ein dull Llety â Gofal i gefnogi a manteisio ar gyfleoedd i fyw'n annibynnol.

6. Sut a Wnawn yr Hyn a Wnawn



6.1 Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Drwy ein cynlluniau gweithlu sefydledig a phrosesau cynnwys staff rydym yn dal i gynnal gweithlu medrus a gwydn iawn sy'n ymatebol i'r amgylchedd deddfwriaethol newidiol y gweithiwn ynddo. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn dal i ganolbwyntio ar gadw staff, recriwtio llwyddiannus a staff effeithiol er gwaetha'r pwysau cyllidebol a'r galw ar ein gwasanaethau.

Yn dilyn lansiad llwyddiannus y Siarter Staff yn 2016, datblygwyd Arolwg Cyngor Cyfan. Hon yw'r drydedd flwyddyn i'r arolwg gael ei chynnal ac roedd canfyddiadau cyffredinol arolwg 2018 yn gadarnhaol iawn i fesur ein cynnydd o ran y Siarter Staff. Mae'r arolwg wedi'i selio ar werthoedd y Cyngor sef agored, gyda'i gilydd, uchelgeisiol a balch ac yn ceisio adnabod ymgysylltiad cyffredinol staff i nodi pa mor bositif ydynt mewn perthynas â chyfres o ddatganiadau sydd wedi'u fframio rownd y gwerthoedd hyn. Y gyfradd ymateb staff y gwasanaethau cymdeithasol oedd 49% sydd wedi cynyddu o 42% yn 2017.

Dyma'r sgoriau positifrwydd yn erbyn y pedwar rhan yn seiliedig ar werthoedd yn yr arolwg ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol:

- **Uchelgeisiol** – Meddwl at y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol. Ymatebodd 75% o aelodau staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn bositif i'r cwestiynau ynghylch y gwerth hwn, o'i gymharu â 68% ledled y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- **Agored** – Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau yr ydyn ni'n eu gwneud. Ymatebodd 77% o aelodau staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn bositif i'r cwestiynau ynghylch y gwerth hwn, o'i gymharu â 72% ledled y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- **Gyda'n gilydd** – Gweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a phartneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon. Ymatebodd 79% o aelodau staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn bositif i'r cwestiynau ynghylch y gwerth hwn, o'i gymharu â 74% ledled y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- **Balch** – Balch o Fro Morgannwg, balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg. Ymatebodd 66% o aelodau staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn bositif i'r cwestiynau ynghylch y gwerth hwn, o'i gymharu â 63% ledled y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Yn ogystal â'r cwestiynau hyn yn seiliedig ar werthoedd, am y tro cyntaf cyflwynodd yr arolwg hwn y defnydd o gwestiynau'n gysylltiedig â mynegai ymgysylltu safon diwydiant, sy'n ein galluogi i gymharu ein hunain gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r diwydiant yn ei gyfanrwydd. Cafodd y cwestiynau hyn eu cynnwys yn rhan o'r

datganiadau i gytuno neu anghytuno gyda nhw. Dyma amlinellid o'r cwestiynau hyn a'r canlyniadau yn y tabl isod:

Cwestiwn	Trwy'r Cyngor	Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr wyf yn falch o weithio i Gyngor Bro Morgannwg	74%	78%
Byddwn yn argymhell Cyngor Bro Morgannwg fel lle da i weithio	70%	77%
Nid wyf yn mynd ati i chwilio am swydd newydd gyda chwmni arall	69%	71%
Yn gyffredinol rwy'n fodlon iawn gyda Chyngor Bro Morgannwg fel lle i weithio	70%	76%
Mynegai Ymgysylltu (Sgôr ar gyfartaledd o bob cwestiwn)	71%	76%

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i barhau i gefnogi a hyrwyddo nifer o fentrau gweithlu corfforaethol sydd â'r nod o hyrwyddo ymgysylltu, cyfranogiad, datblygiad a chydabyddiaeth o'n gweithlu ymroddgar. Mewn perthynas â chydabod a chanmol ein staff, rydym wedi parhau i gefnogi'r cynllun 'Mynd yr Ail Ffilltir' sy'n rhoi cyfle i staff ledled y Cyngor i enwebu eu cydweithwyr i gydnabod gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w gwaith bob dydd. Yna, caiff yr erthyglau eu cyhoeddi ar ein mewnwyd ac mewn cylchlythyron i ddathlu'r llwyddiannau ac ymroddiad ein staff.

Fel modd o wella cyfathrebu ymhellach gyda'n gweithlu, rydym wedi ymgysylltu â gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol drwy greu rhan 'gofyn i'r Cyfarwyddwr' rheolaidd, sydd wedi galluogi staff i ofyn cwestiynau/testunau perthnasol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddefnyddio cyfuniad o erthyglau fideo, lluniau ac ysgrifenedig i gyfleu prif negeseuon am waith y gwasanaethau cymdeithasol.

Ein blaenoriaethau gweithlu allweddol yn 2018/19 oedd:

- Mynd i'r afael ag unrhyw swyddi gwag o ran swyddi critigol drwy barhau i ganolbwyntio ar leihau ein dibyniaeth ar staff asiantaeth ac ystyried cyfleoedd recriwtio sydd wedi'u targedu fwy.
- Byddwn hefyd yn nodi rhwystrau i ddenu'r ymgeiswyr cywir i swydd gan ddatblygu dulliau recriwtio mwy arloesol.

Yn ystod 2018/19, gwnaethom fynd ar ôl hyn mewn sawl ffordd:

- Rydym wedi gwella ein dull o ran cynlluniau dilyniant drwy gefnogi cynnydd unigolion o rolau anghymwys i rai cymwys a datblygu ymarferwyr i swyddi rheoli. Mae gan y Gyfarwyddiaeth record dda o gadw myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ar ôl iddynt gymhwyso yn ogystal â pharatoi ymarferwyr i symud i rolau rheoli. Mae hyn yn benodol wir am y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.
- Rydym wedi parhau i gefnogi ein staff i wella eu datblygiad personol drwy gydnabod rhaglenni hyfforddiant ynghyd â nodi unigolion i gymryd rhan yn y sesiynau datblygu arweinyddiaeth/rheoli i roi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i reoli Gwasanaethau Cymdeithasol modern.

- Gwella ein recriwtio i swyddi sy'n hanfodol i'r busnes drwy fuddsoddi yn natblygiad ymgyrch recriwtio sylweddol ond pwrpasol i Weithwyr Cymdeithasol a Rheolwyr Gwaith Cymdeithasol, gan ddefnyddio cyhoeddiadau DU gyfan/llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i farchnata apêl gweithio a byw ym Mro Morgannwg. Mae'r dull hwn wedi bod yn ffordd effeithiol o recriwtio i nifer o swyddi o fewn yr Awdurdod, ac mae bellach yn rhan hanfodol o'n strategaeth recriwtio ar gyfer mwy o swyddi arbenigol/sy'n hanfodol i'r busnes. Er bod recriwtio Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yn dal i fod yn her i'r gwasanaeth, rydym yn bwriadu adolygu'r llwybr cynnydd gyrfa ar gyfer y cohort hwn o staff yn ystod 2019/20.
- Rydym wedi lleihau'n sylweddol ein dibyniaeth ar staff asiantaeth yn ein timau rheoli gofal. O ganlyniad, mae staff asiantaeth ond yn cael eu defnyddio ar gyfer projectau wrth gefn neu a ariennir gan grant. Fodd bynnag, rydym yn dal yn eithaf dibynnol ar staff asiantaeth yn ein cartrefi gofal i barhau i sicrhau bod lefelau diogel o staffio i ofalu am ein preswylwyr. Rydym wedi sefydlu perthynas rhagweithiol iawn gyda'n darparwr asiantaeth i sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi'n gyflym ac o fewn ein hadnoddau. Bydd lleihau ein dibyniaeth ar staff asiantaeth yn dal i fod yn ganolbwynt pwysig yn ein lleoliadau cartrefi gofal.
- Wedi ymchwilio i rannu llwythi gwaith mewn ffordd wahanol er mwyn mynd ar ôl materion capasiti yn y timau. Yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc rydym wedi gwneud hyn drwy roi rhagor o adnoddau (staff) wrth y 'drws blaen' ar ffurf IAA. Rydym hefyd wedi creu timau ymroddgar ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chynllunio a phrosesu gofal, sydd wedi rhoi rhagor o gapasiti a gwydnwch i'r gwasanaeth.
- Wedi cynnal sesiwn ddatblygu gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a Staff i geisio adnabod ffyrdd eraill o recriwtio a chadw staff. Rydym hefyd wedi parhau i ymchwilio i opsiynau i ddefnyddio prentisiaethau/hyfforddeion o fewn is-adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

Wrth gynnal a gwella ein gwasanaethau rydym wedi nodi ystod o gamau gweithredu â blaenoriaeth i'n sefydliad y bwriadwn eu datblygu'n ystod 2019/20 i sicrhau y gallwn barhau i gefnogi'n staff yn effeithiol i gyflawni newid.

Ein blaenoriaethau Gweithlu ar yfer 2019/20:

Yn ystod 2019/20 rydym yn bwriadu:

- Ymchwilio i opsiynau cynllunio dilyniant mewn perthynas â phroffil rhai timau sy'n heneiddio, ynghyd â'r gweithwyr cymdeithasol medrus, rheolwr ymarferwyr/haenau rheolwyr tîm er mwyn cynyddu gwydnwch gwasanaethau.
- Parhau i gefnogi rheolwyr presennol ac yn dyfodol i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i reoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol modern drwy ddal i wella'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr a drwy roi rhaglen arweinyddiaeth pwrpasol ar waith.
- Cynnal ein ffocws ar gryfhau'r trefniadau rheoli a chefnogi perfformiad mewn perthynas ag absenoldebau salwch yn y gwasanaeth.
- Mynd ar ôl y blaenoriaethau gweithlu sydd ynghlwm wrth ddatblygu model integredig mewn perthynas â'r Tîm Gofal Hir Dymor a'r Tîm Aseswyr Nyrsys drwy weithredu un strwythur rheoli integredig ac adolygu rolau nyrsys a gweithwyr cymdeithasol yn y tîm.
- Cynyddu capasiti drwy adolygu cyflogau ein Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy a chynyddu mynediad at hyfforddiant arbenigol i staff.

- Ymchwilio ymhellach yr opsiynau i dargedu recriwtio'n fwy effeithiol a llwyddo i recriwtio i swyddi sy'n hanfodol i'r busnes.
- Parhau i gefnogi staff i gael yr hyfforddiant a'r datblygiad gofynnol i gyflawni eu rolau'n effeithiol ac mewn cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- Gwella gwydnwch o fewn timau i sicrhau bod newidiadau'n y gymysgedd sgiliau'n ein galluogi i ddefnyddio ein gweithlu amrywiol yn briodol ac i weithredu gwasanaethau ar y raddfa briodol.



6.2 Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio at y Dyfodol

Mae'r Gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei monitro'n ofalus gydol y flwyddyn. I sicrhau bod monitro effeithiol ar waith mae Bwrdd Rhaglen Cyllideb yn bodoli i roi trosolwg a chymryd camau gweithredu lefel uchel. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd o gynnydd yn erbyn targedau arbedion yn ogystal â dealltwriaeth o'r pwysau cynyddol sy'n wynebu'r gyfarwyddiaeth a'r Cyngor. Ystyrir cynlluniau arbedion unigol a phwysau cost gan Gabinet y Cyngor ar adegau priodol gydol y flwyddyn.

Roedd arian grant ar gael yn 2017/18 i gydnabod pwysau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda dyraniad o £513K i Fro Morgannwg.

Mae Bro Morgannwg yn dal i gael budd o ddulliau rhanbarthol a gefnogir gan y Gronfa Gofal Integredig. Mae'r projectau a gwelliannau gwasanaeth yn eangfryd ac yn canolbwyntio ar nifer o feysydd megis gwella ein cyngor a'n cymorth, a chanolbwyntio ar ail-alluogi i helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol. Mae tystiolaeth dda hyd yn oed yng nghydestun twf sylweddol o ran galw a chymhlethdod angen, ein bod yn rheoli'r gyllideb. Mae'r twf hwn yn ymddangos ar draws y sector ond yn fwyaf amlwg gyda phobl hyn yn gofyn am ofal cartref a phlant sydd angen lleoliad.

Mae'r Bwrdd Rhaglen Cyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflawni rhaglen o arbedion sylweddol dros nifer o flynyddoedd. Doedd eleni ddim gwahanol ac unwaith eto cyflawnwyd ein harbedion yn 2018/19. Rydym yn defnyddio dull sy'n mynd ar ôl costau a phwysau cynyddol. I'r diben hwn gwnaethom ddefnyddio dulliau arloesol i reoli galw cynyddol a datblygwyd cynlluniau i reoli costau cynyddol. Yn ogystal mae pwysau cost sylweddol wedi'u cefnogi gan y Cyngor sydd wedi galluogi'r Gwasanaethau Cymdeithasol i symud at fodolau darparu mwy effeithlon gan hefyd gynnal y cymorth hanfodol sydd ei angen ar ein poblogaeth.

6.3 Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Rydym yn dal i ystyried a hyrwyddo cyfleoedd i gydweithio'n lleol ac hyn rhanbarthol er mwyn cyflawni gwasanaethau gwell i gwsmeriaid a chyflawni arbedion. Er gwaetha'r pwysau penodol sy'n gysylltiedig â'r pwysau cyllidebol sydd eisoes yn bodoli a'r galw cynyddol am ein gwasanaethau gwnaethom barhau i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn drwy weithredu i ail-lunio ac integreiddio ein gwasanaethau.



Rydym wedi dal ati i gefnogi'n llwyddiannus Raglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor a'i phrojectau cysylltiedig drwy gyflawni projectau allweddol. Yn ystod 2018/19 gwnaethom bennu targed Arbedion Cyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol o £622,000, y cyflawnwyd £562,000 ohono erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyflawnwyd £10K o arbedion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Dydd Anableddau Corfforol yn ystod y flwyddyn, bydd y £50K sy'n weddill o arbedion yn cael eu cario drosodd i 2019/20.

Gwnaethom gyflawni ein targed arbedion o £42,000 o ran ail-fodelu ein gwasanaeth Seibiant Anabledd Dysgu. Cyflawnwyd yr arbedion hyn ar ôl cau Rhoose Road. Rydym wedi comisiynu darpariaeth amgen i gyflawni newidiadau'r gwasanaeth a'r arbedion ynghlwm wrth y project hwn. Mae mesurau ar waith gyda defnyddwyr gwasanaeth i roi gwybod iddynt am y newidiadau hyn i'r model darpariaeth gwasanaeth.

Yn ystod 2018/19, gwnaethom gyflawni £16K o arbedion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu. Rydym wedi cyflawni arbedion o ran costau staffio yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2018/19) ar sail barhaol. Rydym wrthi'n ymgynghori ar Strategaeth Gomisiynu Ranbarthol i Oedolion ag Anableddau Dysgu a fydd yn siapio darpariaeth gwasanaeth i'r dyfodol.

Mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol, rydym wedi llwyddi i wneud yn well na'r targed arbedion ar gyfer 2018/19, sef £100K. Cyflawnwyd hyn o ganlyniad i ragor o bobl yn cofrestru ar gyfer y pecynnau Taliadau Uniongyrchol newydd. Yn ystod 2019/20, bydd y targed arbedion ar gyfer Taliadau Uniongyrchol yn £50K.

Ymhlith yr arbedion eraill a gyflawnwyd yn ystod 2018/19 oedd £50K ar gyfer y Tîm Adolygu a £98K mewn perthynas â gwaith caffael, a £165K i adolygu'r sefydliad (ail-strwythuro strwythurau staffio). Cyflawnwyd arbedion pellach o £30K drwy adennill dyledion. Bydd y ffocws ar gyfer arbedion rheoli incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn ystyried cynigion i gyflwyno ffioedd a chostau disgresiynol.

O ran adolygiad y Gwasanaethau Dydd i Bobl Hŷn; mae'r gwaith yn parhau. Ni gyflawnwyd y targed arbedion o £10K yn ystod 2018/19, felly bydd yn cael ei gario drosodd i 2019/20.

Rydym hefyd wedi llwyddo i gyflawni ein targed arbedion o £50K ar gyfer 2018/19 mewn perthynas â gwasanaethau gofal preswyl drwy adolygu'r strwythur staffio.



Ein Harweinyddiaeth a'n Llywodraethu

Nid dim ond ein hangen i gyflawni ein dyletswyddau statudol sy'n gyrru ein blaenoriaethau fel Cyfarwyddiaeth, ond hefyd gan yr angen i sicrhau ein bod ni'n gyson yn edrych ar ffyrdd y gallwn symleiddio a gwella'n gwasanaethau i'n dinasyddion.

Amcanion a Chanlyniadau Llesiant y Cynllun Corfforaethol

Bro gynhwysol a diogel -

Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac maent yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol

- **Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol.**
- **Amcan 2: Rhoi cartrefi digonol a chymunedau diogel**

Bro lewyrchus a chyfrifol o ran yr amgylchedd -

Economi gref a chynaliadwy ym Mro Morgannwg a'r amgylchedd lleol yn cael ei ddiogelu i genedlaethau heddiw a'r dyfodol.

- **Amcan 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth**
- **Amcan 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd**

Bro uchelgeisiol â diwylliant byw -

Holl ddinasyddion Bro Morgannwg yn cael cyfleoedd i gyflawni eu llawn botensial

- **Amcan 5: Codi safonau llwyddiant yn gyffredinol**
- **Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth**

Bro iach ac actif -

Mae preswylwyr Bro Morgannwg yn byw bywydau iachus a chaiff pobl sy'n agored i niwed eu hamddiffyn a'u cefnogi.

- **Amcan 7: Annog a hyrwyddo byw'n iach ac yn actif**
- **Amcan 8: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hybu byw'n annibynnol.**

Mae Cyfarwyddwr Penodol yn gyfrifol am bob Canlyniad Llesiant sy'n cymryd rôl arweiniol ar sicrhau bod cynnydd yn digwydd o ran cyflawni'r amcanion/canlyniadau hyn. Mae hefyd yn golygu ffordd o ddwyn pobl a sefydliadau ynghyd i ddarparu ein prif ymrwymadau. Er enghraifft, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r prif noddwr ar gyfer canlyniad Llesiant 4 'Bro iach ac actif' a'r ddau ganlyniad Llesiant 'Annog a hyrwyddo byw'n iach ac actif' a 'Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hybu byw'n annibynnol fel y'i nodir yn y Cynllun Cofforaethol.

Mae Bwrdd Rhaglen y Gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd unwaith y mis. Pwrpas y bwrdd yw rheoli a monitro pwysau cyllidebol ac arbedion sy'n wynebu'r Gyfarwyddiaeth a'r darpariaeth gwaith project cysylltiedig. Mae Rhaglen y Gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau oherwydd y synergeddau sy'n bodoli rhwng y ddwy raglen. Caiff adroddiad uchafbwyntiau Crynodeb o Bob Project ei ddiweddarau ar ôl bob cyfarfod a'i drafod â'r Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod trosolwg o ran yr arbedion.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli ein trefniadau partneriaeth, gan weithio gyda'r GIG, Cyngor Caerdydd a'r Trydydd Sector, wedi dal i weithio'n dda. Rydym yn dal i sicrhau dull cydlynol o ymdrin â'r rhaglen amrywiol iawn hon drwy Fwrdd Rhaglenni Grŵp Llywio Rhanbarthol y Gyfarwyddiaeth sy'n cwrdd bob mis i oruchwylio'r rhaglenni diwygio partneriaeth mawr. O ran y Llywodraethu'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae ffrydiau gwaith sefydledig ar waith i fynd i'r afael â'r holl agweddau allweddol ar gyflawni'r Ddeddf a arweinir gan Uwch Swyddogion yng Nghyngor Bro Morgannwg. Hyd yma mae ein ffocws wedi bod ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf, sydd wedi cynnwys gweithio'n ag os gyda'n partneriaid i gyflawni adolygiad cyflawn o bob agwedd ar ein gwasanaethau o ran y Ddeddf.



Beth mae ein rheoleiddwyr yn dweud amdanom ni?

Bob blwyddyn mae Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) yn cynnal cyfres o weithgareddau/archwiliadau penodol.

Yn ystod 2018/19, roedd y rhain yn cynnwys:

- Y Ganolfan Gyswllt (Un Pwynt Mynediad ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion);
- Archwiliadau cartrefi gofal preswyl Tŷ Dyfan a Thŷ Dewi Sant;
- Archwiliad Plant; a
- Adolygiad dilynol (o'r Archwiliad Plant) y Swyddogion Adolygu Annibynnol.

Yn ogystal, cynhaliodd Arolygiaeth Iechyd Cymru archwiliad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

Archwiliad Plant

Yn rhan o'i raglen o archwilio gwasanaethau a lleoliadau gofal cymdeithasol wedi'u rheoleiddio, mae AGC hefyd yn archwilio bob Awdurdod Lleol o ran y ffordd maent yn cyflawni swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol statudol. Cynhaliwyd archwiliad o wasanaethau plant Cyngor Bro Morgannwg ym mis Mai 2018. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau awdurdod lleol a threfniadau i helpu i amddiffyn plant a'u teuluoedd. Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau'r archwiliad hwn yn bositif gan adrodd ar gynnydd da mewn sawl maes o fewn yr is-adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fel a ganlyn:

- Staff rheng flaen ymroddgar sy'n nodi lefelau boddhad uchel yn y swydd, darpariaeth hyfforddiant dda a chymorth rheoli da ar bob lefel gan gynnwys goruchwyllo rheolaidd.
- Cymorth corfforaethol da i'r Gwasanaethau Plant gan gynnwys gan Aelodau Etholedig.
- Ymrwymiad clir i gydweithio ledled yr adrannau gwahanol yn yr Awdurdod Lleol i ddarparu'r Gwasanaethau Plant.
- Sefyllfa dda o ran datblygu ymhellach y gwasanaeth i blant a theuluoedd sy'n gysylltiedig â chymorth corfforaethol da, staff ymroddgar a datblygiad gwasanaeth.
- Staff gwaith cymdeithasol sy'n ymwybodol am sefyllfaoedd y plant ac oedd yn ymweld yn rheolaidd.
- System gadarn o baneli aml-asiantaethol gan sicrhau penderfyniadau cyson ac effeithiol am leoliadau a chynllunio parhad.
- Gwasanaethau cyfreithiol yn rhoi cefnogaeth dda wrth wneud penderfyniadau a phrosesau'r llys.
- Cydweithio gydag awdurdod cyfagos i gynyddu nifer y lleoliadau maeth.
- Gweithio gyda darparwr gofal preswyl i leoli mwy o blant yn agosach at adref.
- Mae gweithio partneriaeth cryf yn gwella canlyniadau i bobl ifanc, gan gynnwys arfer da o ran y gefnogaeth aml-asiantaethol sy'n cael ei chynnig i ddarparwyr gofal a phobl ddigartref.
- Roedd pobl sy'n gadael gofal yn bositif iawn am yr help a gawsant gan ymgynghorwyr personol.
- Plant yn cael eu hamddiffyn gan ymatebion diogelu prydlon ac asesiadau amserol.

Nododd yr Archwiliad hefyd sawl maes oedd angen gwelliannau pellach fel a ganlyn:

Arwain, rheoli a llywodraethu

- Mae angen ymgorffori egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ymhellach o ran arferion gwaith cymdeithasol.
- Mae uwch reolwyr yn ymwybodol am y flaenoriaeth i ailgreu ystod o wybodaeth rheoli perfformiad i gynorthwyo staff a rheolwyr i gynnig gwasanaethau amserol ac effeithiol yn dilyn gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.
- Mae angen gwaith pellach i ddatblygu system sicrwydd ansawdd cynhwysfawr sy'n ymgorffori tasgau penodol i reolwyr.
- Byddai ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn elwa ar adolygiad o weithrediad presennol y system gofnodi trydanol, ac ar hyfforddiant pellach i gefnogi ei ddefnydd.
- Dylai'r Awdurdod Lleol barhau i flaenoriaethu llenwi swyddi gwag drwy arferion recriwtio a monitro rhesymau dros adael.

Trefniadau mynediad: gwybodaeth, cyngor a chymorth

- Byddai adolygiad o atgyfeiriadau lle derbyniwyd cysylltiadau neu atgyfeiriadau blaenorol yn fuddiol i sicrhau bod trefniadau penderfynu yn gadarn.

Asesu

- Rhaid i asesiadau ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael gan gysylltiadau blaenorol ac ymgorffori unrhyw risgiau.
- Dylai ymarferwyr geisio barn plant yn uniongyrchol, os byddant ar eu pen eu hun, lle bo'n briodol, ac amlinellu'r rhain yn glir yn yr asesiadau.

Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

- Bydd yr Awdurdod Lleol yn awyddus i sicrhau recordio cyfrannol gan gynnwys y rhesymeg dros benderfyniadau a chynnwys ymweliadau â phlant, gan ymgorffori asesiadau risg a chynlluniau rheoli i gynlluniau gofal a chymorth.
- Dylid adolygu llwythi achos Swyddogion Adolygu Annibynnol (SAA) a dylai SAA flaenoriaethu siarad â phlant cyn cyfarfodydd adolygu.
- Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod plant perthnasol yn cael eiriolwyr ac ymwelwyr annibynnol.
- Dylid cynnal paneli lleoli allan o ardal yn unol â'r rheoliadau.

Diogelu

- Dylid datblygu arferion o ran gweithio ar y cyd â phlant a theuluoedd; ystyried y risgiau, cryfderau, rhwystrau a chytuno ar ganlyniadau lle bo'n bosibl.
- Dylid cynnal adolygiad rheolaidd o wybodaeth perfformiad diogelu gan yr uned ddiogelu.

Mae'r meysydd datblygu hyn wedi'u hymgorffori i Gynllun Gweithredu sy'n cael ei fonitro gan y Gyfarwyddiaeth yn rheolaidd. Mae AGC hefyd yn monitro cynnydd drwy ei weithgareddau adolygu perfformiad parhaus.

Gweithgareddau Swyddogion Adolygu Annibynnol

Ar ôl Archwiliad Plant AGC ym mis Mai 2018, cynhaliwyd gweithgaredd ffocws yn ystod Chwefror 2019 mewn perthynas â sut mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hyrwyddo llais y plentyn. Cynhaliwyd y gwaith dilyniant hwn mewn ymateb i ganfyddiad yr archwiliad blaenorol wnaeth nodi nad oedd plant yn mynychu eu cyfarfodydd adolygu, a doedd SAAau ddim yn rheolaidd yn canfod barn y plant cyn cyfarfodydd. Felly roedd y gweithgaredd ffocws hwn yn edrych ar sut roedd arferion wedi datblygu ers yr archwiliad. Daeth y gwaith dilyniant i'r casgliad bod *'ychydig o blant yn mynychu eu cyfarfodydd adolygu, ychydig o blant yn cael eu gweld cyn ac ar ôl eu cyfarfodydd adolygu gan SAAau a diffyg tystiolaeth o ymgysylltu ystyrion gyda phlant'*. Fodd bynnag, bu i'r gwaith adnabod bod uwch reolwyr yn ymwybodol o'r hyn oedd angen ei wella gan amlygu bod cynlluniau ar waith i ddechrau datrys hyn. Ymhlith y meysydd i'w gwella oedd:

- Sicrhau bod SAAau yn siarad â phlant yn breifat cyn cyfarfodydd adolygu, oni bai bod y plentyn yn gwrthod gwneud hynny neu os yw'r SAAau yn ystyried hyn yn amhriodol oherwydd oedran neu ddealltwriaeth y plentyn;
- Rhoi ffordd i uwch reolwyr i gael sicrwydd bod gan y SAAau gapasiti i gyflawni eu rôl, gan gynnwys goruchwyllo ymgysylltiad ystyrion a chynllunio gofal i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei gynrychioli; a
- Sicrhau bod arferion yn dal i ddatblygu yn unol â safonau ymarfer cenedlaethol

Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad i'r Gwasanaethau Oedolion

Cynhaliwyd gweithgaredd â ffocws ym mis Chwefror 2019 o'r gwasanaeth un pwynt mynediad o fewn y Ganolfan Gyswllt am ymdrin ag ymholiadau iechyd a gofal

cymdeithasol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Oedolion. Bu i AGC gydnabod bod y gwasanaethau Un Pwynt Mynediad wedi'u dylunio gyda phrosesau llif gwaith clir i annog a galluogi ymateb syml ac aml-asiantaethol i'r rheiny sy'n nodi bod angen gwybodaeth arnynt, cyngor a chymorth gan y gwasanaethau oedolion. Yn gyffredinol, daeth archwilyr i'r casgliad bod atebwyr y ffôn yn trin unigolion gyda pharch ac urddas, ac yn bwynt cyswllt positif. Gwnaethant hefyd lwyddo i amlygu bod nifer o faterion yn cael eu datrys mewn modd amserol heb unrhyw ymyriad statudol arall. Fodd bynnag, gwnaethant nodi bod ychydig o oedi pan roedd angen ymatebion dilynol gan bobl ar y ffôn neu dimau gwaith cymdeithasol penodol oherwydd materion adnoddau oedd yn effeithio'n negyddol ar brofiad cyffredinol y person.

Mewn ymateb y hyn, nododd AGC bod dau brif faes oedd angen eu gwella fel a ganlyn:

- Bydd uwch reolwyr yn awyddus i barhau i gael sicrwydd bod y rheiny sy'n cynnal asesiadau cyfrannol wedi cael hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i feddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd ar gyfer y rôl hon.
- Parhau i geisio gwelliannau o ran capasiti a fel arall i leihau oedi o ran trosglwyddo i atebwyr ffôn allanol, y tîm derbyn ac asesu a thimau tymor hirach. Parhau i adolygu cyfleoedd i gynyddu capasiti gofal cartref.

Archwiliadau Cartrefi Gofal Preswyl

Yn rhan o'i gylch flynyddol o archwiliadau o leoliadau cofrestredig, bu i AGC archwilio tri o'n lleoliadau cartrefi gofal preswyl yn ystod 2018/19. Roedd y rhain ynghylch cartrefi gofal Tŷ Dewi Sant, Tŷ Dyfan a Southway. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau hyn a meysydd i'w gwella isod.

Cartref Gofal Preswyl Tŷ Dewi Sant

Arolygodd AGC Tŷ Dewi Sant ym Mhenarth ym mis Mawrth 2019. Ar y cyfan, nododd yr archwiliad bod '*Tŷ Dewi Sant yn cynnig safon dda o ofal mewn amgylchedd glân*'.

Yn ogystal, bu i'r asesiad nodi:

- Ar y cyfan, roedd preswylwyr yn fodlon yn byw gartref ac roedd ganddynt berthnasau da gyda'r staff oedd yn gofalu amdanynt.
- Mae staff yn deall anghenion ieuchyd a gofal unigolion ac mae'r cartref yn cael ei gefnogi gan ystod o weithwyr proffesiynol ieuchyd sy'n ymweld.
- Mae preswylwyr yn cael profiad o ofal a chymorth yn y ffordd yr hoffent ei gael, a phryd y mae ei angen, ac yn elwa o ofal sydd wedi'i gynllunio yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau eu hunain.
- Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau.
- Mae'r staff yn gyfeillgar, yn gofalu ac yn gefnogol ac mae ganddynt amser digonol i dreulio gyda nhw i sicrhau bod modd bodloni'r anghenion emosiynol, seicolegol a chorfforol.

Doedd dim materion o hysbysiadau peidio â chydymffurfio yn dilyn yr archwiliad hwn, a dim achos o beidio â chydymffurfio. Cyflwynodd AGC argymhellion i wella ymhellach y gwasanaeth fel a ganlyn:

- Ystafelloedd Ymolchi – Gwaredu'r holl annibendod o'r ystafelloedd ymolchi cyffredin.
- Meddyginiaeth – Cryfhau ymarferion yn y cartref i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu cofnodi'n gywir.
- Dogfennaeth – Ail-ymweld â dogfennaeth a ddefnyddir yn y cartref i sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth ofynnol.

Cartref Gofal Preswyl Tŷ Dyfan

Archwiliodd AGC Tŷ Dyfan yn Y Barri ym mis Chwefror 2019. Ar y cyfan, nododd yr archwiliad bod y cartref gofal yn cynnwys safon dda o ofal mewn amgylchedd glân a bod y bobl gofrestredig wedi arddangos eu bod wedi ymrwmo i wella'r gwasanaeth a chynnal ei ansawdd. Nododd yr archwiliad hefyd bod y preswylwyr yn gyffredinol hapus gyda'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn ac yn elwa o ryngweithio positif gyda'r staff.

Fodd bynnag, nododd adroddiad yr archwiliad nad oedd cyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau ar gael bob tro, ac nid oedd anghenion cymdeithasol ac emosiynol unigolion yn cael eu hadnabod bob tro i bennu a fyddai modd hyrwyddo eu llesiant drwy'r gweithgareddau.

Doedd dim materion o hysbysiadau peidio â chydymffurfio yn dilyn yr archwiliad hwn, a dim meysydd peidio â chydymffurfio wedi'u hadnabod. Cyflwynodd AGC argymhellion i wella ymhellach y gwasanaeth fel a ganlyn:

- Cynlluniau unigol – sicrhau bod pob cynllun gofal unigol yn cael ei addasu i adlewyrchu anghenion presennol.
- Sicrhau bod pob aelod staff yn gofyn am brawf adnabod fel sydd angen gan bobl sy'n ymweld â'r cartref.
- Mae angen ystyried anghenion unigol a chymdeithasol pobl i hyrwyddo llesiant drwy'r rhaglen weithgareddau.
- Meddyginiaeth – Cryfhau ymarferion yn y cartref i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhannu a'u cofnodi'n gywir.

Cartref Gofal Preswyl Southway

Bu i AGC archwilio cartref gofal preswyl Southway yn y Bont-faen yn ystod mis Ebrill 2019. Ar y cyfan, daeth yr archwiliad i'r casgliad bod preswylwyr a'u teuluoedd yn canmol y gofal y maent yn ei dderbyn a'u bod yn byw mewn 'amgylchedd sy'n lân a chartrefol gyda gwaith adfywio parhaus wedi'i gynllunio'. Nododd yr adroddiad bod cyfleoedd i breswylwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau weithiau, ond does dim cydlynedd gweithgareddau penodol yn y cartref. Er gwaethaf hyn, nododd adroddiad yr archwiliad nad oedd gan staff ddigon o amser yn y dydd i'w dreulio gyda phreswylwyr i sicrhau bod eu hanghenion emosiynol, seicolegol a chorfforol yn cael eu bodloni. Er bod systemau ar waith i sicrhau atebolrwydd gweledol er mwyn goruchwyllo'r gwasanaeth, nododd yr adroddiad bod angen cryfhau systemau i sicrhau gofal diogel o safon.

Doedd dim materion o hysbysiadau peidio â chydymffurfio yn dilyn yr archwiliad hwn, a dim meysydd peidio â chydymffurfio wedi'u hadnabod. Cyflwynodd AGC argymhellion i wella ymhellach y gwasanaeth fel a ganlyn:

- Meddyginiaeth – angen cryfhau ymarferion yn y cartref i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhannu'n ddiogel a'u cofnodi'n gywir.
- Sicrhau goruchwyliaeth fel sy'n briodol o ran iechyd a llesiant defnyddwyr gwasanaeth gyda'r nos.
- Sicrhau bod dogfennaeth a chynlluniau personol yn cael eu diwygio i adlewyrchu anghenion presennol pobl.
- Systemau dogfennaeth cadarn mewn perthynas â chynlluniau personol – heb eu gweithredu i gasglu gwybodaeth fel bod modd adnabod a gweithredu mewn modd amserol.
- Sicrhau bod staff yn cynnal gwiriadau adnabod cyn i ymwelwyr fynd i mewn i'r cartref gofal.

Archwiliad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ar y Cyd

Bu i'r Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gyflawni archwiliad ar y cyd o Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol Tîm Iechyd Meddwl Lleol y Fro ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Bro Morgannwg yn ystod mis Rhagfyr 2018. Ymchwiliodd yr archwiliad sut roedd y gwasanaeth yn cyflawni Safonau Iechyd a Gofal (2015) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bu i AGIC hefyd ymchwilio sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (2010) a Deddf Galluedd Meddyliol (2005).

Ar y cyfan, nododd yr archwilywyr bod y gwasanaeth yn 'cynnig gofal diogel ac effeithiol i'w ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd y prif meysydd oedd yn perfformio'n dda yn ôl yr archwiliad fel a ganlyn:

- Roedd adborth defnyddwyr gwasanaeth yn bositif ar y cyfan.
- Prosesau rheoli meddyginiaethau cadarn ar waith.
- Darpariaeth gweithiwr cymorth oedd yn dangos tystiolaeth o effaith bositif ac uniongyrchol ar ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Mesur Iechyd Meddwl (2010) a dogfennaeth gyfreithiol.
- Adnabod gweledigaeth ar gyfer dyfodol y gwasanaeth gyda chefnogaeth tîm rheoli ymroddgar.
- Model arwain integredig cryf, gyda chefnogaeth yr uwch dîm rheoli.
- Roedd prosesau cadw cofnodion yn gyson ac o safon dda.
- Arferion aml-ddisgyblaethol da mewn perthynas ag asesiadau, cynllunio gofal ac adolygu. Roedd cynlluniau gofal yn seiliedig ar gryfderau, yn canolbwyntio ar adfer a thargedau.

O ran meysydd i'w gwella, nododd yr archwiliad:

- Recriwtio i rolau allweddol, megis seiciatryddion a seicolegwyr.
- Amseroldeb trafndiaeth defnyddwyr gwasanaeth i fan diogel a/neu'r ysbyty.
- Trefnu clinigau cleifion allanol a meddyginiaeth.
- Staff clinigol yn llenwi ffurflenni priodol i asesu capasiti defnyddwyr gwasanaeth.
- Eglurder i staff o ran prosesau a gweithdrefnau newydd ar ôl uno'r tri thîm.



Hyrwyddo'r Gymraeg a Mynediad at Wasanaethau

Cyhoeddwyd 'Mwy na Geiriau' yn 2012, a'r nod oedd cryfhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg. O ganlyniad, roedd uchelgais sylweddol i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r fframwaith strategol hon yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion:

- Cynnig gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr
- Cynnig Rhagweithiol – prif egwyddorion sy'n nodi mai cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r un safon â'r Saesneg yw'r prif ffocws.
- Ansawdd gofal
- Parch ac urddas
- Cydraddoldeb
- Cyfrifoldeb ar y cyd

Ar ôl ei gyhoeddiad, cafodd fframwaith strategol dilynol ar gyfer *Gwasanaethau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yn y Gymraeg* ei gyhoeddi yn 2016. Nod y fframwaith strategol dilynol hwn oedd adeiladu ac ymgorffori ymhellach gwaith y

strategaeth wreiddiol wrth adlewyrchu ar unrhyw newidiadau yn y dirwedd wleidyddol a deddfwriaethol. Yn y fframwaith strategol dilynol, mae'r Cynnig Rhagweithiol yn dal i fod yn elfen hanfodol lle dylai'r pwyslais fod ar y sefydliadau/gweithwyr proffesiynol/staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i gleifion, yn hytrach na aros iddynt ofyn amdanynt.

O ran Proffil y Gymraeg yng Nghyngor Bro Morgannwg, nododd Asesiad o Anghenion y Boblogaeth bod oddeutu 10.8% o breswylwyr Bro Morgannwg yn adnabod eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac oddeutu 29.6% o bobl ifanc 15 oed neu iau yn adnabod eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r data hwn yn amlygu bod angen sicrhau ein bod yn dal i ymrwymo i gynnig a chyflawni gwasanaethau Cymraeg ledled Bro Morgannwg. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cryfhau ein ffocws ar ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, oherwydd sylweddolwn bod gofal ac iaith law yn llaw â'i gilydd. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn y fframwaith strategol dilynol.

Yn 2018/19, rydym wedi:

- Gweithio gyda Chaerdydd i greu Fforwm Mwy na Geiriau rhanbarthol sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mae'r Fforwm yn cymharu cynnydd a wnaed ledled y rhanbarth gan ddefnyddio'r templed camau Fframwaith Strategol, gyda bwriad i rannu gwybodaeth ac adnabod cyfleoedd cydweithio. Ymhlith yr eitemau a drafodwyd mae recriwtio, hyrwyddo'r cynnig Cymraeg i staff gwasanaethau cymdeithasol arfaethedig a phresennol, gofynion y Gymraeg i ddarparwyr gwasanaeth a llywodraethiant y Fforwm. Ar hyn o bryd, mae'r Fforwm yn gweithio ar bennu Cylch Gorchwyl er mwyn bwrw ymlaen â datblygiad strategaeth ranbarthol.
- Yn y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Annibynnol, rydym wedi sefydlu ymateb awtomataidd yn y Gymraeg i'r Linell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, sy'n sicrhau ein bod yn bodloni Safonau'r Gymraeg a sicrhau ei fod yn efelychu'r hyn sydd ar gael drwy GCCh y Gwasanaethau Oedolion.
- Wedi parhau i hyrwyddo cyrsiau'r Cymraeg a sesiynau blasu i staff ym mhob rhan o'r Adran.
- Sicrhau bod staff yn gallu mynychu cyrsiau Cymraeg o fewn oriau gwaith neu hawlio'r oriau nôl. Mae hyn wedi cynyddu nifer y bobl sy'n mynd ar y cyrsiau.



Ein Gwaith Partneriaeth a Chydweithredu

Drwy ddilyn agenda gydweithredol flaengar drwy weithio'n agos gydag ystod o bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol llwyddom i gynnal gwasanaethau cymorth mwy integredig. Dyma grynodedb o rai o'r trefniadau cydweithredu allweddol hyn.

Rhaglen Waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg (â chymorth Grŵp Arweinyddiaeth Strategol) yn darparu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer goruchwyllo gwaith y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ac yn sicrhau bod trefniadau ar waith i weithredu'r Ddeddf yn effeithiol ar sail ranbarthol. Caiff y cynnydd ei fonitro yn erbyn y Rhaglen Waith Ranbarthol hon a'i adrodd i'r Bwrdd a Grŵp yr Uwch Arweinwyr i weithredu camau yn ôl yr angen. Mae'r Bwrdd yn bennaf gyfrifol am oruchwyllo cyflawniad yn erbyn blaenoriaethau a nodwyd gan gynnwys:

- **Cynllunio a Hyrwyddo Gwasanaethau Ataliol** (gan gynnwys paratoi'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth)
- **Gweithio Lleol** (gan gynnwys paratoi Cynlluniau Ardal)
- **Home First a Llif Cleifion**

- **Integreiddio** (yn unol â Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – Pobl hŷn; Pobl ag anableddau dysgu, gofawyr, Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anableddau neu salwch)
- **Comisiynu ar y Cyd** (blaenoriaethu sefydliad cronfeydd a rennir ar gyfer llety gofal i bobl hŷn)
- **Datrysiaid Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru**

Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn cael ei ddiweddarau ynghylch elfennau eraill y gwaith o weithredu'r Ddeddf sy'n cael eu harwain gan Grŵp Llywio Rhanbarthol Awdurdod Lleol. Sefydlwyd y Grŵp hwn i ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu'r Ddeddf ac mae'n cynnwys nifer o lifau gwaith a ddatblygwyd mewn ymateb i'r gofynion. Rhoddwyd cyfrifoldebau i uwch swyddogion Cyngorau Caerdydd a Bro Morgannwg dros wneud cynnydd yn y meysydd hyn a chyflwyno adroddiadau diweddarau ac uwchgyfeirio i'r Bwrdd yn ôl y gofyn. Caiff gwaith y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ei ysgogi gan 'rith-dîm Integreiddio' sy'n cynnwys uwch swyddogion ar y cyd ac uwch arweinwyr a ddynodwyd gan bartneriaid statudol. Mae'r tîm hwn yn ymgymryd â'r gwaith o gyfuno cyllid y Bartneriaeth gyfan er mwyn lleihau dyblygu gwaith a manteisio'n llawn ar effeithlonrwydd i sicrhau y ceir canlyniadau llwyddiannus.

Comisiynu Rhanbarthol

Pwrpas y trefniadau cronfeydd a rennir yw sicrhau bod byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn cydweithio i fanteisio ar eu dylanwad i siapio datblygiad y gwasanaethau i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod capasiti digonol ac ystod briodol o wasanaethau o safon i ateb y galw.

Bu i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r gyllideb a rennir. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldebau dros wneud penderfyniad (h.y. cytuno'r gyllideb a rennir a'i rheolaeth) yn gorwedd gyda Chyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Rhaglen Drawsffurfio Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned

Cyhoeddodd Lywodraeth Cymru Gronfa Drawsffurfio werth £100m yn ystod 2018/19, gyda'r nod o ddatblygu modelau iechyd a gofal cymdeithasol newydd ac ar y cyd. Mae'r project Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned wedi'i ddatblygu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro mewn ymateb i'r gronfa hon. Dros gyfnod o ddwy flynedd bydd y drefn gydweithio'n derbyn £7m i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol fydd yn cael effaith ar atal salwch a symud y ffocws o'r ysbyty i gartrefi a chymunedau. Ar ôl cadarnhau'r cyllid hwn, mae 7 o broiectau wedi'u hadnabod fydd yn cael eu rhoi ar waith yn unol â blaenoriaethau'r gronfa. Ymhlith y 7 project sy'n cael eu symud ymlaen dan y gronfa mae:

- **Model Clwstwr Uwch** – Bydd hyn yn creu adnodd i werthuso'r opsiynau ar gyfer datblygu model llywodraethu arloesol i gefnogi system llesiant, iechyd a gofal syml. Bydd hefyd yn cael cefnogaeth model gweithlu fydd yn cydlynw ffocws y gweithlu llesiant ar lefel leol gan gynnwys rhagnodwyr cymdeithasol, cysylltwyr cymunedol ac yn bwysicach fyth, adnodd datblygu cymunedol.
- **Rhagnodwyr Cymdeithasol** – Bydd hyn yn golygu datblygu un brand Llesiant ar gyfer y rhanbarth (Materion Llesiant) fydd yn dwyn iechyd, gofal cymdeithasol, tai a'r Trydydd Sector ynghyd dan un ymbarél. Bydd hyn yn cynnwys datblygu un pwynt mynediad uwch fydd ar-lein a dros y ffôn i alluogi unigolion i chwilio am wasanaethau llesiant perthnasol a threfnu asesiad 'Beth sy'n Bwysig'. Bydd y

gwasanaeth 'Materion Llesiant' yn bwynt mynediad i ystod o wasanaethau ledled y rhanbarth. Bydd hyn yn cael cefnogaeth cyfeirlyfr ar-lein fydd yn mynd nôl i Dewis.

- **Un Pwynt Mynediad ar gyfer Brysbennu MT** – Nod y project hwn yw adeiladu ar y model presennol o ran mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, drwy ehangu'r gwasanaeth i feddygfeydd meddygon teulu. Bydd hyn yn golygu bod modd cyfeirio dinasyddion at ystod o wasanaethau llesiant fydd yn cynnwys gofal cynradd, cymunedol a chymdeithasol, ac yn sicrhau bod sgiliau meddygon teulu ac apwyntiadau'n cael eu defnyddio'n briodol. Mae'r gwaith peilot cyntaf wedi dechrau yng Nghlwtwr Dwyrain y Fro (ym Mhenarth) ym Meddygfa Redlands fel safle cyntaf, ac yna bydd yn cael ei gyflwyno i ardaloedd ledled y Fro. Byddwn yn cyflwyno'r model hwn ledled rhanbarth Caerdydd a'r Fro ehangach maes o law.
- **Ewch â Fi Adre** – Bydd y gwasanaeth hwn yn un pwynt mynediad yn lleoliad Ysbyty. Drwy weithio ar y cyd ag Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Drydedd Sector, byddwn yn gallu rhoi gwasanaethau cymunedol ar waith. Bydd y tîm yn cwrdd â chleifion i gael sgysiau 'Beth sy'n Bwysig' er mwyn creu cymorth wedi'i deilwra'n holistig sy'n bodloni'n well anghenion llesiant yr unigolion. Gall hyn gynnwys darparu ymyriadau ataliol, cefnogi byw'n annibynnol, rhyddhau cleifion a lleihau'r risg o gael eu derbyn eto.
- **Ewch â Fi Adre a Mwy** – Nod y project hwn yw sicrhau bod unigolion yn treulio'r amser lleiaf posibl yn yr Ysbyty sy'n berthnasol i'w hanghenion gofal. Pwyslais y project yw darparu gofal yn eu lleoliad cartref sy'n syml, ond fydd yn cynnwys sawl sefydliad. Unwaith eto, mae'r ffocws ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn i'w helpu nhw i aros yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartref eu hunain cyn gynted â phosibl.
- **Dull Ymwybyddiaeth PPN** – Mae'r project hwn wedi deillio o ganfyddiadau ac argymhellion Adroddiad Cadernid Meddwl Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018 ar y newidiadau sydd eu hangen i gefnogi iechyd emosiynol a meddyliol i blant a phobl ifanc. Bydd y project hwn yn canolbwyntio ar weithredu ffyrdd newydd o weithio ledled iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a'r Trydydd Sector i gynyddu gwydnwch ac ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc ledled y rhanbarth drwy gymorth cyfoedion, ymyrraeth amserol ac atgyfeirio. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan dîm o 'Weithwyr Gwydnwch' a gyflogir gan y BIP, a bydd yr adnodd wedi'i leoli mewn dau Dîm Addysg presennol (Tîm Athrawon Arbenigol Caerdydd a Thîm Allgymorth y Fro) yn gweithio o fewn clystyrau'r ysgolion.
- **Tîmau Cymunedol Integredig yn seiliedig ar Leoedd** – Bydd y project hwn yn canolbwyntio ar adeiladu capasiti byr dymor i weithio gyda staff iechyd a gofal cymdeithasol, meddygon teulu a'r Trydydd Sector ledled y rhanbarth fydd yn cynnig glasbrint i'r gwasanaeth gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar leoedd. Bydd hyn yn ceisio gwella ansawdd y gofal a'r profiadau gofal drwy gydlynw gwasanaethau iechyd a gofal ymhellach, cefnogi cyflawniad gofal integredig aml-asiantaethol wrth ddatblygu cysylltiadau â'r Trydydd Sector a gwirfoddolwyr lleol, lleihau achosion brys o dderbyn i ysbytai, gwella profiad cleifion/defnyddwyr gwasanaeth gydag anghenion cymhleth/aml-gyfilyrau hirdymor, cefnogi pobl gyda mynediad at wybodaeth am eu hiechyd a llesiant, adnabod a manteisio ar gyfraniad asedau cymunedol at iechyd a llesiant a datblygu cyfleoedd pellach i gydeoli gwasanaethau drwy hybiau ac adeiladau cymunedol eraill.

Cronfa Gofal Integredig

Pwrpas y gronfa hon yw gyrru a hwyluso integreiddiad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy weithio partneriaeth uwch rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai a'r Trydydd Sector. Sgôp y gronfa hon yw cefnogi pobl hyn i gynnal eu hannibyniaeth i atal nhw rhag cael eu derbyn i'r ysbyty ynghyd ag atal oedi o ran rhyddhau o'r ysbyty, datblygiad mwy o wasanaethau integredig i bobl ag anableddau dysgu, gweithredu Gwasanaeth Awstistiaeth Integredig i Gymru, datblygu mwy o

wasanaethau integredig i blant ag anghenion cymhleth a gweithredu System Gofal a Gwybodaeth Cymunedol Cymru. Mae effaith y Gronfa Gofal Integredig ar fywydau bob dydd pobl ledled rhanbarth Caerdydd a'r Fro yn amlwg yn yr astudiaethau achos hyn.



7. Cael Rhagor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi, gyda gwybodaeth allweddol a dadansoddiadau, lwyddiant yr awdurdod lleol wrth wella lles y sawl sydd angen ein help a'n cymorth. Nid hon yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, partneriaid allweddol a darparwyr gwasanaeth. Mae gennym lawer o wybodaeth gefndirol sy'n sail i'r adroddiad hwn ac sy'n rhoi llawer o fanylion ychwanegol am yr hyn a wnawn a sut y gwnawn hynny. Mae'n bwysig cofio, nad yw rhywbeth sydd heb ei nodi yn yr adroddiad hwn fel blaenoriaeth allweddol yn golygu nad ydym yn ei wneud gan fod llawer o weithgareddau ar draws y gwasanaethau cymdeithasol sy'n rhan o'n helpu i ddarparu ar gyfer rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymuned.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn, dyma rai o'r dogfennau fydd yn cynnig rhagor o fanylion:

- Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Bro Morgannwg 2016 - 2020
- Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro
- Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro a'r Cynllun Ardal cysylltiedig a'r Cynllun Gweithredu Ardal.
- Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a Chynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol.
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc: Cynllun Gwasanaeth
- Gwasanaethau Oedolion: Cynllun Gwasanaeth
- Rheoli Adnoddau, Diogelu a Pherfformiad